



Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 18FED GORFFENNAF, 2019**

**\* NODER \***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**[https://gwynedd.public-i.tv/core//cy\\_GB/portal/home](https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home)**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**[eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru](mailto:eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru)**

(DOSBARTHUYD Dydd Mercher, 10 Gorffennaf 2019)

**Dilwyn Williams  
Prif Weithredwr**

**[www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)**

**DYDD MERCHER, 10 GORFFENNAF 2019**

Annwyl Gyngorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 18 GORFFENNAF 2019**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h.**, **DYDD IAU, 18FED GORFFENNAF, 2019 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD. LL55 1SH**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig  
Annibynnol – Siambr Hywel Dda  
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai  
Annibynnol Unedig Gwynedd - Ystafell Daron

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. COFNODION

6 - 16

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Mai, 2019 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

## 5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

## 6. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 7. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.9 o'r Cyfansoddiad.

## 8. STRATEGAETH TAI

17 - 61

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Tai (ynghlwm).

## 9. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2018/19

62 - 120

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

## 10. ADDASIAD I BOLISI TAL Y CYNGOR 2019/20

121 - 122

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol (ynghlwm).

## 11. GOSOD CYFLOG SWYDD CYFARWYDDWR RHAGLEN BWRDD

123 - 124

## **UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol (ynghlwm).

- 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2018/19** 125 - 141

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (ynghlwm).

- 13. PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU** 142

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

- 14. PORTFFOLIOS CABINET** 143 - 144

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

- 15. ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR** 145 - 146

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd (ynghlwm).

- 16. ADOLYGIAD O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 147 - 150

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd (ynghlwm).

- 17. RHYBUDDION O GYNNIG**

### **(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD NIA JEFFREYS**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Nia Jeffreys yn cynnig fel a ganlyn:-

“Galwn ar y Cyngor hwn i alw am annibyniaeth i Gymru gan anfon neges glir nad yw Cymru yn rhy fach na thlawd i sefyll ar ei thraed ac ein bod yn dyheu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ein dyfodol yng Nghymru, ac nid yn Llundain.”

### **(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELWYN EDWARDS**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elwyn Edwards yn cynnig fel a ganlyn:-

“Bod y Cyngor yn gofyn i'r Gwasanaeth Tai ddarparu gwybodaeth Rhestrau Aros am dai rhent cymdeithasol at ddibenion asesu angen perthnasol ar sail pob ardal, yn hytrach na'r niferoedd a gyflwynir o dros Wynedd i gyd ar gyfer pob ardal.”



## **18. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL**

### **(A) YMATEB I RYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD SION JONES 151 - 152**

Cyflwyno, er gwybodaeth – llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o cynnig y Cynghorydd Sion Jones i gyfarfod 7 Mawrth, 2019 ynglŷn â gwerthu cŵn bach drwy drydydd parti (ynghlwm).

### **(B) YMATEBION I RYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD CATRIN WAGER 153 - 158**

Cyflwyno, er gwybodaeth – llythyrau gan Lywodraethau Cymru a'r DU mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Catrin Wager i gyfarfod 7 Mawrth, 2019 ynglŷn â'r cynnig ar newid hinsawdd (ynghlwm).

---

## CYNGOR BLYNYDDOL 2/5/19

---

**Yn bresennol:** Y Cyngorydd Edgar Wyn Owen (Cadeirydd);  
Y Cyngorydd Simon Glyn (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda Ann Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Rhun ap Ieuan (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Rhodddwyd anerkriad gan y Cyngorydd Annwen Hughes, Cadeirydd 2018/19.

### 1. CADEIRYDD

Etholwyd y Cyngorydd Edgar Wyn Owen yn gadeirydd am 2019/20.

Llofnododd y Cyngorydd Edgar Wyn Owen ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2019/20.

### 2. IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cyngorydd Simon Glyn yn is-gadeirydd am 2019/20.

Llofnododd y Cyngorydd Simon Glyn ddatganiad yn derbyn y swydd o is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2019/20.

### 3. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Anwen Davies, John Brynmor Hughes, Linda Morgan, W.Roy Owen, W.Gareth Roberts, Hefin Underwood a Gethin Glyn Williams.

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2019 fel rhai cywir.

## 5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r Cyngorydd Linda Ann Jones a'r teulu ar golli mab yn ddiweddar.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

Croesawyd y Cyngorydd Gareth Tudor Morris Jones, yr aelod newydd dros Ward Morfa Nefyn, i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

Llongyfarchwyd:-

- Y criw o Gynghorwyr a enwebwyd gan Prostate Cymru am wobwr ar ôl codi dros £8,000 i Elusen Prostate Cymru yn ystod digwyddiad "Trôns dy Dad" yn Awst 2018. Nodwyd y bu'r Cynghorwyr Dilwyn Lloyd, Roy Owen a Steven Churchman yn y seremoni wobrwyo yng Nghaerdydd ym mis Ebrill.
- Mali Jones o Ysgol y Berwyn, Y Bala, am sgorio cais gwych i Dîm Rygbi Merched dan 18 Cymru yn erbyn Lloegr yn ddiweddar.
- Lowri Howie, o Ysgol Gynradd Llanbedr, ar ennill cystadleuaeth sgïo slalom rhyng-ysgolion Prydain yn ddiweddar yn Pila, yr Eidal, gan ei gwneud yn brif enillydd y merched dan 10 oed, a thrwy hynny roi Ysgol Gynradd Llanbedr, ynghyd â Gwynedd, ar y map.

## 7. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Dim i'w nodi.

## 8. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

## 9. CWESTIYNAU

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)*

### (1) Cwestiwn gan y Cyngorydd Kevin Morris Jones

"Yn dilyn yr holl drafferthion gyda'r sefyllfa barcio yn Llanberis dros y Pasg, byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod beth mae'r Cyngor yma yn bwriadu wneud i wella'r sefyllfa, gan gadw mewn cof bod rhaid cael cydbwysedd gyda hybu twristiaeth ac iechyd a diogelwch yn yr ardal?"

### Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cyngorydd Gareth Griffith

"Mae'n glir bod yr Adran wedi cael amser prysur dros y Pasg - roedd y tywydd yn boeth ofnadwy, ac mae'r Aelod yn adrodd yr hyn a welsom yn yr ardal, pryd roedd yna gymaint o dwristiaid yma dros y Pasg. O ran beth mae'r Adran yn mynd i'w wneud,

mae'r Adran yn ymdrechu i wneud gwaith dros y sir yn gyfan gwbl. Mae yna waharddiadau parcio, mae yna arwyddion, mae yna ddirwyon wedi cael eu gosod, a bydd y sefyllfa yn cael ei fonitro dros y cyfnodau yma i wella trefniadau, nid yn unig i dwristiaid, ond hefyd i drigolion Gwynedd. Felly, mae'n waith anodd, a gan fod y Pasg yn hwyrach y tro yma, roedd yna dipyn mwy o bobl a'r tywydd yn ofnadwy o boeth ac yn denu pobl i'r ardal. Bydd y sefyllfa yn cael ei fonitro ac mae'r Adran hefyd yn cymryd y cyfle i siarad gydag unrhyw un sydd â phroblemau yn eu ward hwy."

### **Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Kevin Morris Jones**

"Efallai bod hi'n amser cael y faniau towio allan a dangos i dwristiaid bod ni'n agored ac yn ddiogel i ymwelwyr a phobl leol ymweld â ni?"

### **Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Gareth Griffith**

"Mae'r Adran yn barod i siarad hefo unrhyw gynghorydd o unrhyw ward. Mae'r Adran wedi bod yn dirwyo. Rwy'n derbyn y pwynt mae'r aelod yn ei wneud ac fe gawn drafodaeth bellach a gweld sut mae pethau'n mynd dros yr haf."

### **(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Paul Rowlinson**

"Yn y cyfarfod diwethaf, wrth drafod y gyllideb, fe amlinellwyd beth oedd ar droed er mwyn ceisio atal tai haf rhag symud i'r Dreth Fusnes ac osgoi'r premiwm tai haf. A fedr yr Arweinydd ein diweddarau ar unrhyw lobïo sydd wedi bod yn digwydd i fynd i'r afael ar hyn?"

### **Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Ein bwriad ni oedd paratoi tystiolaeth, a hoffwn ddiolch i'r Prif Weithredwr am wneud y gwaith yna a'r Adran Gyllid hefyd, a chasglu gwybodaeth allan o'r siroedd sy'n aelodau o'r Fforwm Gwledig, ac mae yna naw sir yn aelod o'r Fforwm. Fe ddaru ni, yn y cyfarfod ar 10 Ebrill, gyflwyno papur i'r Fforwm Gwledig yn amlygu'r gost mewn difri', nid yn unig i gynghorau unigol, ond y gost i gyllideb y wlad Cymru gyfan o fod yn colli'r Dreth Ddomestig yma o'n cyllidebau. Rwy'n falch o ddweud bod y Fforwm Gwledig i gyd wedi cytuno i gefnogi ein cais i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ymgymryd ar ran y Fforwm Gwledig y gwaith o gyflwyno'n hachos i Lywodraeth Cymru. Rwy'n meddwl ei fod yn rhoi mwy o nerth i ni fod yna naw Cyngor, yn hytrach nag un, yn mynd ati ar hyn, ac rydym yn disgwyl adroddiad cynnydd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol ar y gwaith maen nhw wedi wneud. Mae'n werth nodi yn y fan hyn bod y neges wedi cyrraedd adref a bod y gwas sifil o swyddfa Llywodraeth Cymru wedi trefnu i ddod i'n gweld ar 13 Mai er mwyn clywed y dystiolaeth sydd gennym ac i gael gwell dealltwriaeth o'r broblem sydd wedi codi yn dilyn cyflwyno'r hawl i gael codi premiwm tai haf."

### **Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Paul Rowlinson**

"Allwch chi fanylu faint mae'r premiwm wedi codi, neu yn codi, a faint sydd wedi trosglwyddo i Dreth Fusnes felly a pha effaith mae hyn yn cael ar gyllid y Cyngor ac ar y cynlluniau i sicrhau cartrefi addas i bobl Gwynedd?"

### **Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Y diweddaraf sydd gennyf ydi'r ffigurau a roddwyd yn yr adroddiad. Yng Ngwynedd, mae 1,250 o dai domestig wedi trosglwyddo o'r Dreth Gyngor i Drethi Annomestig ers Ebrill 2014. Mae'n hynny'n golygu, ar lefel Treth Ddomestig, colled flynyddol o bron i

£2m o Dreth Cyngor i Wynedd. O'r hyn rydym ni wedi gallu casglu o gynghorau eraill (a rhaid cydnabod mai gwaith cymharol ysgafn ydyw, ond rydym wedi cael atebion gan o leiaf 6 o'r cynghorau), rydym yn amcangyfrif yn geidwadol, bod yna golled i bwrs y wlad Cymru gyfan o tua £4.5m. Hynny yw, mae holl incwm Cymru wedi gostwng o £4.5m dros y cyfnod yna, sydd, wrth gwrs, yn golled i bob un cyngor yng Nghymru. Rydym wedi manylu ar enghreifftiau o hynny. Mae hyd yn oed yn effeithio ar Gaerdydd a Wrecsam a llefydd sydd heb broblem tai haf. Mi ofynnaf i'r Pennaeth Cyllid amlygu i ni faint o bremiwm rydym ni wedi dderbyn a faint oeddem ni'n amcangyfrif y byddem wedi ei dderbyn."

### **Ateb pellach gan y Pennaeth Cyllid**

"Mae'r niferoedd sy'n pasio drosodd o'r rhestr Treth Cyngor i'r rhestr Treth Fusnes yn cyflymu. Yn y flwyddyn sydd newydd orffen, roedd tua 460 eiddo wedi mynd drosodd o'r Rhestr Ddomestig i'r Rhestr Fusnes, sy'n gynydd 60% ar y 280 roedd wedi trosglwyddo yn y flwyddyn gynt. Mae angen ymyrryd i gael mwy o gyfiawnder yn hyn, ac mae'r gwaith hynny'n mynd ymlaen. O ran faint o Bremiwm Treth rydym ni'n gasglu, roeddem wedi amcangyfrif ein bod am gael £2.9m llynedd, gyda £200,000 o hwnnw wedi ei neilltuo i bwrpas plismona'r drefn a mentrau yn y maes tai, a'r gweddill ohono wedi'i neilltuo i weithredu'r Strategaeth Tai fydd yn dod gerbron yn fuan. Tra gawn ni rhwng £2.7m a £2.9m i mewn, yn anffodus, pan mae'r eiddo yn trosglwyddo, mae'r Prisiwr yn ôl-ddyddio rhywfaint ohono. Mae'r golled o'r ôl-ddyddio yn broblem 'cash' benodol i ni, tra mae'r trosglwyddo'n golled i bob Cyngor wrth symud ymlaen, oherwydd bod addasiad i'r dosbarthiad grant ar ei gyfer."

### **Ateb pellach gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Rydw i'n meddwl ein bod wedi amcangyfrif y byddem wedi gallu cael tua £5m y flwyddyn, felly rydym ar ein colled o £2m - £3m y flwyddyn o'r premiwm yn unig, heb sôn am y golled o'r Dreth safonol. Mae'r ateb, wrth gwrs, yn un cymharol eglur a chlir, ac rydym wedi cynnig yr ateb hwnnw, a'r ateb yma fyddwn ni'n drosglwyddo i Lywodraeth Cymru, sef bod angen addasu Deddf Tai Cymru i sicrhau, os oes unrhyw dŷ yn dŷ annedd, yna bydd yn cael ei drethu fel tŷ annedd. Hynny yw, ni chaiff fod yn fusnes oni bai ei fod wedi cael caniatâd cynllunio i'w droi yn ryw fath o fusnes gwahanol. Felly, mae hynny'n eithaf syml ac yn hawdd ei drosglwyddo. Yn digwydd bod, roedd y Prif Weithredwr a minnau wedi cael cyfarfod dechreuol gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a bu i ni godi'r pwynt yma gyda hi, ac mae ganddi hi ddiddordeb. Mae ganddi hi brofiad o sefyllfa o'r math yma, ac yn wir fe ddylai bod ganddi ddiddordeb, achos mae'r Ddeddfwriaeth yma'n golygu ein bod ni, nid yn unig yn colli pres i bwrs y wlad yn gyffredinol, ond yn methu cyflawni'r hyn mae'r premiwm tai haf i fod i'w gyflawni, sef i gael mwy o dai ar gyfer ein pobl leol, ac annog pobl a'i gwneud yn rhwyddach i bobl leol gael tai. Ar hyn o bryd rydym ni'n rhoi pres ym mhocedi'r bobl hynny sy'n gallu fforddio tai haf, ac ar y llaw arall, rydym ni'n methu cael y gwariant a ddylai fod yn dod i'n dwylo ni i wneud gwaith lliniaru a darparu tai ar gyfer ein pobl ein hunain."

Nododd aelod fod y mater hwn wedi'i godi yn y cyfarfod diwethaf, ac yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, nad oedd hawl i drafod y mater eto o fewn 6 mis. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd ymateb i gwestiwn a gyflwynwyd gan aelod yn tramgwyddo'r rheol 6 mis.

### **(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Owain Williams**

"Yn dilyn y ffaith na fydd isetholiad yn Ward Morfa Nefyn bellach, faint yn union o'r cynghorwyr ar Gyngor Gwynedd sydd erbyn hyn wedi cerdded i mewn i'r seddau

hynny heb wynebu etholiad a sut mae'r ffigurau hyn yn cymharu â siroedd cyfagos, h.y. Môn, Conwy a Dinbych?"

#### **Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Fel yr ydych yn ymwybodol, cynhaliwyd etholiadau diweddaraf Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017. Yr adeg honno, nid oedd cystadleuaeth ar gyfer 21 o'r 75 sedd ar Gyngor Gwynedd.

Roedd y sefyllfa ar draws Cymru yn amrywio, gyda chyfanswm o 92 sedd yn ddiwrthwynebiad yng Nghymru yn 2017 (7%), a oedd ychydig yn is na'r sefyllfa yn 2012 pan gafwyd 99 sedd o'r fath, (8%). Mae'n ddiddorol nodi fod dros 50 o'r seddau hynny yn 2017 mewn tair ardal wledig, sef Gwynedd, Powys a Sir Benfro. Dylid hefyd nodi fod gan hanner cynghorau Cymru o leiaf un sedd ddiwrthwynebiad yn 2017.

Roedd y sefyllfa yn y siroedd cyfagos fel a ganlyn:

Conwy - 6 sedd ddiwrthwynebiad (o 59 sedd)

Dinbych - 5 sedd ddiwrthwynebiad (o 47 sedd)

Môn - dim un sedd ddiwrthwynebiad (o 30 sedd)

Rydym yn ymwybodol fod nifer o resymau sy'n ysgogi pobl i sefyll fel Cynghorwyr. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil hefyd yn dangos rhai o'r rhwystrau sydd yn wynebu pobl sydd â diddordeb mewn sefyll. Rhaid cofio hefyd fod y Cyngor yn buddsoddi amser ac adnoddau cyn pob etholiad i annog amrywiaeth ehangach o bobl i sefyll. Mae cyfarch hyn yn sialens barhaus i bob mudiad sydd ynghlwm â Llywodraeth Leol yng Nghymru ac i ninnau hefyd fel cynghorwyr."

#### **Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Owain Williams**

"Mae'r ffigurau yna felly'n dangos bod 7% o seddau drwy Gymru gyfan wedi cerdded i mewn heb etholiad, ond yng Ngwynedd mae'n 30%, sydd 4 gwaith yn fwy na'r cyfartaledd dros Gymru gyfan. Beth ydym ni am wneud yn ei gylch a beth oedd dyddiad cau'r isetholiad diweddaraf?"

#### **Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Rydw i'n hyderus bod y Cyngor wedi cyfarch y gofynion statudol i gyd yn ymwneud â'r etholiad, ac yn wir maent wedi mynd uwchben y gofynion hynny drwy roi gwybodaeth ar y wefan, a hefyd postio allan gwybodaeth i bobl sydd ddim yn defnyddio e-bost. Mae'n bechod mawr fod pobl ddim wedi sefyll yn yr etholiad ym Morfa Nefyn. Rydym ni fel Plaid Cymru yn gweld bod hwn yn bwnc pwysig ac rydym ni'n croesawu dadl am bolisïau. Dydd Sadwrn nesaf, byddaf mewn digwyddiad ym Mhen Llyn sydd wedi'i drefnu gan y Cynghorydd Wager i gael mwy o ferched i sefyll mewn etholiadau. Mae hwn yn bwnc rwy'n ymddiddori'n fawr ynddo a bûm yn darllen adroddiad llywodraeth leol am amrywiaeth ym maes llywodraeth leol sy'n edrych ar y rhwystrau i bobl sefyll. Roedd yna bennod gyfan yna ar fwlio, gwahaniaethu ac aflonyddu ac roedd yn sioc i mi ddarllen mai dim ond traean o gynghorwyr sydd heb orfod dioddef hyn. Gan ein bod yn sôn yn benodol am Forfa Nefyn yn y cwestiwn, hoffwn fachu ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i'r cyn-gynghorydd Sian Hughes am ei blynyddoedd o wasanaeth i'r Cyngor ac ar lawr gwlad yn ei ward, ac yn olaf hoffwn ymestyn croeso cynnes iawn i'r Cynghorydd Gareth Jones, a'i longyfarch."

#### **(4) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

“Mae codiad diweddar yn y Dreth Cyngor wedi taro nifer o deuluoedd yn ariannol. Mae angen diolch i'r Cyngor am godi ymwybyddiaeth am y Rhaglen Gostyngiad Trethi sydd ar gael, ond oes modd i'r Aelod Cabinet egluro beth sydd yn cael ei ddiffinio fel 'incwm isel' a faint o bobl Gwynedd sydd yn cael gostyngiad yn eu Treth Cyngor?”

### **Ateb gan yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cyngorydd Ioan Thomas**

“Mae egluro beth sydd yn cael ei ddiffinio fel 'incwm isel' yn gymhleth a thechnegol.

Defnyddir y term 'incwm isel' yn genedlaethol gan sawl asiantaeth, er nad oes ganddynt ddiffiniad clir o beth yw 'incwm isel'.

Mae'r lefel incwm fyddai'n gwneud aelwyd yn gymwys am gymorth o'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn amrywio'n ddibynnol ar ystod o amgylchiadau.

Bydd aelodau'n cofio fod y Cyngor llawn, yng nghyfarfod mis Rhagfyr y flwyddyn ddiwethaf, a phob mis Rhagfyr, yn penderfynu ar Gynllun Gostyngiad Treth Cyngor, ond nodir fod swmp y Cynllun yn cael ei ddiffinio gan reoliadau Llywodraeth Cymru.

Mae'r rheoliadau'n diffinio 'swm perthnasol' ar gyfer gwahanol amgylchiadau.

Wrth asesu'r hawl i gael gostyngiad Treth Cyngor, rhoddir ystyriaeth i enillion yr aelwyd, a chaiff y swm yma ei gymharu gyda'r 'swm perthnasol'.

Gan fod y 'swm perthnasol' yn amrywio'n ddibynnol ar sefyllfa ac amgylchiadau'r cais, mae gan y Cyngor gyfrifiannell ar ei wefan, ac mae'r aelodau wedi derbyn linc i hwn, ac mae'n bosib' i drigolion fynd ar hwn i weld beth yw'r sefyllfa. Mae hwn yn galluogi i bobl Gwynedd ddarganfod os ydynt yn gymwys i gael gostyngiad treth trwy fewnbynnu manylion eu hamgylchiadau personol hwy. Wedyn, mae'n bosib' i bobl benderfynu bwrw ymlaen i gyflwyno cais am asesiad ffurfiol neu drafod y sefyllfa gyda staff. Rwy'n ymwybodol bod yna waith da iawn yn cael ei wneud gan swyddogion yr adran i bobl sy'n cysylltu gyda hwy.

Ar hyn o bryd, mae 9,301 o aelwydydd yng Ngwynedd yn derbyn gostyngiad yn eu Treth Cyngor, sy'n golygu ymrwymo £9.6m o adnoddau'r Cyngor. Mae tua 58,000 aelwyd yn derbyn bil am Dreth Cyngor, felly mae 9,301 yn agos at 16% o'r cyfanswm sy'n derbyn gostyngiad llawn neu rannol. Gofynnaf i'r Aelodau drosglwyddo'r wybodaeth yma i unrhyw etholwr sydd am geisio amdano.”

### **Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd Sion Jones**

“Ydi'r Aelod Cabinet yn fodlon ail-edrych ar sut mae'r broses yn gweithio ac edrych ar symleiddio'r broses er mwyn helpu pobl Gwynedd?”

### **Ateb gan yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cyngorydd Ioan Thomas**

“Mi roedd eich cwestiwn gwreiddiol ynglŷn â'r gostyngiad, ac rydw i wedi ateb hynny ac mae hynny'n mynd trwy'r Cyngor ym mis Rhagfyr. Mi roeddech chi'n son am bobl sengl, ac ati. Mae hynny'n ddiffiniad o rywbeth o'r enw '*discounted*', a tydi o ddim yn ostyngiad. Rwy'n credu bod tua 18,000 o bobl yn cael disgownt o'u bil Treth Cyngor. Rwy'n hapus iawn i unrhyw un gysylltu â mi neu'r adran i gael y manylion cywir ynglŷn â'r wybodaeth. Dydi o ddim yn syml fel y gwnes i egluro hefo'r gostyngiad, ond rydych chi'n son am ostyngiad ac rydym ni'n cynnig disgownt hefyd. Felly, rwy'n cydnabod nad yw'n hawdd iawn i'w ddeall, ond mi wnaf edrych i mewn i'r sefyllfa, ac yn hapus iawn i dderbyn unrhyw ohebiaeth.”

**10. PRIF NEGESEUON GAN Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL O RAN PERFFORMIAD 2018-19**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad yn amlinellu'r prif negeseuon am berfformiad gwasanaethau cymdeithasol fydd yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad blynyddol maes o law, yn ogystal â rhoi amlinelliad o'r prif heriau a rhaglenni trawsffurfio ar gyfer 2019/20.

Eglurodd y Cyfarwyddwr:-

- y byddai'r adroddiad blynyddol ar gael yn ei ffurf orffenedig ym mis Gorffennaf ac y byddai'n cael ei gylchredeg i holl aelodau'r Cyngor.
- oherwydd ymrwymadau personol, na fyddai'n bosib' iddi ddod i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf i gyflwyno'r adroddiad, felly eleni roedd adroddiad cynnar lefel uchel yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn o'r Cyngor.

Manteisiodd y Cyfarwyddwr ar y cyfle i ddiolch i'r holl staff, yn fewnol ac allanol, am eu gwaith diflino ac ymroddedig eto eleni. Diolchodd i Marian Parry Hughes (Pennaeth Plant a Theuluoedd) ac Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant) am eu gwaith ymroddgar a gwerthfawr drwy gydol y flwyddyn. Diolchodd hefyd i'r craffwyr am eu mewnbwn ac i'r Aelodau Cabinet yn y maes gofal, y Cyngorwyr W.Gareth Roberts a Dilwyn Morgan am eu cefnogaeth dros y flwyddyn. Nododd hefyd ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cyngorydd Dafydd Meurig, oedd wedi cymryd drosodd y portffolio oedolion, iechyd a llesiant.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Croesawyd yr adroddiad a nodwyd bod y gyfres o glipliau fideo ar Hafan y Sêr, Hafod y Gest, Plas Hafan a Go Dementia, a ddangoswyd fel rhan o'r cyflwyniad, wedi dod â gwaith y gwasanaeth i fyw i'r aelodau.
- Nodwyd bod y ddarpariaeth wedi'i drawsffurfio yn y blynyddoedd diwethaf a chroesawyd nifer o gynlluniau newydd ac arloesol, megis tai gofal ychwanegol Hafod y Gest, y cynllun peilot ym Methesda ar gyfer trawsnewid gofal cartref a Mwy na Geiriau. Cyfeiriwyd yn benodol at Hafan y Sêr, a nodwyd y dylid ymfalchïo ynddo, fel yr unig ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, gan ledaenu'r neges ar draws Cymru i ddangos beth sy'n bosib'.
- Awgrymwyd y dylai pob aelod fynd i ymweld â chartrefi henoed yn eu hardal er mwyn gweld y gwaith arbennig sy'n cael ei wneud gan y staff.
- Gofynnwyd am gynnwys adran yn yr adroddiad blynyddol llawn ynglŷn â'r hyn oedd yn digwydd o ran gwasanaethau ar gyfer unigolion ag awtistiaeth.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau unigol, nodwyd:-

- Bod y cynnydd yn niferoedd plant mewn gofal yn adlewyrchu ein cymdeithas a'r heriau roedd llawer o'r plant a'r teuluoedd yn wynebu. Dyna pam bod y gwaith ataliol a'r ymyrraeth gynnar mor allweddol fel bod modd cynnig y gefnogaeth yma i deuluoedd a phlant, drwy weithio gyda'r ysgolion, ayb, yn y ffordd fwyaf addas i atal problemau rhag dwysau. Roedd disgwyliadau wedi cynyddu yn sgil y gwaith o godi ymwybyddiaeth pobl o faterion diogelu ac roedd y ffaith bod yna blant mewn gofal bellach yn parhau i fyw gartref gyda'u rhieni wedi cyfrannu at y cynnydd yn y niferoedd hefyd.
- Ei bod wedi mynd yn beth cyffredin i glywed am gwmnïau gofal annibynnol preifat yn mynd i drafferthion ariannol, felly roedd yn bwysig cloriannu beth



oedd y farchnad gofal mwyaf addas i Wynedd. Gan fod gennym ddarpariaeth fewnol a llawer o ddarpariaethau wedi tyfu yng Ngwynedd, boed hynny'n annibynnol, trydydd sector neu breifat, nid oedd y Cyngor hwn mor ddibynnol ar y cwmnïau mawr ag yr oedd rhai siroedd eraill. Ond, roedd rhaid bod yn glir beth oedd y gofyn o'r sector gofal, mapio'r gofyn hwnnw ar y cyd â hwy a gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth, boed yn fewnol neu'n allanol, yn cael ei ariannu, fel ei bod yn bosib' iddo weithio'n iawn. O bosib' nad oedd yr eglurder wedi bod yn ddigonol dros y blynyddoedd, ond roedd yn rhaid i'r Cyngor gael darpariaeth gynaliadwy ac o safon wrth symud ymlaen. Roedd gwaith yn digwydd yn rhanbarthol ac yn lleol ar hynny i wneud yn siŵr bod y balans yn iawn, ond roedd gan y Cyngor benderfyniadau anodd i'w gwneud mewn hinsawdd ariannol heriol.

- Mai un o'r anawsterau mwyaf o ran y maes 'Mwy na Geiriau' oedd sut i gael ein darpariaethau allanol, annibynnol i gydymffurfio'n llawn â'r gofynion. Er y disgwyliad arnynt, ac er bod yna drafodaethau digon adeiladol wedi digwydd dros y blynyddoedd, nid oeddent wedi bod yn derbyn cefnogaeth ddigonol o ran sut i fynd ati i wella'r ddarpariaeth ieithyddol. Bellach, roedd y Cyngor yn eu cefnogi'n llawer mwy rhagweithiol o ran sut i fynd ati i lunio polisïau, recriwtio'n wahanol a chreu amgylchedd llawer mwy Cymreig o fewn eu cartrefi.
- Er mai staff o'r gymuned oedd yn cynnal y gofal yn yr Hafod y Gest newydd, nad oedd yna unrhyw fwriad i dynnu oddi ar y gymuned. Fel tenantiaid, y model gofal mwyaf addas ar gyfer trigolion Hafod y Gest oedd gofal cartref, ac felly, yn hytrach na chael un tîm yn yr adeilad a thîm arall yn y gymuned, penderfynwyd sefydlu un tîm, oedd yn gallu cyd-drafod a chyd flaenoriaethu'r gwaith. Credid y byddai'r trefniant hwn yn cryfhau'r gymuned a'r tai gofal ychwanegol, ond cytunodd y Cyfarwyddwr i fynd â'r sylw yn ôl i'r timau fel y gellid darparu gwybodaeth mewn ymgais i fodloni'r aelod nad oedd yna risg a bod hyn yn rhywbeth i'r gwasanaeth ei fonitro wrth i amser fynd yn ei flaen.
- Bod yna lawer wedi digwydd yn y maes dementia o ran buddsoddi mewn cartrefi a chydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd o safbwynt sicrhau darpariaeth didor a gwell. Gellid anfon gwybodaeth at yr aelod o ran datblygiadau yn Nolgellau a Bermo yn benodol, ond roedd y broses yn ymwneud â cheisio gwneud y ddarpariaeth adeiladau yn llawer mwy addas i bobl â dementia, ac yna edrych sut y gellid cael staff addas gyda'r sgiliau, ayb, i gyd-fynd â'r buddsoddiad hwnnw.
- Mewn ymateb i awgrym bod lle i wella'r trefniadau newydd ar gyfer cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol y tu allan i oriau, cynigiodd y Cyfarwyddwr ei bod yn cael sgwrs gyda'r aelod er mwyn gweld beth oedd ei brofiad o ffonio i mewn.

## **11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH 2018-19**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) ei adroddiad blynyddol ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd, yn canolbwyntio ar ddatblygiadau 2018/19 a'r blaenoriaethau datblygu yn 2019/20.

Diolchodd y Pennaeth i holl aelodau'r pwyllgor am eu cefnogaeth a'u harweiniad, yn arbennig y Cadeirydd, y Cynghorydd Dewi Owen, a'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Anne Lloyd Jones, a hefyd i'r Tîm Democratiaeth, dan arweiniad y Rheolwr Democratiaeth.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nododd aelod ei fod yn cael problemau parhaus gyda'r Surface Pro.

- Nodwyd bod Ystafell yr Aelodau wedi dyddio bellach ac nad oedd argraffydd yno.

## **12. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Gwahoddwyd y Cyngor i benodi cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2019/20.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2019/20.**

## **13. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2018-19**

Cyflwynodd Cadeirydd y Fforwm Craffu, y Cynghorydd Beth Lawton, adroddiad blynyddol craffu ar gyfer 2018/19. Esboniodd mai rôl y Fforwm Craffu oedd cymryd trosolwg o waith yr holl bwyllgorau craffu a gofynnodd i'r aelodau gysylltu ag unrhyw aelod o'r fforwm os oeddent o'r farn bod mater angen ei graffu. Diolchodd i'w chyd-gadeiryddion a'r is-gadeiryddion, a phawb sy'n ymwneud â chraffu, am eu gwaith.

Nododd aelod ei bod yn falch o weld bod toiledau cyhoeddus yn dal i gael sylw, ond ei bod yn siomedig nad oedd y mater wedi ei ddatrys mewn 10 mlynedd. Mewn ymateb, nodwyd bod yna Strategaeth Toiledau Cyhoeddus newydd ar y gweill ac atgoffwyd yr aelodau o'u hawl i alw i mewn unrhyw fater sy'n mynd gerbron y Cabinet.

Diolchwyd i Gadeirydd y Fforwm Craffu am gyflwyno'r adroddiad ar ran y cadeiryddion craffu.

## **14. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor a materion perthynol.

Nodwyd bod y sefyllfa wedi newid ers paratoi'r adroddiad gan fod sedd wag Morfa Nefyn wedi ei llenwi bellach ac aelodaeth y Cyngor yn ôl yn 75. Os derbynnir cais, bydd angen cyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod nesaf y Cyngor yn adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y newid gyda'r un sedd yn arwain at unrhyw newid i'r dyraniad seddau, ac roedd y sefyllfa yn parhau'n union fel a nodwyd yn yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mynegodd Arweinydd y Grŵp Annibynnol ei siomedigaeth nad oedd Is-gadeiryddiaeth y Cyngor wedi mynd i'r Grŵp Annibynnol, yn unol â'r arfer bod Grŵp Plaid Cymru a'r Grŵp Annibynnol yn cael y sedd bob yn ail. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd darpariaeth yn y Cyfansoddiad ar gyfer neilltuo'r Is-gadeiryddiaeth i grŵp penodol.
- Mynegwyd siomedigaeth nad oedd pob grŵp yn penodi aelodau ar y pwyllgorau craffu a holwyd faint o amser oedd ganddynt cyn colli'r seddau hynny. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro, os nad oedd grŵp yn penodi o fewn amserlen, bod darpariaeth yn y Cyfansoddiad oedd yn rhoi'r hawl i'r Cyngor benodi aelodau ar bwyllgorau ar sail gyffredinol, heb ddilyn cydbwysedd gwleidyddol. Fodd bynnag, gydag unrhyw adolygiadau dilynol o'r cydbwysedd, roedd rhaid dychwelyd i'r drefn flaenorol, oedd yn cynhyrchu ei broblemau ei hun. Mewn ymateb i honiad nad oedd dim yn cael ei wneud

ynglŷn â'r sefyllfa, nododd y Prif Weithredwr y byddai'n codi'r mater gyda'r Grŵp Busnes er ceisio datrysiaid.

**PENDERFYNWYD**

- (a) Mabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol fel a nodir yn yr atodiad i'r cofnodion hyn ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r hyn a nodir yn yr atodiad.
- (b) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.
- (c) Mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi  
Pwyllgor Craffu Cymunedau  
Pwyllgor Craffu Gofal

Grŵp Plaid Cymru  
Grŵp Annibynnol  
Grŵp Annibynnol

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 2.55yp.

---

**CADEIRYDD**

## ATODIAD

A	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Annibynnol Unedig	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	10	5	2	1		18
Pwyllgor Craffu Cymunedau	10	5	2	0	1	18
Pwyllgor Craffu Gofal	10	5	1	1	1	18
Archwilio a Llywodraethu	10	5	1	1	1	18

B	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Annibynnol Gwynedd	Unedig	Aelod Unigol	Cyfanswm
Gwasanaethau Democraataidd	8	5	1	1			15
Cynllunio	8	4	1	1		1	15
Trwyddedu Canolog	8	4	1	0		2	15
Iaith	8	5	1	1			15
Penodi Prif Swyddogion	8	5	2	0			15
Apelau Cyflogaeth	4	2	1	0			7
<b>Nifer y seddau</b>	<b>84</b>	<b>45</b>	<b>13</b>	<b>6</b>		<b>6</b>	<b>154</b>

C	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Annibynnol Gwynedd	Unedig	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pensiynau	4	2	0	0		1	7
Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol	6	3	1	1			11
CYSAG	4	3	0	0			7
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd	5	2	1	0			8
<b>Cyfanswm y seddau</b>	<b>103</b>	<b>55</b>	<b>15</b>	<b>7</b>		<b>7</b>	<b>187</b>

## Cyngor Llawn



### CYNGOR GWYNEDD

<b>Cyfarfod</b>	Cyngor Llawn
<b>Dyddiad</b>	18fed o Orffennaf
<b>Aelod Cabinet</b>	Cyng Craig ab Iago
<b>Teitl</b>	Strategaeth Tai
<b>Amcan</b>	Cadarnhau cyfeiriad a blaenoriaethau yn y maes tai
<b>Awdur</b>	Arwel Wyn Owen

#### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyo'r Strategaeth Dai i'w mabwysiadu .

#### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae Cabinet wedi ystyried y Strategaeth Dai 2019-2024 (Atodiad 1) ar y ac yn gofyn i'r cyngor llawn ei chymeradwyo gan gadarnhau y cyfeiriad yr ydym am ei ddilyn dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae'r Cabinet a gynhaliwyd ar y 18fed o Fehefin 2019 wedi cymeradwyo £1.25m ar gyfer 3 cynllun i'w gwireddu yn ystod 2019-20.

O dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor bydd y Cabinet yn cynnal asesiad budd- cost ar yr holl gynlluniau a nodir yn y Strategaeth a bydd rhaglen wariant dreigl yn cael ei sefydlu yn sgil hynny.

#### 3 CYFLWYNIAD

Mae'r Strategaeth yn amlinellu 26 o gynlluniau unigol i'w hystyried ynghyd a rhoi syniad o'r adnodd sy'n debygol o fod ar gael. Mae nifer o'r cynlluniau yn creu potensial i ddenu arian ychwanegol o ffynonellau allanol er mwyn uchafu cyrhaeddiad. Wrth ymrwymo buddsoddiad byddwn yn gallu ymestyn cynlluniau presennol, uchafu cyfleon i ddenu nawdd allanol ac yn hwyluso ymdrechion i feithrin partneriaethau.

Y mesur sylfaenol fodd bynnag yw pa gynlluniau sydd am gyflwyno'r budd mwyaf i drigolion Gwynedd o ystyried y gost o'u cyflawni.

Er gwaethaf y ffaith bod gennym premiwm Tai haf i ariannu rhaglen ehangach lle na fyddai modd gwneud fel arall, mae'n bwysig fod yr adnodd hwnnw yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n cael yr ardrawiad mwyaf, ac felly bydd angen asesu'n fanwl yr holl gynlluniau a nodir yn y strategaeth er mwyn

blaenoriaethu'n ddoeth.

### **Effaith Cydraddoldeb**

Mae gofyn i ni gynnal asesiad effaith cydraddoldeb o'r hyn yr argymhellir yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 (Atodiad 2).

Mae'r Adran wedi cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb sydd wedi atodi i'r adroddiad. Nid yw'r asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad negyddol ynghlwm gyda mabwysiadu y Strategaeth.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

Mae egwyddorion y Deddf Llesiant wedi bod yn ystyriaeth bwysig wrth baratoi y Strategaeth Tai ac mae'r Strategaeth yn cydblethu a 7 nod llesiant y Ddeddf, ac amcanion llesiant y Cyngor. Mae'r Ddeddf wedi bod yn ystyriaeth ganolog wrth baratoi y Strategaeth ac mae egwyddorion gweithreu yn Rhan 5 y Strategaeth yn adlewyrchu'r 7 nod llesiant.

Bydd y cynlluniau gweithredu yn cael ei mesur yn rhannol ar sail yr egwyddorion yma ac fe fydd y Cyngor yn disgwyl i'w holl bartneriaid fabwysiadu'r dulliau gweithio ar draws y raglenni gwaith. Bydd yr egwyddorion gweithredu uchod yn caniatáu i ni ymateb a diwallu anghenion tai Gwynedd, heb danseilio llesiant pobl i'r dyfodol. Mae'r cynlluniau arfaethedig wedi ei llunio gyda'r bwriad o weithio mewn ffordd arloesol ac ataliol er mwyn ceisio lleihau ac osgoi problemau rhag esblygu at y dyfodol.

### **Ymgynghori**

Rydym wedi ystyried mewnbyn nifer o'n partneriaid wrth ddatblygu'r cyfeiriad y Strategaeth ac mae'r cynnwys wedi addasu i ymateb i sylwadau a syniadau ddaeth i law. Bydd y cynlluniau arfaethedig yn caniatáu i ni hyrwyddo cydweithio pellach gan ganiatau i ni adnabod ffyrdd newydd o weithio gyda'n partneriaid er mwyn uchaf budd a chyrhaeddiad i bobl Gwynedd. Rhagwelwn y gall rhai o gynlluniau ein helpu i feithrin partneriaethau newydd a chryfhau trefniadau presennol drwy hyrwyddo cyd-gynllunio a darparu er mwyn ymatebion i anghenion lles pobl Gwynedd.

Yn ogystal ac ymgynghori gyda rhanddeiliad fe osodwyd y Strategaeth Drafft ar safle we y Cyngor am gyfnod o fis.

#### 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Pwrpas y cais yw sicrhau bod cymeradwyaeth i'r cyfeiriad a'r uchelgais er mwyn caniatáu i'r Cyngor wireddu rhaglen uchelgeisiol ac arloesol fydd yn dod a budd i bobl Gwynedd.

Mae'r Cabinet eisoes wedi cymeradwyo 3 cynllun ar y 18fed o Fehefin ac mae'n fwriad ychwanegu at y rhestr o gynlluniau i'w cyflawni yn ystod 2019-20.

Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn treth ychwanegol drwy'r premiwm ar ail gartrefi a chartrefi hir dymor gwag ac wedi ymrwymo y byddai cyfran o'r arian a gasglwyd yn cael ei ail-fuddsoddi er mwyn gwneud gwahaniaeth yn y maes tai. Mae'r Strategaeth yn cadarnhau sut bydd cyfran o'r arian yn cael ei ymrwymo a'r modd y bydd yn cael ei flaenoriaethu.

Cyflwynwyd copi o'r Strategaeth Drafft ger bron y Pwyllgor Craffu – Gofal ar y 28ain o Fawrth 2019 yn dilyn trafodaeth anffurfiol gyda'r Pwyllgor Craffu ar y 31ain o Ionawr 2019. Mae'r cynnwys wedi addasu i gyfarch sylwadau ddaeth i law a chafodd y cynnwys gefnogaeth y Pwyllgor..

#### 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Ar ôl derbyn cadarnhad bydd modd gweithredu ar y rhaglen waith.

#### 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

*Sylwadau'r Swyddogion Statudol*

*Prif Swyddog Cyllid :*

Mae Strategaeth Tai Gwynedd yn gosod uchelgais hirdymor ac yn amlinellu amrediad eang o flaenoriaethau posib. Ni fydd cymeradwyo'r adroddiad gerbron yma'n golygu ymrwymiad ariannol pellach na'r hyn sydd wedi ei gymeradwyo eisoes gan y Cabinet ar y 18<sup>fed</sup> o Fehefin, sef yr £1.25m y cyfeirir ato yn adran 6 o'r Strategaeth, sy'n nodi sut bwriedir llunio cynllun gweithredu tymor canolig. Nodaf fod yr atodiadau i'r Strategaeth yn gosod allan cynlluniau tai gellid blaenoriaethu gan y Cabinet i'w gwireddu, ynghyd â chronfeydd posibl allasai fod ar gael, a chredaf fod y ffigyrau ariannol yno'n amcangyfrifon teg.

*Swyddog Monitro :*

Mae'r adroddiad a'r atodiadau yn rhoi sail briodol i'r Cyngor ddod i gasgliad ar argymhell y Strategaeth. Nodi'r yn gywir fod y Strategaeth Dai yn rhan o Fframwaith Bolisi'r Cyngor ac o ganlyniad fod y penderfyniad i'w fabwysiadu yn gorwedd gyda'r Cyngor Llawn ond ar argymhelliad y Cabinet.

*Aelod/au Lleol :*

*Dim yn berthnasol.*

*Ymgynghori*

*Mae copi o'r Strategaeth wedi ei trafod gyda phartneriaid allweddol er mwyn gallu cyd-drefnu a sicrhau bod modd cyflawni o fewn yr amserlenni a gosodwyd copi drafft ar safle We y cyngor.*


---





# Cartrefi i Bobl Gwynedd

## Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd 2019-24



1. Cyflwyniad.....	3
2. Yr Her.....	6
3. Ein Huchelgais.....	9
4. Sut Fydden i yn Gallu Newid y Sefyllfa.....	10
4.1 Sicrhau bod pobl Gwynedd yn gallu cael cartref addas.....	10
4.2 Sicrhau na fydd neb yn ddigartref yng Ngwynedd.....	13
4.3 Ymdrin ag anghenion iechyd a llesiant pobl Gwynedd.....	14
4.4 Sicrhau bod cartrefi Gwynedd yn llesol i'r amgylchedd.....	15
4.5 Cynnig gwasanaethau ataliol, di-dor ar lefel leol.....	16
5. Ein Dull.....	18
6. Ariannu'r Strategaeth.....	19
Atodiad A - Llwyddiannau'r 5 Mlynedd Diwethaf.....	20
Atodiad B – Rhestr Datrysïadau ac Ymrwymïadau Tai.....	21
Atodiad C – Amlinelliad o Gronfeydd Ariannol Tebygol a fydd yn Cefnogi'r Strategaeth.....	33



# 1. CYFLWYNIAD

**Gweledigaeth Cyngor Gwynedd yw:**



**“Cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymunedau, mewn sir sy'n un o siroedd gorau i fyw ynddi.”**

Mae'r weledigaeth uchod yn cael ei nodi yng Nghynllun Strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2019-24. Mae gan y maes Tai rôl allweddol i helpu'r Cyngor i gyflawni'r weledigaeth hon. Gwyddom fod cael cartref sy'n addas ac o safon yn arwain at well iechyd, cymunedau mwy gwydn a phoblogaeth sydd yn gallu cyfrannu yn llawn i gymdeithas. Mae'n bwysig felly ein bod yn datblygu cynlluniau tai amrywiol, arloesol, a gwyrdd, sydd yn hyrwyddo atebion gydol oes yn ogystal â chynnig cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen. Fel Cyngor, byddwn yn annog amrywiaeth o opsiynau cefnogaeth a llety er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rhan ganolog o Gynllun y Cyngor yw uchelgais i sicrhau bod ffyniant yn y maes tai yn cael ei gynllunio yn iawn, yn cael ei weithredu mewn ffordd sydd yn gynaliadwy i'r dyfodol, yn hybu cydraddoldeb cymdeithasol ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd am ddatblygu arloesol. Law yn law â hyn, rhaid sicrhau fod y camau a gymerir yn parchu diwylliant ein cymunedau.

Mae Strategaeth Tai Gwynedd yn gosod uchelgais hirdymor, yn ogystal â blaenoriaethau clir ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Gwyddom y gall ein hanghenion tai newid ar gyfnodau gwahanol ein bywyd, ond yr hyn sy'n gyson yw'r angen i fyw mewn cartrefi a chymunedau sydd yn **ddiogel**, ac sydd yn galluogi a helpu ein pobl i fyw bywydau llawn a iach, gan hybu eu **hannibyniaeth**.

Un o'r heriau mwyaf yw sicrhau bod cyflenwad digonol o dai pwrpasol ac addas, sy'n llesol i'r amgylchedd, ac o safon i ymdrin ag anghenion poblogaeth sydd yn newid. Mae'r angen am dai sydd yn wir fforddiadwy wedi ei nodi fel un o'r prif flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor.

Mae'r Cyngor a'r Cymdeithasau Tai, yn ogystal â phartneriaid eraill, wedi cyflawni llawer dros y 5 mlynedd diwethaf, ac mae'n bwysig cydnabod a dathlu'r llwyddiant yma. Wrth parhau i gydweithio gyda'n partneriaid, byddem yn parhau â'r i weithio tuag at atal digartrefedd, cynyddu'r nifer o dai cymdeithasol o fewn y Sir, a chynyddu'r nifer o dai gwag sydd yn dod yn ôl i ddefnydd. Mae gennym lawer iawn i fod yn falch ohono fel sir ac mae sylfaen dda i ni adeiladu arno i'r dyfodol.

Bwriad y Strategaeth hon yw gosod fframwaith i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir ar gyfer darparu cartrefi i bobl Gwynedd a gwneud y defnydd gorau o arian prin i wella darpariaeth a chefnogaeth ar draws y Sir.


**Tud. 23**



Lluniwyd y Strategaeth ar sail yr wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael i ni heddiw. Rydym hefyd yn llwyr sylweddoli bod materion tai, iechyd, gofal a llesiant yn uchel iawn ar restr blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Golyga hyn fod yna gyfle euraidd i'r Strategaeth Tai wneud gwahaniaeth dros y blynyddoedd nesaf. Er hyn, mae'r darlun yn newid yn barhaus ac felly bydd rhaid i'r Strategaeth hon fod yn ddogfen fyw a all ymateb i'r gwahanol gyfleoedd all godi i'r dyfodol. Byddwn yn cydweithio yn agos gyda'r Cymdeithasau Tai a phartneriaid eraill i fonitro cynnydd ac addasu'r blaenoriaethau a'r rhaglen fuddsoddi yn rheolaidd.

## Strwythur y Strategaeth

Mae'r Strategaeth yn dilyn ffurf syml iawn er mwyn ceisio sicrhau ei bod yn hawdd i'w deall i'r rhai sy'n ei ddarllen ac i'r rhai fydd yn ei gweithredu. Dangosir yn glir beth yw pwrpas ac amcan y Strategaeth, a llif y gwaith trwy ddilyn 3 cam syml, sef; Yr Her, Ein Huchelgais ac Ein Hymrwymiad. Mae'r 4ydd colofn (Ein Dull) yn amlygu'r egwyddorion sylfaenol o ran sut y byddwn yn gweithredu'r strategaeth er mwyn diwallu anghenion pobl Gwynedd.



Gwelir fod y blwch olaf yn nodi'r Mesur Llwyddiant. Yma bydd y cylch yn cael ei gau wrth i lwyddiant ac effaith yr ymrwymiadau a nodir gael eu mesur yn erbyn yr Uchelgais. Gallwn wedyn dystiolaethu a ydym ni wedi gwneud gwahaniaeth a chyflawni amcanion y Strategaeth a Chynllun y Cyngor. Dyma fydd y prif ystyriaethau wrth i ni adolygu ein gwaith gyda'n partneriaid.

Mae'n bwysig nodi y byddwn, wrth weithredu'r strategaeth, yn sicrhau bod ein dull o weithredu yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a bod y strategaeth hefyd yn gytmwys efo argymhellion Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy (2019). Byddwn yn ymdrechu i ymateb i'r argymhellion mewn manylder maes o law.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod yr uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant Cymdeithasol, Diwylliannol, Amgylcheddol ac Economaidd. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda pobl, cymunedau, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant.



Un o brif ofnion y Ddeddf yw bod gyrff cyhoeddus yn cynnal Asesiad Llesiant Lleol.

I'r perwyl hwn, bu'r Cyngor yn cyd-drafod gyda thrigolion Gwynedd a blaenoriaethu **7 Amcan Llesiant Lleol**. Bydd cyflawni Amcanion Llesiant Gwynedd yn cyfrannu tuag at gyflawni yr Amcanion Llesiant Cenedlaethol.

Yr Amcanion sydd yn gyrru popeth yr ydym ni'n ei wneud, ac yn eu tro, caiff popeth eu mesur yn erbyn sut maent yn cyfrannu at yr Amcanion hyn.

Mae gwireddu'r Amcanion yn ddibynnol ar lwyddiant Strategaeth Tai Gwynedd. Mae'r Strategaeth yn cefnogi pob un o'r amcanion ar draws amrywiaeth o feysydd gwasanaeth, ac yn dangos sut all tai addas, o safon dda, gyfrannu at lesiant wrth gynllunio ar gyfer hirdymor.



## Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Tai Fforddiadwy

Yn dilyn cyhoeddiad o'r Adolygiad o Cyflenwad o Dai Fforddiadwy ym mis Ebrill 2019, bydd y Strategaeth yn ymrwmo i cyflawni'r argymhellion wedi mabwysiadu gan Llywodraeth Cymru.

## 2. Yr Her

Yn ystod 2018, cynhaliwyd Aseiad o'r Farchnad Dai Leol, sef arolwg o anghenion tai yng Ngwynedd. Bydd canfyddiadau'r Aseiad yma yn gosod sail i'r blaenoriaethau a'r cyfeiriad ar gyfer y Strategaeth. Defnyddir hefyd y wybodaeth a gasglwyd o Adolygiad Digartrefedd, Aseidiadau Poblogaeth a Llesiant Gwynedd, ac Aseiad o Effaith Diwygio'r Gyfundrefn Lles er mwyn cael darlun cyflawn a chlr o'r galw am dai, a'r anawsterau sydd yn wynebu pobl Gwynedd.

Dengys canfyddiadau'r aseidiadau bod **y galw am dai cymdeithasol a thai fforddiadwy yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad** sydd ar gael ac nad yw'r ymateb presennol yn diwallu anghenion y boblogaeth leol, ar hyn o bryd nac i genedlaethau'r dyfodol. Yn ogystal, dengys yr aseidiadau **fod poblogaeth Gwynedd yn tyfu** yn raddol, yn bennaf oherwydd bod **pobl yn byw yn hŷn**, a gwyddom fod **poblogaeth sy'n heneiddio yn arwain at gynnydd yn y galw am ofal a gwasanaethau iechyd**. O ganlyniad, os yw darpariaeth tai am gyfrannu at sicrhau'r iechyd a llesiant gorau bosibl a gydol oes i drigolion y Sir, rhaid canfod atebion amrywiol ac arloesol ar y cyd â'n partneriaid allweddol.

### Prif Ganfyddiadau

#### Poblogaeth

Mae dros 120,000 o bobl yn byw yng Ngwynedd, a'r nifer yn cynyddu pob blwyddyn. Mae disgwyl i'r twf mwyaf fod yn y nifer o bobl dros 80 oed, ac hynny yn bennaf wrth i bobl fyw yn hirach. Mewn 20 mlynedd mae disgwyl y bydd cynnydd o 60% yn y nifer o bobl dros 80 yn byw yng Ngwynedd, er y rhagwelir mai dim ond 2% fydd y twf yn y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed.

Bydd twf ym mhoblogaeth pobl hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y stoc dai oni bai fod cyflenwad newydd pwrpasol ar gael. Rydym angen sicrhau ein bod yn gallu cynnig cymorth, cefnogaeth a dewisiadau tai sy'n addas ar gyfer anghenion pobl hŷn, a phobl sydd ag anghenion gofal er mwyn eu helpu i barhau i fyw'n annibynnol yn y gymuned o'u dewis. Mae pobl hŷn wedi dweud wrthym yr hoffent barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref cyn hired a phosib, ond mae natur ac adeiladwaith rhai tai yn rhwystr i gyflawni hyn. Mae'n hanfodol bod opsiynau cymorth hyblyg a mathau addas ac amrywiol o dai neu lety ar gael i pob gymuned i alluogi hyn i ddigwydd.

#### Tai Fforddiadwy

Mae diffyg blynyddol o 580 tŷ fforddiadwy (cymdeithasol a chanolraddol) o gymharu â'r galw ar draws Gwynedd. Mae'n bryder enfawr i ni yng Ngwynedd bod cyfartaledd o 60% o aelwydydd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai. Mewn nifer o gymunedau, mae'n anodd iawn os nad amhosib canfod eiddo addas am lai na £140k, ac mewn rhai cymunedau mae angen 7 gwaith yr incwm cyfartalog i brynu eiddo. Her arall sy'n ein wynebu wrth fynd i'r afael â'r diffyg blynyddol yw prinder crefftwyr i adeiladu tai. Mae'r prinder crefftwyr yma wedi golygu oedi sylweddol a chynnydd costau mewn rhai cynlluniau dros y blynyddoedd diwethaf.

#### Sector Rhent Breifat

Mae'r Cyngor yn ymdrin â dros 700 o achosion blynyddol yn ymwneud â safonau tai gwael yn y sector preifat. Mae tai o ansawdd gwael yn costio £67m y flwyddyn i'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, a £15m mewn salwch gwaith.



Mae grantiau ar gael ar gyfer landlordiaid tai amlfeddiannaeth (HMOs) i wella systemau tân a diogelwch, ond mae angen ysgogi landlordiaid i osod eu tai i denantiaid ar Lwfans Tai Lleol.

O ganlyniad i newidiadau yn y trefniadau budd-daliadau, mae'r sector rhent preifat yn llawer llai fforddiadwy, gyda rhai teuluoedd ar budd dal yn wynebu bwch o hyd at £121 y mis mewn costau rhent.

### **Sector Tai Cymdeithasol**

Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2018, roedd ychydig llai na 2,000 o bobl ar y Gofrestr Tai yng Ngwynedd. Wrth gymharu anghenion y bobl sydd ar y Gofrestr Tai â'r stoc Tai Cymdeithasol, gwelir nad yw'r stoc dai presennol yn cyfateb â'r galw. Mae'r galw mwyaf am lety un a dwy ystafell wely i bobl sengl o dan 35, ac mae prinder cyflenwad ohonynt. Golyga hyn y byddai nifer uchel o drigolion Gwynedd ar y rhestr aros am gyfnod hir iawn.

### **Tai Gwag**

Rydym wedi adnabod oddeutu 1,300 o dai gwag ar draws y Sir. Mae'r rhain yn dai sydd wedi bod yn wag ers peth amser a gall eu cyflwr fod yn wael iawn. Mae hyn yn wastraff adnodd wrth ystyried bod agos i 2,000 o bobl ar restr aros y Cyngor. Credwn nad yw'r rhestr tai gwag yn gyflawn, a bod angen cynyddu'r ymdrech i'w canfod a'u dychwelyd i ddefnydd fel cartrefi i'n trigolion.

### **Tlodi Gwaith**

Mae tlodi gwaith yn disgrifio pobl mewn oed gwaith ac ar incwm isel sydd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai, ac mae hyn yn broblem yng Ngwynedd. Mae lefelau cyflog Cymru ymhlith yr isaf yn Ewrop, ac mae hyn yn arbennig o wir yng Ngwynedd oherwydd canran uchel o bobl o fewn y sector gwaith tymhorol a lletygarwch sydd yn aml yn rhan-amser ac sydd yn denu cyflogau isel. Yn draddodiadol, mae'r garfan yma o bobl wedi'u prisio allan o'r farchnad dai, ond erbyn heddiw maent bron allan o gyrraedd tai rhent preifat, ac mewn peryg o fethu â chanfod eiddo cymdeithasol.

### **Digartrefedd**

Wrth adolygu'r Strategaeth Ddigartrefedd Rhanbarth Gogledd Cymru, mae ein hasesiadau yn dangos bod nifer cynyddol o bobl yn ddigartref neu'n wynebu'r bygythiad o ddigartrefedd yng Ngwynedd. Gwelwyd cynnydd o 36% yn y galw am y gwasanaeth ers 2014/15, ac mae tystiolaeth gyfredol yn awgrymu y bydd y cynnydd hwn yn parhau. Prif achosion digartrefedd yng Ngwynedd yw colli llety, gadael carchar, rhieni a pherthnasau yn amharod i letya mwyach, perthnasau yn chwalu a thrais yn y cartref. Mae nifer uchel o bobl sydd yn cyflwyno'u hunain fel pobl ddigartref yn bobl sengl, ac mae gorddefnydd o adnodd gwely a brecwast yn cael eu defnyddio i'w cefnogi, yn hytrach na unedau sefydlog.

Mae sector rhent breifat yn cael ei ddefnyddio'n aml i atal digartrefedd ond bydd angen buddsoddi mwy mewn paratoi ymlaen llaw ac adnabod gwell ffyrdd o atal digartrefedd.

### **Prynwyr Tro Cyntaf**

Mae rhwystrau yn wynebu prynwyr tro cyntaf oherwydd cyfyngiadau benthyciadau a methu fforddio'r blaendal. Erbyn hyn, gwelir lleihad yn y nifer o bobl o oed gweithio yng Ngwynedd sy'n berchen tŷ. Gall olygu bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gorfod parhau i rentu gydol oes. Mae angen i ni ymdrechu i leihau'r bwch rhwng y sector rhentu breifat a'r sector perchen tŷ mewn ffordd arloesol a chynaliadwy.

## **Incwm**

Gwyddom fod cyfartaledd lefelau incwm aelwydydd Gwynedd yn is na chyfartaledd aelwydydd Cymru. Yn ogystal, mae nifer o drigolion Gwynedd yn byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn genedlaethol. Mae disgwyl i'r newidiadau i'r systemau lles gael effaith ar nifer fawr o aelwydydd yng Ngwynedd gydag amcangyfrif y bydd dros 5,500 o aelwydydd yn disgyn o dan y drefn newydd Credyd Cynhwysfawr. Rhagwelir y bydd aelwydydd ar fudd-daliadau yn wynebu newidiadau sylweddol i'w cyllid a'u hawliau gan derbyn hyd at £45 yr wythnos yn llai. Gallai hyn arwain at fwy o aelwydydd y Sir yn byw mewn tlodi.

## **Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd**

Adeiladwyd canran uchel o dai y Sir cyn 1919. Mae gan gyfran uchel o dai y Sir waliau cerrig, ac mae rhannau o'r Sir heb gyswllt i'r prif gyflenwad nwy. Golyga hyn fod cost cynnal a gwresogi tai yn uchel. O gyfuno hyn â lefelau isel cyflogau o fewn y Sir, gwelir bod nifer o aelwydydd y Sir yn wynebu tlodi tanwydd ac yn gwario cyfran sylweddol o'u incwm ar wresogi. Amcangyfrifir bod 20% o boblogaeth Gwynedd mewn perygl o ddioddef tlodi tanwydd o gymharu â 14% ar draws Cymru, a bod y ffigwr hyd at 29% mewn rhai wardiau unigol. Tai Gwynedd sydd yn gyfrifol am 50% o allyriadau CO2 y Sir. Er bod yr her yma yn deillio o'r gorffennol pell i raddau helaeth, nid oes chwaith ddigon o bwyslais wedi ei roi yn fwy diweddar ar ddyluniadau, gosodiad a deunyddiau adeiladu cartrefi yn y Sir. Er fod y sefyllfa yn parhau i wella, yn bennaf oherwydd gofynion cenedlaethol, mae bwloch buddsoddi sylweddol i'w gau os am godi safonau ac effeithlonrwydd ynni stoc tai y Sir.

## **Y gefnogaeth sydd ar gael**

Mae'r cynnydd yn y galw ar wasanaethau i bobl sydd yn ymwneud â'r maes Tai yn her ar wasanaethau'r Cyngor a'n partneriaid. Mae'r Cynllun Cefnogi Pobl yn cefnogi oddeutu 2,000 o bobl pobl blwyddyn i fyw mor annibynnol ag sydd yn bosib, ac mae yn chwarae rhan allweddol mewn atal digartrefedd. Mae'r galw mwyaf am wasanaeth gan bobl sydd angen llety brys oherwydd eu bod yn ddigartref, yn ffoi rhag trais yn y cartref, yn ifanc ac yn fregus, yn gadael carchar ac/neu gyda anghenion ychwanegol megis iechyd meddwl neu yn camddefnyddio sylweddau. Yn 2018, cyfeiriwyd 2,366 (Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl 2018-22) o bobl at wasanaethau o'r fath, a petai posib buddsoddi mwy o arian er mwyn cael gwell ddealltwriaeth ar y sefyllfa yna byddai hyn yn gymorth i'r gwaith atal.

Mae ein hasesiadau yn dangos bod angen i ni edrych ar sut yr ydym yn cynnig cefnogaeth, a buddsoddi mewn gwaith ataliol (i atal digartrefedd, sicrhau hynny ag sy'n bosibl o annibyniaeth, cynorthwyo i leihau troseddu ac ofnau troseddu ayb) mewn ffordd ystyrlon i'r rhai sydd ag anghenion tai. Mae gennym nifer o gynlluniau sydd yn integreiddio'n gwasanaethau o fewn y maes pobl hyn a chefnogi teuluoedd, ac i'r dyfodol, mae'n hanfodol bod y maes tai yn rhan greiddiol o'n Timau Integredig a Clystyrau Gwasanaeth ehangach i atal pobl rhag cael eu cyfeirio o un lle i'r llall.

Wrth ystyried yr heriau uchod, mae'n deg nodi efallai nad ydym fel Cyngor wedi bod yn ddigon blaengar yn y gorffennol i ymateb i'r hyn oedd yn ein wynebu yn y maes tai, ond y gobaiith yw y gallwn ddysgu o'r profiadau hynny, addasu'n dull o weithredu a chydweithio gyda'n partneriaid er mwyn ymateb i ofynion pobl Gwynedd.



### 3. Ein Huchelgais

Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at Gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd


Wrth lunio'r Strategaeth hon, cafodd amrywiaeth helaeth o ffynonellau data eu hadolygu a'u harchwilio. Gwnaed gwaith i ddadansoddi'r farchnad dai leol a'r polisiâu a'r deddfwriaethau perthnasol er mwyn diffinio'r her sydd yn ein hwynebu. Hefyd, ac yn allweddol, rhoddwyd ystyriaeth i farn trigolion lleol sydd wedi ei gasglu trwy waith ymgynghori a gweithdai penodol a gynhaliwyd gan y Cymdeithasau Tai. Yn ogystal, dylid nodi bod materion Tai wedi'u hadnabod fel un o'r prif flaenoriaeth ymhob ardal wrth baratoi Asesiad Llesiant Gwynedd.

Wrth weithio i ymdrin â'r flaenoriaeth hon, rydym yn cyfrannu at gyflawni yr Amcanion Llesiant Cenedlaethol, sydd yn eu tro yn gwella ein llesiant **Cymdeithasol, Diwylliannol, Amgylcheddol ac Economaidd**.

Nid yw rhai o'r elfennau a nodwyd yn yr her, megis perchnogaeth, rhent a chefnogaeth yn faterion y gellir eu datrys dros nos, ac felly mae'r uchelgais a osodir yn gosod amcanion pendant tymor hir fydd yn parhau'r tu hwnt i oes y Strategaeth hon.

Wedi ystyried yr wybodaeth sydd ar gael, ein huchelgais hirdymor a'r hyn rydym yn anelu ato yn y pen draw o ran darparu cartrefi i bobl Gwynedd yw bod:

- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt.
- Tŷ cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un.
- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd.
- Dewisiadau amrywiol o dai ar gyfer amrywiaeth eang o anghenion ac oed.
- Digon o gartrefi ar gael i alluogi pobl Gwynedd aros a chwarae rôl lawn o fewn cymunedau.
- Buddsoddiad yn y maes tai yn cyfrannu at economi ffyniannus ac yn cyfrannu at ryddhau pobl o dlodi.
- Tai Gwynedd yn llesol i'r amgylchedd.
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.



## 4. SUT FYDDEN I YN GALLU NEWID Y SEFYLLFA

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y camau dechreuol posib tuag at gyflawni elfennau o'r uchelgais hirdymor. Trwy'r Strategaeth hon mae'r Cyngor yn amlinellu rhaglen weithredu posib ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Bwriedir gwireddu'r blaenoriaethau hyn hyd eithaf ein gallu a gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni. Ein nod fydd gwthio'r ffiniau er mwyn mynd i'r afael â'r her ac felly gosodir rhaglen sydd y tu hwnt i'n hadnoddau ariannol presennol. Fodd bynnag, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i lenwi'r bwch yma pan ddaw cyfleoedd priodol.

Rydym wedi dosbarthu'r ymrwymïadau posib canlynol o dan benawdau perthnasol. Er hyn, rydym yn fyw i'r ffaith fod cysylltiad amlwg rhwng sawl un fydd yn cael dylanwad ac effaith ar eraill. Enghraifft benodol fyddai Tai Gofal Ychwanegol: Wrth i drigolion symud i mewn i Hafod y Gest, Porthmadog, mae hynny wedi rhyddhau tai eraill yn y gymuned all fod yn gartref newydd ac addas i unigolion a theuluoedd eraill, ac a all hefyd helpu i osgoi digartrefedd a chreu cyfleoedd economaidd.

O dan bob pwynt bwled isod, gwelir ein bod yn ystyried pa Amcan Llesiant Lleol fydd yn elwa o'r cynlluniau posib. Wrth wneud hyn, rydym yn sicrhau ein bod yn targedu pob un o'r amcanion, ac felly yn gweithio i gyfrannu tuag at gyflawni'r Amcanion Llesiant Cenedlaethol.

### 4.1 Sicrhau bod pobl Gwynedd yn gallu cael cartref addas

#### • Cynllun benthyciadau i gymdeithasau dai

Byddwn yn ymchwilio i posibilrwydd o gynnig benthyciadau i gymdeithasau tai fyddai'n eu galluogi i adeiladu mwy o eiddo cymdeithasol i ddiwallu'r angen mewn ardaloedd perthnasol.

Bydd hyn yn fuddsoddiad ychwanegol a gaiff ei dargedu ar gyfer diwallu anghenion unigolion neu grwpiau mewn ardaloedd a chymunedau lle mae angen penodol. Byddwn yn blaenoriaethu ardaloedd lle mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y galw a'r cyflenwad o dai, gan ganolbwyntio ar unedau llai o faint (h.y. 1 neu 2 ystafell wely).

#### Cyfraniad at gyflawni Aseiad Llesiant Lleol

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg


Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein Cymunedau

#### • Cynllun Blaendal Morgais Awdurdod Lleol

Helpu prynwyr tro cyntaf drwy gynnig cynllun blaendal fyddai'n swm rhwng 10% a 15% ar gyfer y rheini sydd yn gallu cyfrannu blaendal o 5% eu hunain.

Bydd hyn yn helpu bobl ifanc lleol sy'n methu cael blaendal dros 5% i sicrhau telerau benthycia gwell, a chaniatáu iddynt brynu tŷ mwy addas. Gall y cynllun blaendal morgais gynnig rhoi hyd at 15% i bobl sydd â 5% Tŷd 30 i brynu tŷ gwag, i gydnabod bod

## Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol




### • Cynllun Tai Gwag

Mae gan Wynedd niferoedd o eiddo gwag sydd ymysg yr uchaf yng Nghymru, ac mae lleihau nifer y tai gwag yn y sector preifat yn allweddol er mwyn cyfrannu at gael tai fforddiadwy i bobl lleol. Mae eiddo sy'n wag am gyfnod hir yn adnodd sy'n cael ei wastraffu. Mae modd dod â hwy yn ôl i ddefnydd mewn amserlen weddol fyr, ac ar gost is o gymharu ag adeiladu eiddo o'r newydd.

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda landlordiaid preifat, byddwn yn parhau i roi cymorth grantiau neu benthyciad er mwyn gwella safonau eiddo gwag; yn amodol ar gynnig yr eiddo ar lefel rhent lwfans tai lleol neu lai, a'i ddyrannu i bobl lleol addas. O ganlyniad, caiff yr eiddo ei adnewyddu a'i ddychwelyd yn ôl i ddefnydd, a byddwn yn sicrhau bod y rhent yn fforddiadwy am gyfnod o 5 mlynedd.

Mae hyn yn gynllun sy'n cynnig benthyciadau di-log er mwyn annog landlordiaid i wella a chodi safon eiddo. Byddai landlordiaid sy'n derbyn cymorth yn gorfod ymrwymo i gynnig eiddo o safon uchel a gosod eiddo ar rent fforddiadwy am gyfnod penodol. Cynigir hefyd rhoi cymorth grant i brynwyr tro cyntaf ar gyfer adnewyddu tai gweigion i safon byw. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith da a wneir gan y Gwasanaeth ar hyn o bryd.

## Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol



### • Cynllun adeiladu'r Cyngor

Un o'n blaenoriaethau pennaf yw sicrhau fod gennym ddigon o dai fforddiadwy er mwyn diwallu anghenion poblogaeth Gwynedd, ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Dros y 5 mlynedd nesaf, bydd angen datblygu dros 200 o unedau ychwanegol i ymateb i'r angen hwn, sydd bron yn dyblu ein lefel cyflawni presennol. Drwy wneud hyn, gallai y Cyngor yn ailafael ar berchnogi neu ran berchnogi eiddo, ac yn cynyddu'i ddylanwad o fewn y farchnad dai.


Bydd y cynllun yma'n galluogi'r Cyngor i adeiladu neu brynu eiddo ar y farchnad agored er mwyn ei osod neu ei gynnig i brynwyr tro cyntaf drwy fanteisio ar amryw o ffynonellau ariannol sydd ar gael. Ni fydd hyn yn ateb cyflym, ond fe fydd yn cyflwyno cyfle i ddarparu lletya pwrpasol i fynd i'r afael ag anghenion penodol, sydd wedi bod yn anodd yn y gorffennol.

Er mwyn cael tir i ddatblygu ac adeiladu, byddwn yn edrych ar ffyrdd o ddylanwadu ar ddefnyddio safleoedd segur, sef lleoliadau sydd wedi derbyn hawliau cynllunio ers rhai blynyddoedd, ond lle nad oes cynnydd wedi digwydd.

Bydd y cynllun yn edrych ar ffyrdd o gefnogi a defnyddio cwmnïau adeiladu o faint llai, na fyddai fel arall yn gallu adeiladu na datblygu heb y sicrwydd bod prynwyr wedi'u hadnabod ar gyfer y datblygiadau. Bwriedir parhau i gefnogi'r diwydiant adeiladu i gryfhau eu hamrediad o sgiliau a darpariaeth o wasanaethau fel y gellir sicrhau hynny ag sy'n bosibl o fudd economaidd yn lleol.

Hyderwn y bydd y buddsoddiad gan y Cyngor yn atgyfnerthu'r ymdrechion i ddenu buddsoddiad ychwanegol o ffynonellau allanol a dylanwadu a denu partneriaid eraill i gyd-fuddsoddi ar raglen o gynlluniau uchelgeisiol a fydd yn trawsnewid y ddarpariaeth a gwneud gwir wahaniaeth i bobl Gwynedd.

### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol




#### • Cynlluniau Perchnogi Tai

Ein nod gyda'r cynllun hwn yw manteisio i'r eithaf ar ffynonellau ariannol, a defnyddio adnoddau a thir y Cyngor a phartneriaid eraill i annog datblygiadau sy'n gydnaws â'n blaenoriaethau i ddiwallu anghenion tai lleol. Byddwn yn rheoli a gweinyddu grant pwrpasol i hwyluso datblygiadau drwy gydweithio gyda Chymdeithasau Tai i gynyddu'r nifer o unedau fforddiadwy i'w rhentu a'u prynu (boed yn dai, fflatiau neu darpariaeth gofal ychwanegol) mewn ardaloedd ble mae'r angen wedi'i adnabod.

Mae sawl cynllun sydd yn helpu pobl ar incwm isel i berchen eiddo. Mae gan y Cyngor berthynas hir, sefydlog ac effeithiol gyda Chymdeithasau Tai i ddarparu tai fforddiadwy i'w rhentu, ond bellach mae cyfleoedd yn codi i berchen neu ran-berchnogi eiddo yn unol â gallu / angen unigolion. Ymysg y rhain bydd cynlluniau penodol fel Rhentu i Brynu, Hunan Adeiladu, Rhan Berchnogaeth a Chymorth Prynu.

Bydd ymrwymo a buddsoddi yn y maes tai yn gwneud cyfraniad cadarnhaol o ran datblygu'r economi gan sicrhau cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Wrth gefnogi a hyrwyddo cynlluniau prynu arloesol, byddwn yn sicrhau fod gan pobl Gwynedd y gallu i fanteisio ar y gwahanol ddewisiadau i fod yn berchen ar eiddo. Drwy wneud hyn, byddwn yn sicrhau ein bod ni, yn ogystal â manteisio ar y cyfleoedd fydd yn codi, yn arwain y ffordd mewn modd blaengar yn hytrach na bod yn gwsmer.


### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol



- **Cynllun Tai Teg**

Rôl Tai Teg yw helpu unigolion i gael hyd i eiddo fforddiadwy drwy hysbysu ar eu gwefan, cynnig cymorth i ymgeiswyr a gweinyddu cynlluniau penodol ar ran y Cyngor. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda Tai Teg er mwyn darganfod y nifer uchaf posibl o dai fforddiadwy ar gyfer pobl Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys tai fforddiadwy y farchnad agored, ac eiddo a ddaw i fodolaeth drwy unrhyw gynllun cymwys i'r dyfodol.

### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol



### 4.2 Sicrhau na fydd neb yn ddigartref yng Ngwynedd

O glywed y term 'digartref' y duedd yw meddwl am bobl sy'n cysgu ar y stryd. Y gwirionedd yw mai rhan fach iawn o'r darlun yw pobl sy'n cysgu allan, ac mae nifer helaeth yn ddigartref ond ddim i'w gweld yn cysgu allan. Yn anffodus gall pobl ffeindio eu hunain yn ddigartrefedd am amryw o resymau.



- **Mabwysiadu Polisi Dim Ail Noson Allan**

Y bwriad yw ceisio sicrhau nad oes rhaid i neb yng Ngwynedd gysgu ar y stryd. Byddwn yn ceisio gwneud hyn drwy greu llwybr llety clir gan gynnwys mabwysiadu polisi 'Dim Ail Noson Allan'. Mae'r polisi hwn, ar y cyd â Chymdeithasau Tai, yn cael ei ddatblygu yn benodol ar gyfer rheini sy'n cysgu allan, gyda'r nod o'u cefnogi i ail-gysylltu gydag ardal lle mae ganddynt gysylltiad, teulu neu rwydwaith cefnogol. Byddwn yn sicrhau bod darpariaeth uniongyrchol i gefnogi taith glir o'r strydoedd at gefnogaeth, gan gynnig sefydlogrwydd ac agwedd sy'n canolbwyntio ar anghenion unigol y person.

Rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â'r rhesymau a'r gwir achosion sylfaenol er mwyn lleihau lefelau digartrefedd yng Ngwynedd. Mae angen sicrhau bod help ar gael i bobl sydd yn ei cael hi'n anodd i gadw to uwch eu pennau oherwydd anghenion cymhleth ac amrywiol. Mae'n hanfodol ein bod yn ymdrechu i gynnig help buan er mwyn atal digartrefedd. Rydym am barhau i wneud hyn drwy ein gwasanaethau ac ar y cyd â'n partneriaid. Mae gennym oll rôl allweddol i'w chwarae er mwyn gwella'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r rheini sydd yn wynebu problemau iechyd meddwl, sy'n sâl, neu sydd yn gaeth i alcohol a/neu gyffuriau a bydd angen cynyddu capasiti a chodi ymwybyddiaeth er mwyn gwella'r sefyllfa.

Byddwn hefyd yn cydweithio gyda'r Cymdeithasau Tai i ddatblygu unedau pwrpasol sydd yn diwallu anghenion y rheini sydd yn ddigartref.

### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol



- **Darparu Unedau Pwrpasol i'r Digartref**

Mae angen adolygu'r darpariaeth sydd gan y sir ar gyfer cynorthwyo pobl digartref, ac edrych ar wahanol ffyrdd o sicrhau bod llety ar gael iddynt. Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yng Nghorris bellach yn addas ar gyfer cefnogi gwasanaethau digartrefedd. Ein bwriad yw buddsoddi mewn darpariaeth addas ac amgen yn Nolgellau drwy adeiladu neu brynu ar y cyd gyda Chymdeithas Tai. Byddai hyn yn sicrhau bod darpariaeth i bobl digartref yn parhau yn ne'r Sir.

Byddwn hefyd yn manteisio ar ffynonellau arian y Llywodraeth i ddatblygu unedau arloesol a phwrpasol ar gyfer pobl digartref sydd ag anghenion cymhleth, ble nad oes darpariaeth digonol a pwrpasol ar eu cyfer ar hyn o bryd.

### **Cyfraniad at gyflawni Aseiad Llesiant Lleol**



### **4.3 Ymdrin ag anghenion iechyd a llesiant pobl Gwynedd**

- **Darpariaeth Pwrpasol ar y cyd gydag Iechyd a'r Cymdeithasau Tai**

Mae gan Wunedd boblogaeth sy'n heneiddio. Mewn 20 mlynedd disgwylir y bydd 60% yn fwy o bobl dros 80 oed yn byw yng Ngwynedd. Mae pobl hŷn wedi dweud wrthym yr hoffent barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain gyhyd â phosibl, ond mae natur ac adeiladwaith rhai tai yn rhwystr i hyn ddigwydd. Mae'n hanfodol felly bod dewisiadau cymorth hyblyg a mathau addas ac amrywiol o lety ar gael o fewn pob cymuned i alluogi hyn i ddigwydd. Wrth gweithio gyda'n partneriaid o'r meysydd Iechyd a'r trydydd sector, ein bwriad yw mynd i'r afael â hyn mewn 4 prif ffordd:

#### **1. Tai Gofal Ychwanegol**

Mae'r Cyngor a'r Partneriaid Tai wedi datblygu 3 o unedau gofal ychwanegol hyd yn hyn. Ein bwriad yw edrych i ddatblygu mwy, a fydd yn esblygiad ac amrywiad o'r 3 cynllun Tai Gofal presennol sy'n addas ar gyfer gwasanaethu trefi llai. Byddai hyn yn diwallu'r angen am gynlluniau ychwanegol mewn 4 cymuned: Pwllheli, Dolgellau Tywyn a Blaenau Ffestiniog. Mae'n debygol y bydd eu ffurf yn llai na'r rhai presennol er mwyn adlewyrchu'r angen a'r bwriad yw dysgu o'r profiadau yn y rhai presennol o ran yr angen am ofal 24 awr. Byddai hefyd yn edrych ar gyfle i feithrin a hybu trefniadau aml genedlaethol.

#### **2. HWB Gofal Iechyd a Thai**

Cynllun yw hwn fydd yn dod â Gwasanaethau at ei gilydd mewn un lleoliad er mwyn cynnig cefnogaeth well i bobl Gwynedd.

Mae dau leoliad i'r HWB dan ystyriaeth; sef Bangor a Penygroes. Caiff hyn y budd o hwyluso profiadau a mynediad defnyddwyr yn ogystal ag effeithlonrwydd y cyrff fydd wedi eu lleoli ar y cyd. Bydd elfen tai a llety yn targedu grwpiau penodol.



### 3. Hwb Digartref Bangor

Datblygiad ar y cyd yw hwn gyda Chanolfan Ffordd Abaty a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sydd yn ceisio dod â darparwyr a gwasanaethau cefnogol at eu gilydd i sicrhau bod adnoddau cefnogol ar gael mewn un lleoliad. Bydd hyn yn ceisio sicrhau bod unedau a chyfleusterau iechyd cychwynnol, ac adnoddau cefnogol ar gael ar gyfer pobl digartref yn ardal Bangor, mewn modd hwylus, syml a phriodol.

### 4. Cartrefi / Unedau Gofal a Iechyd

Yn hanesyddol, mae prinder eiddo hygyrch sydd yn addas ar gyfer pobl ag anghenion gofal. Drwy adnabod adnodd penodol i ganfod eiddo pwrpasol, a symleiddio'r broses o gael mynediad iddynt, byddwn yn hwyluso'r broses o ryddhau pobl o'r ysbyty ac i eiddo addas sy'n ymateb i'w dymuniadau.

#### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol




#### 4.4 Sicrhau bod cartrefi Gwynedd yn llesol i'r amgylchedd

- Cynllun Adfer Ynni

Mae'n flaenoriaeth gan y Cyngor i wella ansawdd ac effeithlonrwydd ynni tai presennol ym mhob math o ddaliadaeth tai, a drwy wneud hynny ymateb i agenda dad gomisiynu carbon y Llywodraeth. Byddwn yn adolygu'r ffordd mae cartrefi'n cael eu hadeiladu er mwyn hyrwyddo tai sy'n rhad i'w cynnal, yn effeithiol i'w gwresogi ac sy'n garedig i'r amgylchedd. Ein nod fydd arloesi wrth ddylunio ac adeiladu tai fydd yn gweddu i'n cymunedau, lle bydd pobl yn falch ohonynt, a fydd yn helpu osgoi tlodi, gan ddefnyddio ddeunyddiau craidd a sgiliau lleol, a chefnogi gweithwyr lleol lle'n bosib.

Bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth uchel i fuddsoddiadau a fydd yn gyrru gwelliannau parhaus mewn ansawdd tai, gyda phwyslais arbennig ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, ac eiddo a gaiff ei rentu'n breifat. Bydd cyfleoedd yn codi i wella effeithlonrwydd ynni yr ardaloedd sydd â thlodi tanwydd difrifol, a hynny drwy gydweithio gyda partneriaethau i gyflwyno mesurau adfer ynni a thrwy geisio am grant i ymestyn pibellau nwy i gymunedau sydd o fewn cyrraedd mewn ardaloedd penodol. Byddwn hefyd yn sefydlu cronfa trwsio tai, sef cynllun benthyciadau i berchnogion bregus er mwyn gwella cyflwr eu tai. Y nod yw helpu pobl i gadw a chynnal eu hannibyniaeth drwy gyflwyno gwelliannau i'w tai.

#### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol



## 4.5 Cynnig gwasanaethau ataliol, di-dor ar lefel leol

### • Cynllun Cefnogi Pobl

Bwriad y Cynllun yma yw helpu pobl i ddod o hyd i gartref, ei gadw ac i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl. Bydd y gefnogaeth a roddir yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn.

Fel rhan o bolisi 'Neb yn Ddigartref', bydd yr Uned Cefnogi Pobl yn ariannu cefnogaeth sydd yn:


- Cynorthwyo pobl fregus sydd angen cefnogaeth i baratoi at symud ymlaen i fyw yn annibynnol a llwyddiannus yn y gymuned.
- Cynorthwyo pobl i gynyddu / datblygu'r sgiliau angenrheidiol i alluogi unigolion i gadw / cynnal eu tenantiaethau.
- Cynorthwyo pobl i gynyddu a datblygu eu sgiliau bywyd.
- Cynorthwyo pobl i gael a chadw cyfleoedd hyfforddiant neu gyflogaeth lle'n briodol.
- Gwella ansawdd bywyd a lles pobl.
- Cyfeirio pobl ymlaen at asiantaethau / gwasanaethau priodol ble mae gwasanaeth yn methu â rhoi cymorth.

Bydd y gefnogaeth yn gweithio tuag at atal digartrefedd, cadw annibyniaeth, galluogi pobl i gael at wybodaeth er mwyn gwneud y dewisiadau gorau, cynorthwyo i leihau troseddu ac ofnau am droseddu, a helpu i leihau mynediad diangen neu gynamserol i ysbyty, carchar neu fathau eraill o ofal sefydliadol.

Bydd Cefnogi Pobl hefyd yn gweithio ar gynllun i ddatblygu darpariaeth pwrpasol yn ne Gwynedd ar y cyd â gwasanaethau lechyd a Digartrefedd. Bydd hyn yn estyniad o'r cynllun sydd eisoes yn bod yn Arfon, a'i nod yw darparu gwasanaeth cefnogol o ansawdd uchel, mewn perthynas â thai, ar gyfer pobl sengl a theuluoedd 16 oed a throsodd sydd ag anghenion aml gefnogaeth.

Trwy gydol oes y Strategaeth, bydd y Cynllun yn comisiynu mwy o wasanaethau darparu cefnogaeth lefel isel, sydd yn rhoi help i ddatrys problemau cyn iddynt arwain at sefyllfa lle gall pobl golli eu cartref. Darperir cefnogaeth i helpu pobl fregus i ddatblygu neu gadw'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen ynghlwm â rheoli cartref, a'r hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n gymesur â chadw cartref. Tasgau yw'r rhain, pe na byddent yn cael eu cyflawni'n ddigonol, all arwain at golli hawl neu allu'r unigolyn i barhau i fyw yn y cartref yn annibynnol.

### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol



Tud. 36




- **Adolygu system dyrannu Tai**

Mae'r system bresennol o osod tai cymdeithasol wedi bod gennym ers peth amser ac yn seiliedig ar gynllun pwyntiau. Mae'n adeg amserol i'w adolygu a chyflwyno trefn newydd sy'n haws i'w ddeall, ac i fynd i'r afael â rhai o'r materion mae ymgeiswyr wedi tynnu sylw atynt. Wrth ddiweddarau'r drefn, byddwn yn cryfhau sefyllfa ymgeiswyr â chyswllt lleol â'r ardal ble mae'r eiddo, ac yn cydnabod y cyfnod mae ymgeiswyr wedi'i dreulio ar y gofrestr. Y bwriad felly yw cyflwyno system 'bandio' i ddisodli'r system bwyntiau sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

O fewn y system 'bandio', caiff geisiadau am eiddo cymdeithasol eu gosod mewn band penodol sy'n adlewyrchu'r lefel angen. Golyga hyn y bydd pob cais yn osgoi'r dryswch a all godi gyda'r drefn pwyntiau, ble mae'n bosib i gais dderbyn pwyntiau gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol. Bydd hyn yn hwyluso a symleiddio'r broses ymgeisio, ac yn gyfle i roi mwy o bwyslais ar y cyswllt lleol.

### **Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol**



## 5. EIN DULL

Oherwydd maint yr heriau ariannol, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n ein wynebu ni, bydd rhaid i ni weithio mewn ffyrdd gwahanol i'r dyfodol. Dyma felly yr egwyddorion y byddwn yn eu defnyddio fel sail i weithio.



**Gweithio'n arloesol** - Edrych ymlaen, ac ar atebion arloesol er mwyn arwain yn y maes tai drwy gynllunio, datblygu a gweithredu'n effeithiol.



**Ymyrryd yn gynnar a gweithio yn ataliol** - Bod yn rhagweithiol, a datrys problemau cyn iddynt waethgu.



**Sicrhau ein bod yn rhoi gwerth am arian** – Manteisio i'r eithaf ar yr holl ffynonellau arian sydd ar gael i ni er mwyn cyflawni i bobl Gwynedd, a sicrhau bod pob buddsoddiad yn cyfrannu at yr economi ac at ein cronfa sgiliau ni yn y Sir.



**Gweithio ar y cyd gyda'n partneriaid** – Canolbwyntio mwy ar gydweithio a chyd-gynhyrchu gydag asiantaethau, partneriaid a chynghorau cyfagos ac i rannu ymarfer da er lles pobl Gwynedd.



**Rhoi Pobl Gwynedd yn ganolog i popeth yr ydym yn ei wneud** - Bydd ein gwaith yn canolbwyntio'n llwyr ar y canlyniadau i bobl Gwynedd, gan dynnu allan unrhyw gamau gwag allan o'n prosesau gwaith presennol.



**Sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol** - Gosod safonau gwyrdd ar ein datblygiadau newydd fydd yn gwarantu effeithlonrwydd ynni i'r dyfodol, ar draws Gwynedd.



**Manteisio i'r eithaf ar dechnoleg** - Sicrhau ein bod yn ymwybodol o ddatblygiadau a technolegau newydd, ac manteisio arnynt er mwyn gwasanaethu anghenion pobl Gwynedd.

Nodir bod yr uchod yn gyson ag egwyddorion Ffordd Gwynedd o weithio, yn ogystal â'r ffyrdd o weithio sydd wedi eu nodi gan y Llywodraeth yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd ein llwyddiant yn cael ei fesur yn rhannol ar sail yr egwyddorion hyn ac fe fydd y Cyngor yn disgwyl i'w holl bartneriaid fabwysiadu'r dulliau gweithio yn yr holl raglenni gwaith fydd yn deillio o'r Strategaeth hon.

## 6. ARIANNU'R STRATEGAETH

Mae'r cynlluniau posib wedi eu amlygu o fewn y Strategaeth hon yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol yn y maes tai. Bydd cyfanswm yr adnodd fyddai ei angen pe byddem yn dymuno cyflawni popeth yn y strategaeth bell tu hwn i'r adnoddau sydd ar gael i Cyngor Gwynedd yn unig. I wireddu'n amcanion, bydd angen manteisio ar unrhyw gyfle i uchafu cyfraniadau grant neu adnoddau tuag at cyflawni cynlluniau posib.

Bwriad y Cyngor yw chwyddo'r adnoddau ar gael wrth ddefnyddio cyllid geir o'r lefi Tai Haf er mwyn ceisio liniaru'r effaith y farchnad honno ar drigolion lleol.

Serch hynny, mae angen sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnodd cyfyng sydd gennym i gweld yr effaith mwyaf i drigolion Gwynedd. Efallai y bydd hynny'n golygu canolbwyntio ar rai cynlluniau penodol sydd am gael yr ardrawiad mwyaf yn hytrach na rhannu'r adnoddau ar draws nifer mawr y gynlluniau a lleihau effaith.

Er mwyn gwneud hynny, yn ystod 2019/20 byddwn yn cynnal asesiad budd – cost ar y cynlluniau a nodir yn rhan 4 gyda golwg ar lunio cynllun gweithredu tymor canolig dreigl 2 flynedd o 2020/21 ymlaen.

Yn y cyfamser ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth sef 2019/20 byddwn yn ariannu cynlluniau Llety Pwrpasol; Cynllun tai gwag a Cronfa Trwsio Tai ar gost o £1.25m.



## ATODIAD A - Llwyddiannau'r 5 mlynedd diwethaf

Wrth edrych ymlaen mae'n briodol ein bod yn edrych yn ôl a dysgu o'n profiad. Dros gyfnod 5 mlynedd y Strategaeth Tai flaenorol rydym wedi:

- Ychwanegu **400** o unedau tai cymdeithasol newydd ar y cyd gyda chymdeithasau tai
- Sicrhau **100** o unedau fforddiadwy ychwanegol trwy gytundebau 106.
- Lleihau'r nifer o bobl/teuluoedd sydd yn byw mewn tai dros dro/argyfwng.
- Gweld cynnydd yn y nifer o achosion lle rydym wedi atal digartrefedd.
- Gwireddu **£8m** o addasiadau anabledd ar draws y sector tai i gefnogi byw yn annibynnol.
- Dod a **400** o dai gwag yn ôl i ddefnydd (a to uwch ben oddeutu 800 o bobl) gyda chynnydd blwyddyn ar flwyddyn.
- Creu **112** o unedau tai gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn, o fewn 3 brosiect sef Awel y Coleg, Bala a Cae Garneidd, Bangor, Hafod y Gest Porthmadog.
- Comisiynu gwasanaeth ymgynghorydd dyled, sydd yn helpu pobl i ddatrys problemau ariannol.
- Comisiynu gwasanaeth sydd yn cefnogi pobl hefo anghenion aml gefnogaeth, mae'r grŵp hwn yn chael hi'n anodd gael mynediad at y gwasanaethau prif lif sydd ar gael.
- Sefydlu gwasanaethau ataliol sydd yn rhoi cymorth a gwybodaeth i bobl, cyn i'r broblem creu anawsterau sydd yn arwain at golli tenantiaeth.

Mae'r llwyddiannau uchod yn gosod sylfaen dda i adeiladu arno ar y cyd â'r Cymdeithasau Tai a'n partneriaid. Rydym yn mynd drwy gyfnod ansicr a heriol oherwydd newidiadau deddfwriaethol a'r wasgfa ariannol, a golyga hyn fod rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Mae'r strategaeth hon yn rho'r cyfle i ni gynnig ffordd ymlaen sy'n sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir ac yn gwneud llawn ddefnydd o adnoddau prin.

Byddwn yn ystyried newidiadau o fewn y gyfundrefn lles wrth ddatblygu cynlluniau. Mae effaith rhai o'r newidiadau yn sylweddol, ac yn golygu bod rhai teuluoedd yn wynebu anawsterau ychwanegol ac mae perygl i rai wynebu tlodi pellach. Golyga hyn bydd angen cadw'r strategaeth yn fyw er mwyn gallu ymateb i newid ac addasu i anghenion sy'n dod i'r amlwg. Byddwn hefyd yn effro i unrhyw gyfleoedd ychwanegol fydd yn codi a all helpu gwireddu amcanion.

Wedi dysgu o brofiadau blaenorol, mae'n amlwg fod rhaid cael uchelgais arloesol i ddenu arian newydd, gan bwysleisio ar yr agenda werdd. Mae rhaid i ni weithio a gweld drwy lygaid pobl Gwynedd, a gwrthio'r ffiniau. Mae ein huchelgais yn nodi'n glir yr hyn yr ydym yn anelu tuag ato, ac mae rhaid defnyddio arian yn wahanol er mwyn gwireddu hyn.

Bydd gweithredu'r Strategaeth Dai yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Lleol Gwynedd ynghyd â'r Amcanion Llesiant Cenedlaethol gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

## ATODIAD B – Rhestr Datrysiadau Posib Strategaeth Tai

### Cyflwyniad

Mae'r rhaglen cynlluniau ganlynol yn cynnwys syniadau uchelgeisiol i helpu trawsnewid y ffordd o ddarparu gwasanaethau Tai at y dyfodol. Mae'n cynnwys cynlluniau y gellid eu cyflawni ar unwaith er mwyn mynd i'r afael â meysydd sy'n broblemus a gwneud gwahaniaeth yn gyflym, ynghyd â chynlluniau mwy hirdymor. Mae'r rhaglen yn amlinellu sut y gellir cyflymu a sicrhau'r cyrhaeddiad uchaf bosibl yn y maes tai. Mae hefyd yn dwyn sylw at syniadau newydd uchelgeisiol, a all gymryd amser i'w gwireddu ond a fyddai'n trawsnewid gwasanaethau. Bydd chyd weithio'n agos gyda partneriaid o fewn Partneriaeth Tai Gwynedd a'i is-grwpiau yn allweddol i gyflawni'r cynlluniau sydd wedi eu blaenoriaethu o fewn y rhaglen gwaith.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio'r ymdrech ar weithgareddau fydd yn gwneud gwahaniaeth o fewn meysydd anodd/heriol sy'n creu problemau neu'n arwain at gostau ychwanegol i'r Cyngor. Mae pwyslais hefyd ar dargedu buddsoddiad a weithgaredd fydd yn gwneud gwahaniaeth hirdymor i wasanaethau.

Gyda nifer o'r cynlluniau mae cyfleoedd i ddenu arian ychwanegol ac ategol o ffynonellau allanol. Bydd hyn yn fodd o uchafu'r llywyddiant sy'n bosibl. Er mwyn hwyluso mynediad at rai ffynonellau allanol bydd angen i'r Cyngor ymrwymo buddsoddiad cychwynnol i sicrhau bod y cynlluniau gerbron yn aeddfed ar gyfer denu nawdd ac er mwyn cadarnhau ymrwymiad at y cynllun a hyrwyddo partneriaethau. Bydd mabwysiadu'r Strategaeth Tai a phenderfyniadau ariannol cysylltiedig yn atgyfnerthu y bwriad gan neilltuo adnoddau i ddatblygu a chefnogi datblygiadau yn ymarferol er mwyn manteisio i'r eithaf ar ffynonellau ariannol ychwanegol a chyfleoedd cyd weithio.

Bwriadir cyflwyno rhaglen gwaith o gynlluniau er mwyn cymeradwyaeth ger bron y Cabinet fydd yn adnabod ymrwymiadau cychwynnol am y 2 flynedd gyntaf.

Mae rhai o'r cynlluniau yn y rhaglen yn gyfarwydd. Mae eu cynnwys yn adlewyrchu'r angen a'r dyhead i ymestyn ac addasu cynlluniau llwyddiannus a phoblogaidd dros y blynyddoedd i adeiladu ar lwyddiannau'r blynyddoedd diwethaf. Ond, mae'r rhaglen hefyd yn cynnig nifer o gynlluniau mawr, blaengar ac arloesol at y dyfodol. Er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleoedd sy'n esblygu, bydd rhywfaint o hyblygrwydd o fewn cynlluniau a'i hwyluso amseru er mwyn cyd-drefnu a manteisio ar raglenni grant allanol. Mae'r Atodiad hon yn ddogfen fyw a gall fod angen rhywfaint o addasu o fewn a rhwng penawdau wrth symud ymlaen er mwyn manteisio ar gyfleoedd newydd a chyflawni hynny ag sy'n bosibl.

## RHESTR CYNLLUNIAU TAI I'W GWIREDDU

<b>A. SICRHAU NAD OES NEB YN DDIGARTREF YNG NGWYNEDD</b>				
	<b>Teitl</b>	<b>Disgrifiad o syniad y cynllun</b>	<b>Budd i bobl Gwynedd</b>	<b>Amcan Cost y Cynllun</b> Buddsoddiad sydd ei angen + nifer Unedau
1.	<b>Llety Pwrpasol</b>  <b>[PODS Unedau Llai]</b>  <b>&lt;6mis</b>  <b>*</b>	<p>Cynllun arloesol newydd i ddarparu unedau llety (modiwlar) ar gyfer pobl seagl sydd heb fan addas i fyw. Bydd y Cyngor yn adeiladu neu'n cydweithio gyda Chymdeithas Dai er mwyn sicrhau unedau pwrpasol.</p>	<p>Helpu atal digartrefedd a'r defnydd o lety dros dro drwy sicrhau llety o safon uchel am rent rhesymol sy'n rhad ei gwresogi a'i cynnal. Byddent yn cartrefu y pobl nad oes darpariaeth addas ar eu cyfer a sydd yn anodd eu lleoli.</p>	<p><b>Gwedd 1</b> - £300k 4 uned. (Llywodraeth Cymru wedi cynnig nawdd)</p> <p><b>Gwedd 2</b> - £90k yr uned</p>
2.	<b>Llety â Chefnogaeth i Bobl Ifanc</b>  <b>[Unedau Llai]</b>  <b>6-18 mis</b>  <b>*</b>	<p>Llety 4 uned (hunan gynhaliol) pwrpasol yn ardal Dwyfor ar gyfer pobl ifanc seagl dan 25 oed.</p> <p>Angen ychwanegol i gwrdd â galw ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal.</p>	<p>Ymateb i'r angen am ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc digartref yn ardal Dwyfor oherwydd diffyg adnodd o gymharu ag ardaloedd eraill. Cymorth i gynnal rhwydweithiau a chefnogaeth lleol gan alluogi pobl ifanc ddatblygu sgiliau i fyw yn annibynnol. Angen ehang am unedau ar gyfer pobl sy'n gadael gofal i roi sylfaen gadarn iddynt a'r cyfle gorau i lwyddo. Rhagweld angen am 2 uned y flwyddyn dros gyfnod y Strategaeth.</p>	<p><b>Gwedd 1</b> - £280k 4 uned Dwyfor</p> <p><b>Gwedd 2</b> £70k+ yr uned</p>

3.	<b>Hosteli 21G</b>  <b>6&gt;18mis</b>	Cynllun i godi safon darpariaeth hosteli y cyngor a thrawsnewid y ffordd o ddarparu at y dyfodol.	Gwella safon ac urddas defnyddwyr gan sicrhau llety sy'n cwrdd â disgwiliadau'r 21 ganrif. Bydd yn helpu pobl i adfer annibyniaeth drwy ddarparu cefnogaeth mewn cyfnod anodd. Mae teuluoedd sy'n defnyddio'r hosteli presennol yn gorfod rhannu ystafelloedd ymolchi ac nid yw'r ddarpariaeth yn addas ar gyfer pobl ag anableddau.	£500k ar gyfer uwchraddio ail/leoli 2 hostel (Adnodd Cynllun asedau)
4.	<b>Cronfa Atal Creadigol</b>  <b>&lt;6 mis</b> <b>*</b>	Cronfa ar gyfer ymyraethau a dulliau creadigol i ganfod llety parhaol neu i ddiogelu llety presennol a chefnogi ymdrechion "Dim Ail Noson Allan".	Bydd gofal a chefnogaeth wedi ei deilwra yn unol â'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn ac ar ddatrysiadau creadigol. Bydd pwyslais ar ymyraethau amgen fydd yn lleihau dibyniaeth ar drefniadau dros dro a hyrwyddo gweithredu mewn ffordd ddychmygol er mwyn atal digartrefedd ach gefnogi ymdrech "Dim Ail Noson Allan".	£100k y flwyddyn
5.	<b>Cynllun Achub Morgais.</b>  <b>&lt;6mis</b>	Estyniad o gynllun presennol i ganiatáu i Gymdeithas Dai brynu cyfran neu'r cyfran o eiddo person sy'n wynebu adfeddiant a cholli eiddo.	Sicrhau sefydlogrwydd i deuluoedd sy'n wynebu dadfeddiannu a cholli eiddo. Byddai'n cynnal teuluoedd o fewn cymunedau ac arbed buddsoddiad ar wasanaethau dros dro gan sicrhau bod y teulu medru parhau i fyw a thalu rhent yn ei cartref presennol.	£100,000 y flwyddyn  4 Ymyraeth pob blwyddyn

6.	<b>Hwyluswyr Atal Digartrefedd</b>  <b>&lt;6 mis</b>	Goresgyn rhwystrau sydd wedi hamlinellu o fewn y Cynllun Gweithredu y Strategaeth Digartrefedd.	Dros y 3 blynedd diwethaf mae'r galw ar y gwasanaeth wedi cynyddu 36% ac angen capasiti ychwanegol i osgoi trosglwyddo costau ar drefniadau (llety) dros dro . Byddai'r adnodd yn flaenoriaethau y Strategaeth Digartref ac yn cyd-gordio gweithgareddau gyda phartneriaid mewnol ac allanol gan annog gwell defnydd o adnoddau a lleihau'r ddibyniaeth ar wely a brecwast a threfniadau tymor byr sydd wedi cynyddu gyfochr â'r galw.
7.	<b>Gweithiwr Iechyd Meddwl</b>  <b>&lt; 6 mis</b> *	Adnodd gweithiwr Iechyd meddwl i ganolbwyntio ar agweddau llety ac i gydweithio a'r gwasanaeth digartrefedd.	Mae gan 90% o'r bobl sy'n byw ar y stryd broblemau iechyd meddwl ac mae ystyriaethau iechyd meddwl ynghlwm â'r mwyafrif o achosion cymhleth y gwasanaeth digartref. Byddai'r adnodd yn cryfhau capasiti ac gwneud cyfraniad adeiladol at adnabod ac asesu anghenion iechyd meddwl a chyd-gordio ymatebion er mwyn atal digartrefedd.



<b>B. SICRHAU BOD POBL GWYNEDD YN CAEL CARTREF ADDAS</b>				
	<b>Teitl</b>	<b>Disgrifiad o syniad y cynllun</b>	<b>Budd i bobl Gwynedd</b>	<b>Amcan Gost y Cynllun</b> Buddsoddiad sydd ei angen
8.	<b>Cynllun Tai Gwag</b> <b>(a. Prynwr Tro Cyntaf)</b> <b>( b.Benthyciadau Landlordiaid )</b>  <6 mis	Esblygiad ac estyniad o'r cynllun Tai Gwag lle cynigir cymorth grant neu fenthyciad i brynwyr tro cyntaf neu landlordiaid wella safon eiddo gwag er mwyn dod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd.	Ymdrin â dwy flaenoriaeth, sef :- - helpu brynwyr tro cyntaf i gael troedle yn y farchnad a dychwelyd eiddo gwag yn ôl i ddefnydd a gwella safon. Cynllun peilot wedi ennyn ymateb cadarnhaol gyda galw mwy na'r adnodd oedd wedi ddyrannu. Cyfle i ymestyn a chyrraedd mwy o bobl ifanc i fanteisio ar gynllun sy'n gweithio - rhoi cefnogaeth i landlordiaid yn amodol iddynt ymrwymo i gynnig eiddo o safon uchel a'i gosod ar rent fforddiadwy am gyfnod ac i dderbyn enwebiadau.	£750k y flwyddyn  20 uned prynwyr tro cyntaf gyda cost o £20k yr Uned  Hyd at £15k yr eiddo neu £5k yr uned.
9.	<b>Cynllun Adeiladu Tai Lleol (Cyngor Gwynedd)</b>  18mis> *	Cynllun i alluogi Cyngor Gwynedd i brynu neu adeiladu tai newydd oddi ar y farchnad ar gyfer eu gosod neu eu cynnig i brynwyr tro cyntaf.	Cyfle i'r Cyngor gael mwy o ddylanwad o fewn y farchnad dai ac i berchnogi neu ran berchnogi eiddo. Gall hefyd fod yn gyfle i gefnogi adeiladwyr llai na fyddai'n gallu bwrw ymlaen i adeiladu heb sicrwydd bod prynwyr ar gyfer rhai unedau, ac o bosib i gefnogi ymddiriedolaeth tai.	£150k yr uned yn cynnwys pryniant tir.
10	<b>Lleihau Treth</b>	Cynllun i gefnogi Prynwyr Tro Cyntaf sy'n adfer eiddo gwag	Bydd yn caniatáu rhoi cyfnod ostynedig o ryddhad trethi i brynwys tro cyntaf sydd yn adfer eiddo gwag. Ar hyn o bryd mawr posib rhoi cyfamswm o 6 mis. Byddwn ymestyn hwn i 12 mis.	£40K y flwyddyn i helpu hyd at 40 unigolion

11.	<b>Cynllun Blaendal Morgais Awdurdod Lleol (Prynwyr Tro 1af)</b>  <b>(Tenantiaid Cymdeithasol) 6mis&gt;18mis</b>	<p>Cynllun blaendal a fyddai'n cynnig swm rhwng 10% a 15% ar gyfer prynwyr tro cyntaf fyddai gyda blaendal o 5%.</p> <p>Bydd y cynllun hefyd ar gael i denantiaid eiddo cymdeithasol cymwys i'w cymell i rhyddhau eiddo.</p>	<p>Helpu prynwyr tro cyntaf lleol sy'n cael anhawster casglu blaendal dros 5%. Bydd yn sicrhau telerau benthyca gwell a'u galluogi i brynu tŷ mwy addas. Gall y cynllun gynnig blaendal morgais hyd at 20% i bobl sydd a 5% o flaendal i brynu tŷ gwag i gydnabod gwaith ar eiddo.</p> <p>Gan fod "hawl i brynu" eiddo cymdeithasol wedi diflannu bydd rhai tenantiaid presennol yn colli cyfle i brynu eiddo. Drwy gynnig blaendal mae posibilrwydd rhyddhau eiddo cymdeithasol i rai sydd ag angen mwy dwys</p>	£10,000 fesul uned
12.	<b>Cynllun Rhan berchnogaeth</b>  <b>&lt;6mis</b> <b>*</b>	<p>Cynllun i ddiwallu anghenion tai pobl ar incwm isel. Bydd yn caniatáu i bobl rhannu perchnogaeth eiddo gyda Cymdeithas Dai a bydd cyfle i gynyddu'r cyfran dros amser.</p>	<p>Helpu unigolion sydd yn aml yn methu cael eiddo cymdeithasol ond yn cael anhawster i gael morgais a sefydlu troedle yn y farchnad dai. Mae unigolion yn gorfod rhentu yn breifat ac yn talu lefel rhent uwch law rhent cymdeithasol.</p>	£30k yr uned i gychwyn ond modd adfer neu ailgylchu

13.	<b>Cynllun Cymorth a Benthyciadau (Cymdeithasau Tai)</b>  <b>6&gt;18mis</b> *	Grantiau a benthyciadau i Gymdeithasau Tai gynyddu nifer o dai cymdeithasol maent yn eu hadeiladau i ymateb i angen.	Buddsoddiad wedi ei dargedu at gwrdd ag anghenion unigolion mewn ardaloedd a cymunedau lle mae pwysau penodol. Bydd yn targedu cymunedau lle mae gwahaniaeth rhwng y galw a'r cyflenwad o dai gan ganolbwyntio ar unedau llai o faint.	£60k yr uned gyda chyfraniad ychwanegol gan y Gymdeithas Tai
14.	<b>Cronfa Mentro (Cyngor Gwynedd)</b>  <6mis *	Cronfa wrth gefn i hwyluso symud ymlaen â chynlluniau neu ddatblygiadau er mwyn gallu eu cyflwyno i ffynonellau allanol a chynnig sicrwydd i bartneriaid.	Byddai cronfa yn caniatáu datblygu stôr o gynlluniau a fydd yn ddigon aeddfed i'w cyflwyno ar fyr rybudd lenwi bwlch pan fo datblygiadau yn llithro, sy'n her barhaus wrth ddatblygu. Bydd cronfa wrth gefn yn helpu i flaen gynllunio ac i allu ymgeisio a manteisio i'r eithaf ar ffynonellau ariannol allanol. Ar hyn o bryd mae risgiau buddsoddi ymlaen llaw neu ymrwymo tu hwnt i'r adnodd oherwydd y perygl o golli allan os bydd datblygiadau yn llithro. Pwrpas y cronfa wrth fyddai pontio a llenwi bwlch gan sicrhau bod capasiti ac arbenigedd i ddatblygu a rheoli cynlluniau. Bydd hefyd o gymorth i wireddu a phrysuro nifer o'r cynlluniau sydd wedi hamlinellu gan gwrdd ag ymrwymadau cychwynnol.	Swm wrth gefn £500,000 i £1,000,000  £100k i £200k y flwyddyn i greu cronfa

<b>C. YMDRIN AG ANGENION IECHYD A LLESIANT POBL GWYNEDD</b>				
	<b>Teitl</b>	<b>Disgrifiad o syniad y cynllun</b>	<b>Budd i bobl Gwynedd</b>	<b>Cost y Cynllun</b> Buddsoddiad sydd ei angen
15.	<b>Tai Gofal Ychwanegol (Ysgafn -MK2)</b>  <b>18 mis +</b>	Esblygiad ac amrywiad o'r cynllun Tai Gofal presennol sy'n fwy addas ar gyfer gwasanaethu trefi llai.	Darparu ac ymateb i angen am gynlluniau ychwanegol mewn 4 cymuned. (Pwllheli, Dolgellau Tywyn, Blaenau). Bydd unedau byw wedi dylunio i'r un safon a maint â'r unedau gofal ychwanegol presennol ond y datblygiad yn llai gyda rhwng 15 a 25 o unedau wedi eu teilwra ar gyfer galw o fewn yr ardal. Caniateir mynediad i rai bobl iau na 55 ond ni fydd presenoldeb 24 awr. Cyfleoedd i gyd-leoli a chyd-ddarparu gwasanaeth gydag lechyd. Cost oddeutu £2m ar gyfer pob lleoliad.	£2m ar gyfer pob cynllun gyda chyfraniad o 42% gan Gymdeithas Tai a chyfle i ddenu arian grant wrth ymrwymo i fuddsoddi  Adnodd ar gyfer 1 o fewn y Cynllun Asedau
16.	<b>HWB Gofal Iechyd a Thai</b>  <b>18 mis+*</b>	Cynllun i gyfuno gwasanaethau ac adnoddau gwahanol bartneriaid er mwyn gwella safon a chryfhau cydweithio.	2 HWB dan ystyriaeth – 1 Bangor a 1 Penygroes ond cyfleoedd eraill yn bosibl. Nod o hwyluso profiad a mynediad defnyddwyr ac effeithlonrwydd y cyrff fydd wedi eu lleoli ynddynt. Bydd elfen tai a llety yn targedu grwpiau penodol gyda'r nod o gael cymunedau cefnogol. Cost yn ddibynnol ar faint a nifer y gweithgareddau sy'n cael eu cyfuno a lefel buddsoddiad partneriaid a chyfraniadau o gronfeydd allanol.	Cost i'w gadarnhau yn ddibynnol ar natur a maint y Cynllun ond angen buddsoddiad sylweddol

17.	<b>Hwb Digartref Bangor</b>  <b>18mis +</b> <b>*</b>	Datblygiad ar y cyd â Chanolfan Ffordd Abaty a Betsi Cadwaladr.	Ymgais i gasglu darparwyr a chefnogaeth at ei gilydd i sicrhau adnoddau cefnogol mewn un lleoliad. Bydd yn sicrhau unedau llety cychwynnol ac adnoddau cefnogol ar gyfer pobl digartref yn ardal Bangor.	Cost i'w gadarnhau ar sail maint y Cynllun. Ceisiadau am nawdd yn cael ei paratoi
18.	<b>Cartrefi /Unedau Byw Gofal a Iechyd .</b>  <b>6-18mis</b> <b>*</b>	Adnodd penodol i fynd i'r afael â'r prinder hanesyddol o eiddo hygyrch ar gyfer pobl ag anghenion gofal.	Drwy gynyddu a gwella mynediad at ddarpariaeth pwrpasol o ddyluniad da byddwn yn hwyluso rhyddhau unigolion o'r ysbyty ac yn lleihau risgiau wrth gynnal pobl yn ei cartrefi. Gellid hefyd cymell unigolion i gymryd mwy o reolaeth a rhyddhau eiddo a dan-berchnogir er mwyn ei ailgylchu ar gyfer teuluoedd.	£70k yr uned gyda chyfraniad gan y Cymdeithasau Tai

<b>CH. SICRHAU BOD CARTREFI GWYNEDD YN LLESOL I'R AMGYLCHEDD</b>				
	<b>Teitl</b>	<b>Disgrifiad o syniad y cynllun</b>	<b>Budd i bobl Gwynedd</b>	<b>Cost y Cynllun</b>
				Buddsoddiad fesul Uned
19.	<b>Cronfa Tai Arloesol</b>  <b>&lt;6 mis</b>  *	Adnodd ar gyfer creu a chymell cynlluniau tai arloesol.	Mae'r gost o ddarparu unedau arloesol yn gallu bod yn uwch ond mae cyfle i fanteisio ac arbrofi gyda thechnoleg newydd a dylunio tai o safon uchel sy'n rhad i'w cynnal a'u gwresogi. Disgwylir i gost ostwng wrth gynyddu nifer yr unedau ac mae cyfle i feithrin technoleg a sgiliau'r gweithlu yn lleol a hyrwyddo datblygiadau economaidd. Rhagwelir arbedion hefyd i drigolion o ran costau gwresogi.	Tua £90k yr uned.  Gall cost yr uned leihau ar sail nifer o unedau.
20.	<b>Ymestyn Pibell Nwy</b>  *	Ymgais i ymestyn y bibell nwy i gymunedau sydd o fewn cyrraedd	Tanygrisiau - Bydd o gymorth i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau tlodi tanwydd. Gall fod o gymorth i unigolion mewn rhai cymunedau gael mynediad i fesuriadau eraill fel boeleri.	£800k gyda chyfle i ddenu arian ARBED gan LLC at y gost
21.	<b>Cronfa Trwsio Tai</b>	Cynllun benthyciadau i berchnogion bregus adfer a gwella cyflwr ei tai	Helpu pobl fregus i gadw a chynnal ei hannibyniaeth drwy arolygu gwelliannu hanfodol a gwaith brys i'w heiddo. Gellir adfer peth buddsoddiad yn y dyfodol pan fydd eiddo yn cael ei werthu. Estyniad o'r cynllun presennol. Gellir adhawlio elfen o'r gost i'r dyfodol.	£250k y flwyddyn

<b>D. CYNNIG GWASNAETHAU ATALIOL, DI-DOR AR LEFEL LEOL</b>				
	<b>Teitl</b>	<b>Disgrifiad o syniad y cynllun</b>	<b>Budd i bobl Gwynedd</b>	<b>Cost y Cynllun</b> Buddsoddiad sydd ei angen
22.	<b>Polisi Gosod Eiddo Cymdeithasol</b>  <b>&lt;6 mis</b> <b>*</b>	Cyflwyno Polisi Gosod yn seiliedig ar Trefn Bandio.	Wrth drosglwyddo o'r system bwyntiau bresennol a chyflwyno trefn bandio byddwn yn hwyluso a symleiddio'r broses ymgeisio. Mae'n cynnig cyfle hefyd i gryfhau y pwyslais ar gyswllt lleol a chymunedol ac ymdrin â materion eraill sydd wedi bod yn anodd.	O fewn adnoddau presennol.
23.	<b>Cynllun Tai Teg</b>  <b>(Ar waith)</b>	Helpu unigolion sy'n chwilio am eiddo fforddiadwy.	Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd trwy weithredu Cofrestr Tai Teg i bobl ifanc lleol ganfod eiddo fforddiadwy wrth ddangos yr angen a chyfeirio at ddatblygiadau tai fforddiadwy	Ymrwymiad ar y cyd â phartneriaid o fewn adnoddau presennol.
24.	<b>Cynllun Hunan Adeiladu (Llywodraeth Cymru)</b> <b>12mis+ *</b>	Cymorth i hwyluso datblygu plotiau hunan adeiladu.	Helpu unigolion i fanteisio ar gymorth i hunan adeiladu. Bydd cymorth ariannol i hwyluso datblygu plotiau a lleiniau gan oresgyn problemau o gael morgeisi. Gall y cyngor helpu cyrhaeddiad drwy adnabod tiroedd posibl ar gyfer datblygiadau o'r fath.	Adnoddau LI Cymru.  Cymorth i hwyluso a rhyddhau tir l'w lansio.

25.	<b>Hwylusydd Tai Gwledig Ar waith</b>	Cymorth i hwyluso datblygiadau llai mewn ardaloedd gwledig a mynd i'r afael â'r anhawster o ddatblygu cynlluniau mewn cymunedau llai	Adnabod lleoliadau addas ar gyfer datblygu a chynnal arolygon cymunedol i fesur maint a math o alw sy'n bodoli fel bod datblygiadau yn cyfateb i'r angen ac yn gynaliadwy.	O fewn adnoddau presennol.
26.	<b>Capasiti OT  &gt;6 mis *</b>	Adnodd OT i gyflymu a hwyluso datblygiadau tai	Hwyluso gwaith addasu adnodd amserol wedi lleoli neu secondio i'r Uned Grantiau. Byddai yn hwyluso a chyflymu'r broses o gwblhau addasiadau yn arbennig addasiadau DFG gan byddai modd blaenoriaethu gwaith a chydweithio.	£45k y flwyddyn.

Bydd amserlen ar gyfer gwireddu cynlluniau yn wahanol rhwng fesul cynllun.

\* Dynodi cynlluniau a rhaglenni newydd sydd heb eu gweithredu o'r blaen yng Ngwynedd.



## ATODIAD C – Amlinelliad o gronfeydd ariannol tebygol a fydd yn cefnogi'r Strategaeth.

Tud. 53

Buddsoddiadau yn y Maes Tai (2019-24)	Blynyddol (£m)	5 Mlynedd (£m)
Cynllun Asedau – Cyngor Gwynedd (Cynllunio i'w cadarnhau)	1.3	6.5
D.FG – Cyngor Gwynedd (Rhan o'r Cynllun Asedau)	1.3	6.5
Treth Ail Gartrefi – Cyngor Gwynedd (Arian i'w gasglu drwy trethi)	1.7	8.5
Treth Tai Gwag – Cyngor Gwynedd (Arian i'w gasglu drwy trethi)	1.0	5.0
<b>Is Gyfanswm</b>	<b>5.3</b>	<b>£26.5</b>
PDP – Llywodraeth Cymru (Rhagamcan)	2.2	11.0
Grantiau Eraill – Llywodraeth Cymru (Potensial i ddenu arian ychwanegol o gynlluniau)	1.0	5.0
<b>Is Gyfanswm</b>	<b>3.2</b>	<b>£16.0</b>
Cyfraniadau gan Gymdeithasau Tai - (42% at rai cynlluniau)	2.0	10.0
Cyfraniadau Preifat (Arian Preifat Ychwanegol a neu arian y gellid ei ailgylchu)	0.5	2.5
<b>Is Gyfanswm</b>	<b>2.5</b>	<b>12.5</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>£11m</b>	<b>£55m</b>

**CYMHARIAETH GYDA STRATEGAETH TAI 2013-2018**

<b>Buddsoddiadau Tai Presennol 2013-18</b>	<b>Blynyddol (£m)</b>	<b>5 Mlynedd (£m)</b>
Cynllun Asedau – Cyngor Gwynedd	1.0	5.0
DFG – Cyngor Gwynedd	1.0	5.0
PDP – Grant Llywodraeth Cymru	2.2	11.0
<b>Cyfanswm</b>	<b>£4.2</b>	<b>£21.0</b>

**DISGRIFIAD O'R CYNLLUNIAU A'R CRONFEYDD**

<b>Ffynhonnell</b>	<b>Teitl y Gronfa</b>	<b>Swm £</b>	<b>Disgrifiad</b>
Cyngor Gwynedd	Cyfalaf - Tai DFG Cynllun Asedau	£1.3m	Gwariant statudol ar addasiadau i bobl anabl. Grant Cyfleusterau Anabl a Grant Addasiadau Bach (Rhaglen Gyfalaf)
Cyngor Gwynedd	Cyfalaf Trawsfurfio <b>Cynllun Asedau</b>	£ 1.3	Mae'r cyswllt rhwng Tai a Gofal yn golygu bod datrysiadau Gofal a lechyd yn aml ynghlwm. Mae ceisiadau Tai a Gofal dan ystyriaeth ar gyfer 4 lleoliad gwahanol gan cychwyn gyda Safle Frondeg, Pwllheli.
Cyngor Gwynedd	Treth Ail Gartrefi a Threth Eiddo Gwag	£ 2.7m	Mae'r Cyngor wedi gosod ardoll ychwanegol o 50% ar y Dreth Gyngor a eiddo hir dymor. Mae derbyniadau treth yn arian i'w ail-fuddsoddi i gefnogi blaenoriaethau Strategol yn y Maes Tai.

Tud. 54

Llywodraeth Cymru	PDP Rhaglen Ddatblygu Eiddo Cymdeithasol	£2.2m	Mae Cyngor yn gweinyddu dyraniad ariannol blynyddol i'r Cymdeithasau Tai adeiladu eiddo Cymdeithasol. Mae cyfanswm y dyraniad yn amrywio yn flynyddol ond mae'n cynnwys swm gwaelodol o £2.2m ar gyfer Gwynedd. Mae cyfleoedd ychwanegol i ddenu arian llithriad ond i allu manteisio rhaid cael cynlluniau aeddfed wrth gefn (fel rheol bydd angen perchnogi tir a chaniatâd cynllunio llawn) ellid ei gweithredu o fewn amserlen
Ll. Cymru Grantiau	Cronfa ICF	I'w gadarnhau	Rhagwelir y bydd cyfleoedd i ddenu arian o gronfa gyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau ar y cyd ag lechyd.
Ll. Cymru Grantiau	Cronfa Tai Arloesol	£300k	Cronfa ar gyfer datblygu cynlluniau tai arloesol a mentrau tai newydd. Rhaid fydd adnabod arian cyfatebol i wireddu cynlluniau o'r fath, rhwng 30% a 58% yn ddibynol ar natur y cynllun.
Ll. Cymru Grantiau	TRIP	£1.5m	Cronfa adfywio tai wedi dargedu at ardaloedd penodol (Bangor). Mae'n cynnwys elfen o ddarpariaeth tai ond yn ddibynol ar ddenu arian cyfatebol o gronfeydd eraill (preifat +cyngor).
Cym Tai	Cyfraniadau Cymdeithasau Tai	£2m +	Gall Cymdeithasau Tai fenthycu arian preifat ychwanegol i wireddu datblygiadau tai ond byddant fel rheol angen cymorth (ymrwymiad ariannol, tir neu gyfuniad o dir ac arian) i wireddu cynlluniau. Am bob £1 o gymhorthdal grant byddent yn gallu benthycu 72c ychwanegol (42%) i'w fuddsoddi. Os bydd lefel buddsoddiad y Cyngor yn cynyddu gellir manteisio i'r eithaf ar gyfraniadau'r Cymdeithasau Tai.
lechyd	Cynlluniau lechyd	I'w gadarnhau	Mae cyfleoedd yn dod i'r amlwg i ddenu cymorth ychwanegol drwy gydweithio gydag lechyd (refeniw a chyfalaf) yn arbennig pe gellid cyfuno datblygiadau a gwasanaethau ar un safle.
Cyngor Gwynedd	Benthyciadau Darbodus	£ i'w drafod	Mae potensial i gynnig benthyciadau tai ar gyfradd llog is i'r Cymdeithasau Tai fyddai yn rhatach na'r benthyciadau preifat presennol ac yn caniatáu iddynt bryuro a chynyddu rhaglenni.

Cyngor Gwynedd	Buddsoddiad Pensiynau	£ i'w drafod	Cyfleoedd i gyfeirio cyfran o fuddsoddiadau Gronfa Bensiwn y Cyngor i gefnogi datblygiadau Tai. Mae rhai Cronfeydd yn rhoi benthyg arian i Gymdeithasau i gefnogi datblygiadau a hynny ar gyfrannau llog is na'r hyn sydd ar gael i Gymdeithasau Tai ar y farchnad breifat gan helpu i wireddu rhagor o gynlluniau .
-------------------	--------------------------	-----------------	--

# Asesiad Effaith

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar, est 32708, neu [DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru), am gymorth pellach

## I Manylion

### I.1 Beth yw enw'r strategaeth dan sylw?

Strategaeth Tai Gwynedd 2019-2024

### I.2 Beth ydi pwrpas y strategaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae Strategaeth Tai Gwynedd yn gosod uchelgais hir dymor, yn ogystal a blaenoriaethau clir ar gyfer yr angen am dai yng Ngwynedd dros y 5 mlynedd nesaf.

Bwriad y Strategaeth yw gosod fframwaith i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir ar gyfer darparu cartrefi i bobl Gwynedd a gwneud y defnydd gorau o arian prin i wella darpariaeth a chefnogaeth tai ar draws y Sir.

### I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Aled Humphreys  
Rheolwr Tai Strategol  
Oedolion, Iechyd a Llesiant

### I.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

22.03.19

Fersiwn 0.01

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Cafodd y strategaeth ei lunio gyda mewnbwn gan reolwyr y Gwasanaeth Tai, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Aelod Cabinet.

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?

Rhodddwyd gyfleoedd rheolaidd i reolwyr perthnasol gynnig sylwadau ar y strategaeth wrth iddo gael ei lunio.

Cafodd y strategaeth hefyd ei ddylanwadau gan ganlyniadau ymgysylltiadau blaenorol, megis Asesiad Llesiant Lleol Gwynedd, a'r gwaith a wnaed wrth lunio strategaeth Cefnogi Pobl a Digartrefedd Rhanbarthol.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Rhodddwyd gyfle i'r Bartneriaeth Tai (sy'n cynrychioli prif bydd-ddeiliaid y wasanaeth) fynegi sylwadau ar fersiwn cryno, a derbyniwyd sylwadau cafodd eu cyfarch yn y brif ddogfen

Mae prif canlyniadau'r ymgysylltu yn rhoi darlun i ni o'r sefyllfa gyfredol yng Ngwynedd, ac felly yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyfarch. Rhoddir darlun clir o hyn ym mhennawd Yr Her yn y strategaeth, sydd wedyn yn arwain i'n Huchelgais er mwyn eu cyfarch.

Ymysg eraill, mae'r prif negeseuon yn cynnwys prinder eiddo i bobl sengl dan 35, y twf mewn poblogaeth dros 80, dod a tai yn ôl i ddefnydd, cyflenwad, fforddiadwyedd a digartrefedd.

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Cynhaliwyd Asesiad Marchnad Tai Lleol (AMTLI) manwl oedd yn cyflawni asesiad ar sail dystiolaeth gadarn, o natur a lefel y galw am dai yng Ngwynedd. Roedd yr AMTLI yn asesu'r angen cyfredol am dai, ac i'r dyfodol. Drwy wneud hyn allan, roedd posib adnabod pa daliadaeth o eiddo sydd yn bresennol ar draws y sir, a pa daliadaethau dylid bwysleisio i'w datblygu i'r dyfodol.

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae fersiwn drafft o'r strategaeth ar gael ei gyhoeddi, a caiff ei hadolygu wedi hyn.

### 3) Adnabod yr Effaith

3.1 Beth yw'r effaith fydd y strategaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb.

Nodweddion	Sut fath o effaith?	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
<b>Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)</b>	Positif	<p>Mae'r Cyngor yn cyfarch anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn unol a Rhan 3 o Ddeddfwriaeth Tai (Cymru) 2014</p> <p>Mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo i dderbyn cyfanswm o 40 o ffoaduriaid o Syria a'u cefnogi a'u sefydlu mewn modd ble gallent gyfrannu i'r gymuned.</p> <p>Gall y Cyngor darparu gwybodaeth berthnasol mewn amryw o ieithoedd.</p>
<b>Yr iaith Gymraeg</b>	Positif	Bydd y Strategaeth yn cyd-fynd hefo polisi'r iaith Gymraeg
<b>Anabledd</b>	Positif	Bydd pob eiddo cymdeithasol adeiladwyd o'r newydd gan Gymdeithasau Tai yn cydymffurfio gyda Gofynion Ansawdd Datblygu, sydd yn ymdrin â safonau mewn perthynas a gofod, hygyrchedd, defnyddio ynni'n effeithlon a diogelwch. Gall hyn gyfarch anghenion ieuchyd meddwl, anabledd dysgu a chyflyrau corfforol.
<b>Rhyw</b>	Positif	Mae canran uchel o'r restr aros yn ddynion sengl o dan 35 oed. Mae pwyslais uwch ar ddatblygu unedau maint llai (o ran niferoedd stafell gwely) er mwyn cyfarch yr angen yma.
<b>Oedran</b>	Positif	<p>Mae'n her nad yw pobl ifanc yn gallu cael mynediad i'r farchnad dai, ac hefyd yn her sylweddol bod disgwyl cynnydd yn yr oedran dros 80 oed.</p> <p>Bydd y strategaeth yn edrych i gyfarch yr her hyn drwy hyrwyddo gwahanol fathau o ffyrdd gall pobl ifanc ddod o hyd i gartref fforddiadwy, a hefyd drwy adeiladu mwy o unedau gofal ychwanegol.</p>
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Amherthnasol	
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	Amherthnasol	
<b>Crefydd neu</b>	Amherthnasol	

<b>gred (neu ddiffyg cred)</b>		
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Amherthnasol	
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Amherthnasol	Nid yw hyn yn ffactor sy'n cael ei ystyried o fewn y strategaeth – nid oes gwahaniaethu rhwng parau priod a parau di-briod.

### 3.2 Ydi'r strategaeth yn cael effaith ar eu Dyletswyddau Cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A yw'n cael effaith? (Dylid dileu'r rhai amherthnasol)</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Ydi	Nid yw'r strategaeth yn camwahaniaethu rhwng gwahanol nodweddion. Bwriad y strategaeth yw gosod cyfeiriad i ddarparu amrediad eang o dai i Bobl Gwynedd sydd yn cyfarch ystod o wahanol anghenion.
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Ydi	Mae'r strategaeth yn adnabod yr angen i helpu ystod eang o bobl sydd yn â gwahanol anghenion, ac i gynnig cefnogaeth yn ôl eu hangen. Mae hefyd yn adnabod grwpiau bregus sydd angen cefnogaeth, ac yn anelu i roi sylw perthnasol iddynt hwy.
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Ydi	Mae'r Strategaeth yn rhoi ffafriaeth i bobl lleol, fel eu bod yn gallu aros yn eu hardal a chadw eu cysylltiadau. Mae'n cymryd camau i gynnwys pobl anabl yn y gymuned.

#### 4) Dadansoddi'r canlyniadau

##### 4.1 Ydi'r strategaeth felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

Bydd y strategaeth yn anelu i sicrhau fod ystyriaeth benodol yn cael ei roi i sicrhau bod gofal pobl hyn yn derbyn sylw, bod cyfleoedd teg yn cael eu rhoi i bawb, ac ein bod yn annog a chefnogi datblygiadau sy'n cyd-fynd a safonau penodol y Llywodraeth (er mwyn sicrhau y gellir eu haddasu i gyfarch anghenion petai angen).



**4.2 Ydi'r strategaeth felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

Ni fydd y strategaeth yn cael effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewisiwch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	X
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

**4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effeithiau negyddol ond byddwn yn monitro (gweler isod) ac yn ymdrin hefo unrhyw effeithiau negyddol allai godi.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Amherthnasol

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Mae'r strategaeth ar fin mynd allan i ymgysylltu a caiff ei hadolygu wedi hyn.

Bydd angen cadw'r strategaeth yn fyw er mwyn gallu ymateb i newid ac addasu i anghenion sy'n amlygu. Byddwn hefyd yn effro i unrhyw gyfleoedd ychwanegol fydd yn codi all helpu gwireddu amcanion.

# Eitem 9

<b>CYFARFOD</b>	Cyngor Llawn
<b>DYDDIAD</b>	18 Gorffennaf 2019
<b>TEITL</b>	Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2018/19
<b>PWRPAS</b>	Cymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2018/19 fel darlun clir, cytbwys a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2018/19
<b>AELOD CABINET</b>	Cyng. Dyfrig Siencyn
<b>SWYDDOG CYSWLLT</b>	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

## 1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod yn atebol amdano.
- 1.2 Rydym fel Cyngor wedi cyfarch y gofyniad hwn drwy gyhoeddi Cynllun sy'n amlinellu sut y byddwn yn gweithredu (Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023), ac yna'n adrodd ar gynnydd y Cynllun hwnnw trwy gyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol.
- 1.3 Gofynnir i awdurdodau lleol gyhoeddi'r asesiad o'u perfformiad (yr Adroddiad Perfformiad) o fewn blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref y flwyddyn ariannol ganlynol. Yn unol â'r gofynion, mae angen i'r Cyngor hefyd sicrhau fod cynnwys yr adroddiad yn rhoi darlun cywir, cytbwys a chlr o berfformiad y Cyngor.
- 1.4 Yn ogystal mae disgwyliad arnom i adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ac yn benodol yr amcanion llesiant sydd wedi eu mabwysiadu gan y Cyngor. Mae'r adroddiad wedi amlygu'r amcanion llesiant y mae'r prosiectau o fewn y Cynllun ynghyd a gwaith dydd i ddydd yr Adrannau yn cyfrannu tuag atynt.

## 2 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

- 2.1 Mae Cabinet y Cyngor wedi trafod Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2018/19 a welir yn **Atodiad 1** yn ei gyfarfod ar y 25ain o Fehefin 2019, ac yn argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Adroddiad.

## 3 Ystyriaethau Perthnasol

- 3.1 Mae Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2018/19 yn adrodd ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni yn ystod blwyddyn gyntaf Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 ac wedi ei strwythuro er mwyn adlewyrchu fformat y Cynllun. Yn y rhan gyntaf canolbwyntir ar berfformiad prosiectau'r Blaenoriaethau Gwella tra yn yr ail ran edrychir ar ein gwaith dydd i ddydd fesul Adran.

- 3.2 Nodir bod yr adroddiad wedi ei baratoi yn seiliedig ar adroddiadau perfformiad yr unigol Aelodau Cabinet unigol sydd eisoes wedi eu cyflwyno i'r Cabinet yn ystod 2018/19.
- 3.3 Yn wahanol i adroddiadau blaenorol nid oes tabl o'r mesurau wedi ei gynnwys ar ddiwedd y ddogfen. Yn hytrach, mae'r prif fesurau wedi eu cynnwys o fewn corff yr adroddiad fel eu bod yn rhan o gyfleu'r stori.

## **4 Camau nesaf ac amserlen**

- 4.1 Yn dilyn mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2018/19 gan y Cyngor byddwn yn trefnu i hysbysu'r cyhoedd a phartneriaid o'r adroddiad drwy gyfathrebu'r adroddiad a'r prif lwyddiannau yn weledol ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy argraffu a rhannu copïau drwy gyfryngau a lleoliadau'r Cyngor e.e. llyfrgelloedd.

## **5 Argymhelliad**

- 5.1 Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cywir, cytbwys a chllir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2018/19, a'i fabwysiadu.

## **6 Barn y Swyddogion Statudol**

### **Barn y Swyddog Monitro**

Mae adroddiad ar berfformiad ac allbynnau Cynllun y Cyngor yn rhan o gyfundrefn llywodraethu priodol. Mae hefyd yn cyfarch dyletswydd y Cyngor i adrodd yn flynyddol ar berfformiad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac ar gyrhaeddiad yn erbyn yr Amcanion Llesiant fel y nodir yn yr adroddiad.

### **Barn y Pennaeth Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r agweddau a ffigyrau ariannol sy'n yr Adroddiad Perfformiad a'i atodiadau, ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y cynnwys perthnasol (mae'r ffigyrau ariannol yn gyson gyda'r Datganiad o Gyfrifon 2018/19). Mae'n syfrdanol fod y Cyngor wedi cyflawni cymaint ar 'daith' 2018/19 (ar dudalen 4), tra'n isafu'r effaith niweidiol o doriadau grant y Llywodraeth, wrth gyflawni £25miliwn o arbedion dros y 4 mlynedd ers 2015 (gweler tudalen 50).

### **Atodiadau**

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2018/19



# Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2018/19



# Cynnwys

Cynnwys	Tudalen
Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd	3
Taith 2018/19	4
Cyflwyniad	5
Ein Gwariant	7
Rhan 1 - Blaenoriaethau Gwella	8
Rhan 2 - Adroddiadau'r Adrannau	
Addysg	29
Oedolion, Iechyd a Llesiant	31
Plant a Chefnogi Teuluoedd	35
Economi a Chymuned	39
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	42
Amgylchedd	45
Ymgynghoriaeth Gwynedd	48
Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth	50
Cefnogaeth Gorfforaethol	53

Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall  
ffoniwch 01766 771000 neu ebostiwch [cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru)



Graffeg "designed  
by Freepik"

Os ydych chi angen mwy o wybodaeth am yr  
Adroddiad hwn cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes  
y Cyngor drwy ffonio 01766 771000  
neu cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru

## Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd



Mae'n bleser gen i gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n disgrifio a mesur y gwaith yr ydym fel Cyngor wedi ei gyflawni yn ystod 2018/19 er mwyn ceisio gwireddu dyheadau Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023.

Mae'r Adroddiad Perfformiad hwn yn adlewyrchu diwyg a chynnwys Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddilyn y cynnydd wnaed yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun hwnnw. Rydym am gynnig darlun clir, cywir a theg i chi o lwyddiannau'r Cyngor dros y flwyddyn ond hefyd byddwn yn amlygu'r meysydd hynny ble na fuom mor llwyddiannus. Mae hi yr un mor bwysig i ni ddysgu a newid ein trefniadau i'r dyfodol ble fo angen er lles ein trigolion.

Blwyddyn arall o lynder ariannol oedd 2018/19 yn anffodus. Blwyddyn arall o doriadau yn ein cyllideb o ganlyniad i bolisiau ariannol San Steffan a setliad ariannol siomedig gan Lywodraeth Cymru, a blwyddyn arall o geisio canfod pob ffordd posib o barhau i gynnal gwasanaethau angenrheidiol heb arian digonol.

Diolch i greadigrwydd a dyfalbarhad ein staff a'n haelodau, rydym fel Cyngor wedi gallu addasu nifer o'n gwasanaethau er mwyn dygymod â chyllideb sy'n lleihau tra, ar yr un pryd, yn sicrhau mai anghenion ein trigolion sy'n ganolog i bob penderfyniad a gweithred. Y meddylfryd yma – Ffordd Gwynedd – sydd wedi ein helpu i greu 5 Tîm Lleol ble mae trawstoriad o weithwyr y Cyngor, y Bwrdd lechyd, y sector wirfoddol ac eraill yn cydweithio er mwyn darparu'r gwasanaeth

gofal a lles y mae ein trigolion ei angen, yn y ffordd a'r lleoliadau mwyaf hwylus posib. Bydd y ffordd newydd yma o weithio yn llwyddo oherwydd ein bod ni fel darparwyr gwasanaeth yn stopio meddwl amdanom ein hunain fel sefydliadau unigol ac yn dod at ein gilydd i gydweithio er lles yr unigolyn neu deulu sydd angen cymorth. Mae fy niolch yn fawr felly i'n holl bartneriaid sydd ynghlwm â'r gwaith arloesol hwn.

Er mwyn parhau i gefnogi'r bobl mwyaf bregus yn ein cymdeithas, yn oedolion a phlant, rydym wedi sefydlu Bwrdd Cefnogi Pobl fydd yn cydlynu yr holl waith sydd ar y gweill ar draws adrannau'r Cyngor i helpu pobl gyda materion megis diffyg gwaith, cael a chynnal cartref, anawsterau magu teulu, unigrwydd neu gamddefnyddio sylweddau ac alcohol.

Mae'n amlwg bod cefnogi ein trigolion yn ddigonol yn talu ar ei ganfed. Dangosodd ganlyniadau addysgol haf 2018 bod 43.8% o'n dysgwyr oedd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi ennill 5 gradd TGAU A\*-C, a byddwn yn parhau i geisio cynyddu'r ffigwr hwn i'r dyfodol.

Rydym hefyd yn parhau i'w gwneud hi'n haws i'n trigolion gysylltu â ni unrhyw bryd drwy ymestyn y ddarpariaeth hunanwasanaeth ar-lein. Mae dros 9,000 o gyfrifon newydd wedi eu creu yn ystod 2018/19 sy'n ei gwneud hi'n bosib trefnu pob math o wasanaethau megis talu am ginio ysgol neu archebu tocyn parcio blynyddol.

Tra'n edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2018/19 rwy'n hyderus ein bod wedi parhau i gynnal y gwasanaethau hynny y mae trigolion Gwynedd eu hangen ac yn eu haeddu, ac mai adeiladu ar y gwaith caled hwnnw a wnawn wrth edrych tua'r dyfodol.

# Taith 2018/19 Mlynedd Cyngor Gwynedd

2018/19

Agor Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest, Porthmadog sy'n cynnwys 40 o fflatiau ble gall pobl barhau i fyw'n annibynnol neu dderbyn gofal.

Ymestyn y gwaith gofal arbenigol ar gyfer dementia trwy ddatblygu darpariaeth arbenigol yng nghartrefi Plas Hafan, Nefyn a Phlas Hedd, Bangor mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd.

Cymeradwyo grantiau gwerth £1.5m i brynwyr tro cyntaf fydd yn cartrefu bron i 200 o unigolion a theuluoedd.

## Ffordd Gwynedd

Pecynnau cymorth ariannol newydd wedi eu lansio ar gyfer busnesau yn ardaloedd Penygroes, Bethesda a Chanol Dinas Bangor.

Cwblhau dau gynllun adfywio strategol yng Nghaernarfon, sef adeilad Rheilffordd Ffestiniog ac Eryri a chynllun Galeri2.

Pobl Gwynedd yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad cyhoeddus i weld pa wasanaethau lleol oedd bwysicaf iddynt er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i benderfynu ble i edrych am arbedion.

Arolygiaeth Gofal Cymru wedi nodi fod 'gan wasanaethau plant Gwynedd gryfderau sylweddol ac roedd ganddynt weithlu ymrwymedig a chadarn'.

Drwy gydweithio gyda chynghorau cymuned a thref a grwpiau cymunedol, rydym wedi gallu cynnal nifer uchel o doiledau at ddefnydd y cyhoedd yma yng Ngwynedd.

Erbyn diwedd 2018/19 roedd 63.3% o wastraff cartrefi Gwynedd yn cael ei ailgylchu, ailddefnyddio neu ei gompostio, sy'n gynydd o 8% ers 2014/15.

9,129 o gwsmeriaid newydd wedi creu cyfiri hunanwasanaeth yn [www.gwynedd.llyw.cymru/fynghyfrif](http://www.gwynedd.llyw.cymru/fynghyfrif) er mwyn cael mynediad at nifer o wasanaethau'r Cyngor.

## Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023' ym mis Mawrth 2018 sy'n gosod ein huchelgais a'n blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod dan sylw. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn edrych yn benodol ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma gan y Cynllun.

Eleni mae'r adroddiad wedi ei strwythuro mewn 2 ran. Yn y rhan cyntaf rydym yn canolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan y prosiectau yr ydym wedi penderfynu canolbwyntio arnynt er mwyn gwneud y gwahaniaeth i gymunedau Gwynedd (ein Blaenoriaethau Gwella). Mae'r rhan yma wedi ei strwythuro ar sail y Blaenoriaethau Gwella. Mae ail ran yr adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad gwaith dydd i ddydd a ddarperir i drigolion Gwynedd gan y gwahanol Adrannau o fewn y Cyngor. Adroddir hefyd ar y Blaenoriaethau Lleol a gafodd eu hadnabod gan yr aelodau etholedig.



\*wedi addasu ffigwr 2018/19 er mwyn adlewyrchu effaith chwyddiant a throsglwyddiadau er mwyn dangos gwir effaith

Fel yr ydym wedi adrodd yn y gorffennol mae ein sefyllfa ariannol fel Cyngor wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf a bydd yn parhau i osod cryn her i ni wrth gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Rydym wedi llwyddo i gyflawni ein prosiectau a darparu ein gwasanaethau er gwaethaf gorfod wynebu toriadau sylweddol o £27m mewn grant gan y Llywodraeth ers 2013/14.

Mae cynnydd Cynllun Cyngor Gwynedd yn cael ei fonitro yn gyson yn ystod y flwyddyn mewn cyfarfodydd herio perfformiad Adrannol. Yn y cyfarfodydd hyn mae'r Aelod Cabinet, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol, yn adolygu cynnydd prosiectau'r Blaenoriaethau Gwella a gwaith dydd i ddydd yr Adran. Yn ogystal, mae aelodau o'r Pwyllgorau Craffu perthnasol yn bresennol fel eu bod yn gallu adrodd yn ôl i weddill yr aelodau ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni.

Yn dilyn y cyfarfodydd herio perfformiad, caiff adroddiadau unigol eu paratoi gan yr Aelodau Cabinet sy'n crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran perfformiad y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Caiff yr adroddiadau hyn eu trafod mewn cyfarfodydd rheolaidd o'r Cabinet er mwyn adolygu ein gwaith yn gyson a sicrhau ein bod ar y trywydd cywir.

Yna, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae Adroddiad Perfformiad Blynyddo fel hwn yn cael ei baratoi sy'n adrodd ar gynnydd Cynllun Cyngor Gwynedd. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn ar gyfer i gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.



Amcanion Llesiant Cyngor Gwynedd	Nodau Llesiant Cenedlaethol						
<b>Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:</b>	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Yn gyfrifol ar lefel byd-eang
1. Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel							
2. Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau							
3. Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd							
4. Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud							
5. Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl							
6. Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg							
7. Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.							

Gyda dyfodiad **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** (Y Ddeddf) mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio'n unigol a chyda'i gilydd i wella llesiant Cymru.

Yn unol â gofynion y Ddeddf, mabwysiadodd y Cyngor saith o Amcanion Llesiant ar gyfer 2018/19 sy'n cyfrannu tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r amcanion yn seiliedig ar yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd â sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r Cynllun.


Nodir hefyd yr angen i weithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy gan

- ystyried y tymor hir
- atal rhag digwydd
- gweithio'n integredig
- gweithio'n gydweithredol
- a chynnwys pobl o bob oed.

Mae disgwyliad arnom i adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf a cheir gwybodaeth ynghylch nifer o'r gweithgareddau hyn yng nghorff yr adroddiad. Yn ogystal, nodir pa Amcanion Llesiant y mae prosiectau unigol yn cyfrannu tuag atynt ynghyd â gwaith dydd i ddydd yr Adrannau ar ddiwedd pob pennod.

Rydym wedi cytuno mai'r ffordd orau i wreiddio'r cyfrifoldeb am weithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy yw fod Timau Rheoli Adrannau yn talu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen. Mae rhywfaint o dystiolaeth fod hyn yn digwydd ond cydnabyddir bod angen asesu os yw'r ffordd yma yn llwyddo a'i peidio. Er mwyn cael darlun gwell o'r gwir sefyllfa byddwn yn cynnal asesiad o sut mae'r 5 ffordd o weithio wedi ei wreiddio o fewn Adrannau unigol dros y flwyddyn nesaf cyn dod i gasgliad ynglŷn â pha gamau sydd angen eu cymryd i wella'r sefyllfa.

## Ein Gwariant



## Blaenoriaethau Gwella

Mae 7 o Flaenoriaethau Gwella wedi eu hadnabod o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, ac o fewn bob un mae prosiectau y byddwn yn canolbwyntio arnynt er mwyn cwrdd â'r uchelgais o weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu. Ar y tudalennau nesaf ceir adroddiad ar gynnydd y prosiectau hynny yn ystod 2018/19 yn ogystal â nodi'r amcanion llesiant y maent yn cyfrannu tuag atynt.

Ceir gwybodaeth bellach ynghylch yr hyn y byddwn yn ei wneud i'r dyfodol yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 trwy ymweld a [www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunycyngor](http://www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunycyngor)



### Blaenoriaeth Gwella

I



**Gwella'r amodau ar gyfer creu economi hyfyw a ffyniannus gan anelu at fwy o swyddi sy'n cynnig cyflogau da.**

#### Cynllun Twf Gogledd Cymru

#### Blaenoriaeth Gwella I



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Cydweithio gyda phartneriaid ar draws gogledd Cymru ar faterion fel y Cynllun Twf ar gyfer gogledd Cymru i greu'r amodau priodol er mwyn gallu denu buddsoddiad i'r ardal i gyflawni hynny.

**Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?**

Yn ystod 2018/19 mae Cyngor Gwynedd wedi cydweithio gyda phartneriaid ar draws gogledd Cymru gan sicrhau cyfraniad o £120miliwn yr un gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer y Cynllun Twf, sy'n cynnwys 7 rhaglen strategol ac 14 o brosiectau. Sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru fel Cydbwyllgor yn ystod mis Chwefror 2019.

Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi arwain ar ddatblygu achos busnes amlinellol ar gyfer cynllun safle Atomfa Trawsfynydd, ynghyd â chyfrannu at gynlluniau eraill gan gynnwys y prosiect Cysylltedd Digidol a'r rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth.

**Amcanion Llesiant –**

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud..**

## Cadw'r Budd yn Lleol

## Blaenoriaeth Gwella I



### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol.

Rydym yn awyddus i adeiladu ymhellach ar y gwaith hwn gan geisio cynyddu gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau am drefn gaffael y Cyngor gan eu cefnogi i gystadlu ac ennill cytundebau'r Cyngor a thu hwnt.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r canran o wariant lleol y Cyngor, wrth ddefnyddio ffigurau cyfalaf a referniw, yn gyson â 2017/18 sef 62%. Mae'r canran o wariant gyda chwmnïau lleol, wrth ddefnyddio ffigurau referniw yn unig, ar y llaw arall wedi codi 4% i 59%, sef cyfanswm o £62m.

Rydym fel Cyngor wedi canolbwyntio ar gynorthwyo cwmnïau lleol i fod yn ymwybodol o gyfleoedd sy'n bodoli i ymgeisio am gytundebau gyda'r Cyngor, i gynnig hyfforddiant iddynt ar sut i gyflwyno tendr ac i'w cynorthwyo i fedru ymgeisio am unrhyw achrediaidau proffesiynol all fod eu hangen arnynt i ymgeisio am waith (ee. iechyd a diogelwch). Buom yn cefnogi'r farchnad yn y meysydd canlynol dros y flwyddyn:

- Gofal oedolion
- Trafnidiaeth
- Cynnal a chadw
- Hurio offer
- Dillad diogelwch
- Nwyddau glanhau

Rydym yn disgwyl i weld os fydd y gefnogaeth a roddwyd yn arwain at gynnydd yn nifer y cwmnïau lleol i Wynedd fydd yn sicrhau cytundebau gwaith gyda'r Cyngor i'r dyfodol.

### Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Creu Swyddi Gwerth Uchel

(Cyflog £26,500 neu fwy)

## Blaenoriaeth Gwella I



### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn edrych i dargedu'r sectorau sy'n talu'n dda trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol gan hyrwyddo'r sir a denu buddsoddiad ychwanegol a sicrhau fod y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd. Byddwn yn lobbio a hwyluso gan greu'r amodau i ddenu buddsoddiad mewn safleoedd strategol megis Atomfa

Trawsfynydd, Maes Awyr Llanbedr a Pharc Bryn Cegin / Parc Menai. Mae gwaith da eisoes wedi cychwyn i ddenu buddsoddiadau i safleoedd Trawsfynydd a Llanbedr, ond mae angen cynnal y momentwm yma.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Crëwyd 57 o swyddi gwerth uchel yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â diogelu 29 o swyddi gwerth uchel yn sgil y gwaith cefnogi dwys sy'n cael ei wneud i ddenu buddsoddwyr a busnesau i'r ardal.

Cadarnhawyd £7.5miliwn o gyfraniad arian Ewropaidd tuag at y gwaith o ddatblygu safle Llanbedr fydd yn cynnwys gwella cyfleusterau'r safle a chreu gofod ar gyfer busnesau awyrfod ynghyd â chreu mynedfa newydd.

Lansiwyd Bargaen y Sector Niwclear Llywodraeth y DU yn swyddogol yn Nhrawsfynydd yn ystod mis Medi 2018, gan nodi fod y safle yn ddelfrydol ar gyfer datblygiad Adweithyddion Bach.

### Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Arloesi Gwynedd Wledig

## Blaenoriaeth Gwella I



### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ein bwriad yw adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi ei wneud i drawsnewid yr economi wledig trwy gyflwyno arloesedd o fewn sectorau traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth) ynghyd â chefnogi buddsoddiad yn isadeiledd ddigidol ein cymunedau gwledig gan roi sylw arbennig i ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd. Byddwn hefyd yn dylanwadu a lobbïo yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar ran anghenion Gwynedd wledig.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Rydym eisoes wedi denu £4miliwn o arian Rhaglen Datblygu Gwledig i Wynedd i ddatblygu dulliau arloesol o weithio ac ystod o ddatblygiadau cyffrous er mwyn targedu cymunedau gwledig. Yn ystod 2018/19 cafodd 18 o ddatblygiadau arloesol cyffrous eu treialu, gydag enghreifftiau megis:

- Lansiwyd Maes Chwarae Digidol yng Nglynllifon, sy'n cynnig cyfleoedd i arbrofi gyda Rhyngrwyd Pethe i ymateb i heriau ardaloedd gwledig.
- Ysgol Dronau oedd yn rhoi cyfle i 25 o bobl ifanc fynychu 6 penwythnos o weithgareddau i ddysgu hedfan drôn yng Nghanolfan Awyrfod Llanbedr.
- Cynllun Cysawd Eryri oedd yn brosiect y bu ysgolion lleol yn rhan ohono i ail-greu Cysawd yr Haul o fewn ffiniau Gwynedd.
- Cynllun trafndiaeth gymunedol i ymwelwyr yn Harlech.

Mae rhai o'r cynlluniau sy'n cael eu treialu yn cael eu datblygu ymhellach, yn ystod 2018/19 fe wnaethom sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi 10 o drefi a phentrefi gwledig y sir i ddatblygu gwasanaeth WiFi i'r cyhoedd.

Cafodd rhaglen Arfor ei chymeradwyo gan sicrhau £523,000 i Wynedd er mwyn creu gwaith i gefnogi'r iaith Gymraeg.

#### Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud..

### Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion

#### Blaenoriaeth Gwella I



#### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Rydym eisoes wedi bod yn llwyddiannus yn denu nifer o ddigwyddiadau proffil uchel cenedlaethol a rhyngwladol i'r sir a arweiniodd at fuddsoddiad o £6.7m yn 2016/17. Rydym yn awyddus i barhau gyda hyn a sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o'r digwyddiadau. Bydd hyn yn arwain at gyfleodd i hyrwyddo'r sir, cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r sir, a chynnydd yn nifer y cyfleoedd i gwmnïau lleol weithio neu gynnig gwasanaethau i'r digwyddiadau.

#### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Cafodd pecyn cefnogaeth ei hyrwyddo ar gyfer tymor 2018/19. Cefnogwyd 23 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Zip World Rocs, Gŵyl Rhif 6, a chroesawu cymal olaf Ras beicio merched Tour of Britain i Ddolgellau sef tro cyntaf i'r digwyddiad ddod i Gymru. Llwyddwyd i uchafu budd economaidd y Sir o £5.7miliwn yn ystod y flwyddyn. Cafodd 2,776 o bobl ifanc y cyfle unai i gymryd rhan, gwirfoddoli neu fynychu digwyddiadau.

#### Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

### Safle Treftadaeth y Byd

#### Blaenoriaeth Gwella I



#### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn edrych i wireddu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, gwedd a golwg cymunedau

ac yn ansawdd y profiad i dwristiaid, ynghyd â pharhau i weithio i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Rydym wedi parhau i weithio ar gael dynodiad Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer yr ardaloedd llechi, cyhoeddwyd mai enwebiad Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru fydd yn cael ei gyflwyno nesaf i Bwyllgor Treftadaeth y Byd gan Lywodraeth Prydain.

Rydym wedi llwyddo i ddenu bron i £1m o fuddsoddiad grant a benthyciadau i'r ardaloedd llechi er mwyn gwireddu gweithgareddau ymgysylltu ac adfywio. Mae Cydlynedd Llechi Cymru wedi ei benodi er mwyn arwain ar y gwaith.

Yn ystod y flwyddyn mae gwaith comisiynu wedi ei wneud, gan gynnwys comisiwn i greu Cynlluniau Cynefin yn yr ardaloedd lechi, a bydd y cynlluniau yma yn llywio blaenoriaethau'r cymunedau dros y 5-10 mlynedd nesaf.

### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

## Elwa ar Dwristiaeth

## Blaenoriaeth Gwella I



### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ein bwriad yw edrych ar y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae hi dal yn ddyddiau cynnar ar y prosiect yma, ac yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd gweithdy gyda'r sector efo'r bwriad i ganfod barn a chyfrannu tuag at osod sail i gynllun busnes y Cynllun Elwa o Dwristiaeth. Sefydlwyd y Bwrdd Prosiect sydd wedi cefnogi'r gwaith cychwynnol. Comisiynwyd arbenigwyr i wneud gwaith pellach i adnabod modelau posibl ar gyfer gweithredu, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Prosiect yn fuan yn 2019/20.

### Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

## Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu

### Blaenoriaeth Gwella 1



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn adolygu sut mae'r gwasanaethau yma yn cael eu darparu er mwyn ystyried a oes lle i wella ac yn gweithredu ar unrhyw wersi ddaw i'r amlwg i sicrhau fod busnesau yn cael eu cynorthwyo i ffynnu.

**Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?**

Prosiect newydd yw hwn, ac felly mae hi dal i fod yn dyddiau cynnar. Yn ystod 2018/19 mae gwaith sgopio a thrafodaethau trawsadrannol wedi eu cynnal mewn perthynas â mabwysiadu rhaglen "Gwell Busnes i Bawb". Cafodd briff a chynllun prosiect ei gwblhau er mwyn llywio'r gwaith i'r dyfodol.

**Amcanion Llesiant –**

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.



### Blaenoriaeth Gwella

2



**Sicrhau fod pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial drwy sicrhau fod gennym gyfundrefn addysg gynaliadwy, sy'n darparu cyfleoedd datblygu perthnasol i bawb waeth beth yw eu cefndir neu ymhle y maent yn byw.**

## Trawsnewid y Gyfundrefn Ysgolion

### Blaenoriaeth Gwella 2



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Rydym wedi ymgynghori ar gyfres o egwyddorion ddylai fod yn sail i unrhyw newid i'r dyfodol a byddwn yn sefydlu cynllun i wreiddio'r egwyddorion hynny er mwyn sicrhau cyfundrefn addysg hyfyw fydd yn sicrhau fod pob plentyn yn y sir yn cael cyfle teg i ddatblygu ei botensial.

**Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?**

Yn dilyn pryderon cyffredinol nad yw'r gyfundrefn ysgolion presennol yn gynaliadwy, bu i Gabinet y Cyngor fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas:



- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw;
- Dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd;
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd.

Mae'r egwyddorion yn gyson â modelau cynaliadwy ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, ynghyd â'r modelau arweinyddiaeth ar gyfer ein hysgolion. Mae'r egwyddorion yn cael ystyriaeth wrth wireddu prosiectau Band A a Band B Ysgolion G21 a rhain bellach fydd yr egwyddorion sylfaenol y byddwn yn eu hystyried wrth ymateb i unrhyw gyfleoedd i'r dyfodol.

#### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Cryfhau Arweinyddiaeth

## Blaenoriaeth Gwella 2



### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn parhau i annog a hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion, gan ymrwymo i raglenni datblygu arweinyddiaeth sydd ar gael. Byddwn hefyd yn adnabod a thargedu arweinwyr y dyfodol gan sicrhau eu bod yn cael mynediad i'r rhaglenni hyn.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r Awdurdod wedi cynllunio, mewn cydweithrediad â GwE, i gynnig trefniadau hyfforddi perthnasol ar gyfer datblygu arweinwyr y dyfodol, ac i hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion.

#### Amcanion Llesiant –

- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

## Dalgylch Bangor

## Blaenoriaeth Gwella 2



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth addysg ym Mangor gan edrych i roi cynllun newydd ar waith a fydd yn gwella'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?**

Yn dilyn adolygu'r ddarpariaeth addysg ym Mangor mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynllun gwerth £12.7miliwn er mwyn adeiladu ysgol newydd yn y dalgylch a chynyddu capasiti Ysgol y Faenol. Cychwynnodd y gwaith o adeiladu'r ysgol newydd, gan dorri'r dywarchen gyntaf mewn seremoni efo plant y dair ysgol sy'n uno ar 7fed o Fawrth 2019.

**Amcanion Llesiant –**

- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**

## Dalgylch y Berwyn

## Blaenoriaeth Gwella 2



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o sefydlu Campws Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-19 oed ar safle Ysgol y Berwyn, Y Bala, a fydd hefyd yn cynnig gwasanaethau i'r gymuned leol, erbyn mis Medi 2019. Golyga hyn gwblhau'r broses o sefydlu'r corff llywodraethol, cwblhau'r gwaith adeiladu a chynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer agor y Campws Dysgu newydd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?**

Gyda'r gwaith adeiladu wedi dirwyn i ben, mae'r Ysgol bellach wedi ei henwi fel Ysgol Godre'r Berwyn. Mae'r Pennaeth wedi cychwyn yn ei swydd yn ystod mis Ionawr, ac mae gwaith yn parhau i benodi i'r strwythur. Mae gwaith ar yr elfennau cymunedol yn symud ymlaen yn dda gyda chriw lleol yn prysur drefnu defnydd y gofod cymdeithasol i'r dyfodol.

**Amcanion Llesiant –**

- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**

## Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

### Blaenoriaeth Gwella 2



#### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn datblygu'r gynhaliaeth yn y dosbarth, darpariaeth cyn-ysgol, darpariaeth ôl-16 ac Ysgolion Arbennig. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y gwaith partneriaethol presennol rhwng ein Hysgolion Arbennig a chydag ysgolion prif lif yr awdurdod er mwyn gwella profiadau dysgu plant ag anghenion dwys a chymhleth.

#### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Cwblhawyd y gwaith o ailstrwythuro'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad sydd yn cynnig cyfeiriad strategol mwy effeithiol, a gwell cyswllt rhwng y ddau faes.

Lansiwyd gwefan newydd ar gyfer y Gwasanaeth ADYaCh ar y 5ed o Dachwedd 2018 [www.adyach.cymru](http://www.adyach.cymru)

#### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



### Blaenoriaeth Gwella 3



#### Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.

## Pobl Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith

### Blaenoriaeth Gwella 3



#### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn edrych i ganolbwyntio ar gyfres o weithgareddau er mwyn cael mwy o drigolion Gwynedd i waith llawn amser gan leihau segurddod a diweithdra.

#### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Yn ystod 2018/19 mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn £300,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru, a lansiwyd y pecyn o brosiectau cyflogaeth fel "Gwaith Gwynedd". Mae'r pecyn yn cynnwys 5 o brosiectau sydd yn cydweithio er mwyn cefnogi trigolion Gwynedd i waith. Hyd yma mae cynlluniau ADTRAC, OPUS, Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith

a Mwy wedi cefnogi bron i 350 o unigolion, gan gefnogi bron i 60 i waith ac 80 i ennill cymhwyster. Mae TRAC wedi cefnogi dros 600 o blant i leihau'r risg o beidio bod mewn addysg, hyfforddiant na gwaith (NEET).

#### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Strategaeth Cefnogi Teuluoedd

## Blaenoriaeth Gwella 3



### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn ailedrych ar ein trefniadau presennol yn y maes yma er mwyn gwneud mwy o'r hyn sy'n gweithio i gyflawni anghenion plant a'u teuluoedd. Bydd cynnig cefnogaeth i rai teuluoedd cyn i faterion ddwysáu yn hanfodol er mwyn helpu plant a theuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.

Byddwn yn sicrhau gweledigaeth glir gyda phartneriaid allweddol megis y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'n cymunedau a'r Trydydd Sector er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd hynny sydd angen ein cymorth.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Rydym wedi bod yn diweddarau asesiadau anghenion trigolion a'u dadansoddi i lefelau lleol ar gyfer asesiad poblogaeth Gwynedd. Mae gwaith pellach wedi ei gynnal i adnabod beth yw'r galw am gefnogaeth i deuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor yn ogystal â mapio pa ddarpariaethau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd ar draws Gwynedd yn barod, a sut mae pobl yn cael mynediad i'r gwasanaethau yma. Mae'r gwaith yma wedi arwain at wella ein dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol, ac i'r dyfodol bydd yn ein harwain i gynllunio sut y byddwn yn ymateb i'r anghenion ar y cyd â'n partneriaid.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Cefnogi Teuluoedd a chyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru i uno eu grantiau ataliol wedi rhoi cyfle i ni adlewyrchu ar ein cyfeiriad. Fel Cyngor rydym yn awyddus i edrych yn ehangach ar y maes ataliol a'r gefnogaeth yr ydym yn ei ddarparu ar draws ein holl wasanaethau i drigolion y Sir er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

Mae angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion ac mae'r Cyngor yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyraethau sy'n mynd i'r afael â chefnogi pobl gyda materion amrywiol megis anawsterau riantu a magu teulu, cael a chynnal cartref, cynnal perthnasau iach, delio gyda cham-ddefnyddio sylweddau, alcohol, trais, troseddu ac effeithiau hynny, byw'n iach ac actif, incwm annigonol a diffyg gwaith, methu aros mewn addysg, diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol, gofalu, heneiddio, unigrwydd a diffyg cysylltiadau cymdeithasol. Mae'n fwriad gennym i sefydlu 'Bwrdd Cefnogi Pobl' er mwyn dod a'r holl elfennau uchod at ei gilydd gyda'r bwriad o gefnogi pobl yn well.

### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

## Cydymdrechu yn erbyn Tlodi

## Blaenoriaeth Gwella 3



### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn parhau gyda gwaith i helpu trigolion i fagu sgiliau i ymdopi gyda rheoli incwm y cartref a dyledion, i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein a gweithredu cynlluniau fydd yn rhoi cyfleoedd gwaith i bobl sydd ddim yn rhan o'r farchnad lafur. Byddwn hefyd yn rhoi cefnogaeth i bobl i ymdopi efo newidiadau yn y maes lles a budd-daliadau.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Er mwyn cefnogi trigolion Gwynedd gyda'r newidiadau i'w budd-daliadau, sefydlwyd Grŵp Diwygio Lles Gwynedd ar y cyd â phartneriaid. Yn ystod y flwyddyn mae'r Grŵp wedi datblygu ac arwain ar Gynllun Gweithredu, ac wedi lansio ymgyrch farchnata "Mae eich budd-daliadau yn newid" ar y cyd ledled Gwynedd. Rydym wedi parhau i gydlynu a chynnal digwyddiadau Call efo'r Geiniog ar draws Gwynedd ar y cyd gyda'r Canolfannau Byd Gwaith gan gynnig mynediad at wybodaeth a chymorth i drigolion Gwynedd.

Mae'r prosiect Gwynedd Ddigidol wedi parhau i gynnig sesiynau Galw Draw Digidol ar draws y Sir, ac hyd yma mae 3,000 o drigolion wedi eu cefnogi i fagu sgiliau digidol.

I'r dyfodol bydd y gwaith hwn yn cael ei ymgorffori o fewn rhaglen waith y Bwrdd Cefnogi Pobl y cyfeirir tuag ato uchod.

### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Rhiant Corfforaethol

## Blaenoriaeth Gwella 3



### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Fel rhieni corfforaethol byddwn yn anelu i wella'r cyfleoedd ar gyfer ein plant ym mhob agwedd ar eu bywydau. Drwy wrando a chanfod barn y plant sy'n ein gofal byddwn yn sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir gennym yn cwrdd â'u hanghenion gan weithredu i gau unrhyw fylchau. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y rhai sydd yn gadael ein gofal yn cael eu paratoi a'u harfogi ar gyfer bywyd fel oedolyn gan sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth addas i'w cynorthwyo i wireddu eu potensial.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae cryn waith wedi ei gynnal yn ystod y cyfnod i geisio adnabod lle mae angen i ni wella ac i adnabod ymarfer da drwy'r grwpiau tasg sydd eisoes wedi eu sefydlu. Rydym o'r farn bod y flaenoriaeth gwella yma wedi ei gwblhau erbyn hyn. Mae'r Panel wedi adnabod meysydd sydd angen derbyn sylw ac mae rhaglen waith yn ei lle i gyfarch hyn, ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad yr Arolygaeth Gofal Cymru gan ddisgrifio'r Panel Rhiant Corfforaethol yn 'uchelgeisiol ar gyfer y plant mewn Gofal'.

### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

### Lleihau'r Bwlch Cyflog Rhwng Merched a Dynion / Merched Mewn Arweinyddiaeth

### Blaenoriaeth Gwella 3



### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Er yn gadarn ei fod yn talu cyflog ar sail cyfartal, mae'r Cyngor yn cydnabod bod bwlch cyflog yn bodoli rhwng dynion a merched.

Byddwn yn ymchwilio i sut mae modd lleihau'r bwlch cyflog hwn gyda golwg ar hybu'r nifer o ferched sy'n cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Ar ddiwedd Mawrth 2018 roedd 71% o holl weithlu'r Cyngor yn ferched, ac o'r canran hwnnw roedd 63% yn gweithio'n rhan-amser, a nifer mewn swyddi sy'n talu lefelau is o gyflog megis swyddi gofal neu lanhau. O ganlyniad, mae'r cyflogau y mae merched yn ei dderbyn, fel carfan gyfan, yn 9.9% yn is na'r garfan gyfan o ddynion sy'n gweithio i'r Cyngor.

Petai'r sefyllfa bresennol yn parhau, ni fyddai penodi merched i bob swydd uwch-reolaethol o fewn y Cyngor yn sicrhau lleihad arwyddocaol yn y bwlch cyflog. Daeth yn amlwg felly bod angen newid trywydd y prosiect, ac rydym bellach yn canolbwyntio ar ddileu unrhyw elfen o'r amodau ac amgylchedd gwaith yn y Cyngor sy'n rhwystr i alluogi merched i ymgeisio am swyddi arweiniol a rheolaethol i'r dyfodol. Gyda 50% yn llai o ferched na dynion yn credu y gallant ymgeisio am swyddi arweiniol neu reolaethol, mae ffocws y prosiect hwn bellach ar 'Ferched mewn Arweinyddiaeth'.

### Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



## Blaenoriaeth Gwella 4



**Sicrhau mwy o gyflenwad o dai addas ar gyfer ein trigolion.**

### Tai Addas a Fforddiadwy

### Blaenoriaeth Gwella 4



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Pwrpas y prosiect **Tai Addas a Fforddiadwy** yw sicrhau fod gennym ddealltwriaeth fanwl o natur y galw am dai o fewn ein cymunedau, fel y gallwn gynllunio ar gyfer y dyfodol a gwneud gwahaniaeth.

**Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?**

Mae'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn gweithio ar asesu anghenion Tai yng Ngwynedd ac wedi ymgynghori ar y canfyddiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwaith o gwblhau'r Asesiad Anghenion Tai yn sylfaen gref i'r Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-2024 sydd wedi cael ei chwblhau yn ystod y flwyddyn ac sydd ar fin cael ei chyflwyno i'r Cabinet. Mae'r Strategaeth yn gosod uchelgais clir ar gyfer y maes Tai yn ei gyfanrwydd gyda chartrefi fforddiadwy ac addas yn gyrru ein cynlluniau i'r dyfodol.

**Amcanion Llesiant –**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

### Adnabod a Hyrwyddo Cynlluniau a Mentrau Tai

### Blaenoriaeth Gwella 4



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Ein bwriad yw gwella mynediad trigolion at gymorth sydd yn ymwneud ag anghenion tai gan adnabod mentrau a chynlluniau sydd ar gael i'w cynorthwyo. Byddwn hefyd yn dod i benderfyniad ar y ffordd orau i hyrwyddo'r cynlluniau a'r mentrau yma ac ynghylch yr angen i ddatblygu cefnogaeth benodol bellach.

**Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?**

Mae'r gwaith o asesu anghenion tai pobl Gwynedd ynghyd â llunio Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd wedi gwella ein dealltwriaeth o'r heriau sydd yn wynebu pobl o fewn y maes

tai. Mae mynd i'r afael â'r heriau sydd yn wynebu pobl wrth iddynt geisio canfod cartref addas yn ganolog i Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd.

#### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



### Blaenoriaeth Gwella

5



**Sicrhau ein bod yn annog a hyrwyddo gallu pobl Gwynedd i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.**

### Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

### Blaenoriaeth Gwella 5



#### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosib i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus.

Byddwn yn edrych i wella'r sefyllfa trwy gydweithio efo sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd er mwyn galluogi ac annog trigolion y sir i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu efo'r sefydliadau hynny a sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth.

#### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r prif gyrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau yng Ngwynedd yn aelodau o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Rydym felly wedi cydweithio â'n cyd-aelodau o'r Bwrdd i weld sut allwn ni rannu arfer da a helpu ein gilydd i weithredu Safonau Iaith Comisiynydd y Gymraeg er budd ein trigolion. Er bod nifer o enghreifftiau o gynnal gwasanaethau Cymraeg safonol, yn anffodus nid ydym yn credu bod y gwaith ar y mater pwysig hwn wedi symud yn ei flaen yn ddigon cyflym dros y flwyddyn.

#### Amcanion Llesiant –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



## Busnesau Gwynedd yn Defnyddio'r Gymraeg

### Blaenoriaeth Gwella 5



#### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae gan fusnesau Gwynedd rôl i'w chwarae wrth hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg, a'n bwriad fydd annog busnesau i ddefnyddio'r iaith wrth gynnig gwasanaeth. Bydd angen i ni ystyried sut y mae modd i'r Cyngor hyrwyddo hyn, a pha weithgareddau sy'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol yn y maes.

#### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae'r Cyngor yn dod i gysylltiad â busnesau'r sir drwy sawl llwybr - ein gwaith yn cefnogi busnesau lleol er mwyn gwella'r economi leol, ein prosesau cynllunio a'n prosesau caffael (prynu nwyddau neu wasanaethau). Bu hi'n flwyddyn felly o weld sut fedrwn ni ddylanwadu a helpu busnesau i gynnig gwasanaeth Cymraeg neu ddwyieithog i'w cwsmeriaid. Bellach mae amodau wedi eu gosod mewn cytundebau ar gyfer y gronfa benthyciadau busnes, ac rydym wedi cydweithio â'r prosiect Cymraeg Byd Busnes sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynyddu defnydd busnesau o'r Gymraeg. Yn yr un modd rydym hefyd wedi dechrau cydweithio â siroedd eraill gorllewin Cymru drwy'r prosiect Arfor i gefnogi busnesau er mwyn datblygu'r gwasanaeth Cymraeg.

#### Amcanion Llesiant –

- [Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

## Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

### Blaenoriaeth Gwella 5



#### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg a sicrhau bod gwaith mewnol y Cyngor yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, rydym yn cydnabod ein bod mewn cyfnod heriol a bod angen gweithio yn barhaus i wthio'r ffiniau a gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth yn gyson ar draws ein gwasanaethau.

Fe fyddwn yn parhau i gydweithio gydag adrannau i edrych ar y modd y maent yn ateb gofyn y cyhoedd am wasanaeth Cymraeg, i ystyried eu llwyddiant i normaleiddio'r Gymraeg a'r ffyrdd y gallent fod yn hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg eu defnyddwyr.

#### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Dechreuwyd drwy ganolbwyntio ar weithio efo gwasanaethau rheng flaen, gan gwblhau gwaith mewn 9 Gwasanaeth, a'r gwaith yn parhau mewn 7 arall. Aseswyd sgiliau Cymraeg staff yn y swyddi rheng flaen i weld oedd bylchau mewn sgiliau ac a oedd angen cefnogaeth bellach gan gynnig y gefnogaeth neu hyfforddiant ble roedd angen. Mae hyn i gyd wedi cynnal neu wella'r gwasanaeth Cymraeg i drigolion.

Mae cynnal hyfforddiant iaith a mentora un i un wedi arwain at unigolion yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chyda'r cyhoedd ble nad oeddynt ynghynt. Mae defnyddio technoleg- ee. grwpiau Facebook, Whatsapp ayyb yn helaeth er mwyn rhannu syniadau ac ymarfer y Gymraeg wedi helpu staff. Mae preswylwyr mewn cartref gofal hefyd yn helpu staff y cartref i ymarfer eu Cymraeg.

Roedd 86% o staff a holwyd yn teimlo bod yr hyfforddiant a ddarparwyd wedi cael 'llawer' o effaith arnynt yn y gweithle, gyda 79% o staff a holwyd yn credu i'r derbynnydd gwasanaeth elwa o'r ffaith i'r staff dderbyn hyfforddiant.

Amcanion Llesiant –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

### Strategaeth/Siarter Iaith Uwchradd

### Blaenoriaeth Gwella 5



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn parhau i gyflogi Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd fydd yn darparu her a chefnogaeth briodol i'n hysgolion uwchradd. Bydd gan bob ysgol uwchradd gynllun gweithredu unigol ac unigryw fydd yn adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'r gymuned o'i hamgylch. Bydd y bobl ifanc eu hunain hefyd yn datblygu rhaglen o weithgareddau anffurfiol a chyffrous ar gyfer eu cyfoedion, er mwyn codi statws a chynyddu'r cyfleodd anffurfiol i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Cafodd yr holl ysgolion uwchradd gefnogaeth i weithredu prif flaenoriaethau'r Strategaeth Iaith ac ail-ymweld â'u cynlluniau gweithredu unigol. Cafodd pob ysgol uwchradd hefyd gefnogaeth i weithredu'r gwe iaith gyda disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 yn ystod tymor yr Hydref.

Amcanion Llesiant –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.



## Blaenoriaeth Gwella 6



**Sicrhau fod gennym wasanaethau gofal sy'n helpu pobl i fyw eu bywydau fel y dymunant.**

### Gwydnwch Cymunedol

### Blaenoriaeth Gwella 6



#### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn datblygu gwasanaethau ataliol sydd wedi eu hanelu at gefnogi trigolion, gan gysylltu pobl â chefnogaeth o fewn eu cymunedau gan ganolbwyntio ar 5 ardal yn ystod y flwyddyn gyntaf a'u gwneud yn Ddementia Gyfeillgar. Rhan allweddol o wydnwch cymunedol yw sut mae gwahanol genedlaethau yn cyd-fyw a chymdeithasu, a byddwn yn adeiladu ar y gwaith y tu ôl i'r rhaglen 'Hen Blant Bach' a fu'n gyfle i edrych ar sut y byddai dod â phlant oed meithrin a phobl hŷn at ei gilydd.

#### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Un o ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Iechyd a Llesiant yw sicrhau ein bod yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl mewn ffordd syml a hygyrch. Yn ein barn ni, y ffordd orau o wireddu hyn yw creu a bod yn rhan o 5 Tîm Lleol (TAC) fydd yn cynnig trefniadau cysylltu syml i drigolion Gwynedd. Bydd hefyd yn sicrhau bod unigolion yn parhau i gadw rheolaeth wrth ganfod gwybodaeth am yr hyn y maent eu hangen.

Mae'r Cynllun Cysylltwyr Cymunedol wedi ei sefydlu ac wedi lleoli unigolion a noddir gan asiantaeth 3ydd sector oddi mewn i 3 o'r TAC. Maent yn mapio gwasanaethau a grwpiau sydd yn bodoli o fewn cymunedau gan gysylltu unigolion sydd angen cymorth gyda'r gwasanaethau hynny, ynghyd ag adnabod bylchau yn y gwasanaeth a hybu mentrau cymunedol.

Yn dilyn dwy gyfres lwyddiannus (6 wythnos yr un) o Bontio'r Cenedlaethau ym Mangor a Nefyn, mae'r Uned Llesiant wedi mynd ati i drefnu gweithgareddau rhwng tenantiaid Tai Gwarchod yn y Bermo a phlant Ysgol y Traeth. Mae'r Uned Llesiant yn ogystal yn gweithio gyda Phenfaeth Safle Grŵp Llandrillo Menai yn Nolgellau ar wneud cyswllt rhwng eu myfyrwyr â phobl hŷn, a rhagwelir y gall hyn gefnogi recriwtio mwy o bobl ifanc i'r maes gofal cymdeithasol.

Mae'r "Cynllun Dementia Go" yn mynd o nerth i nerth ac maent bellach yn cynnal 14 dosbarth ar draws y Sir. Mae'r cynllun wedi ei ehangu a'i ddatblygu yn ogystal i gynnig profiadau i breswylwyr o fewn ein cartrefi gofal. Rydym wedi cynnal sesiynau hyfforddi gweithlu mewn 11 cartref preswyl yn y Sir. Bydd y cynllun yn sicrhau fod preswylwyr yn cael y cyfle i fod mor actif â phosibl gan leihau'r risg o godymu, lleihau iselder a gwella ansawdd bywyd.

### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

## Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal

## Blaenoriaeth Gwella 6



### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn parhau gyda'r gwaith hwn gan sefydlu 5 tîm lleol ar y cyd gyda'n partneriaid fydd yn sicrhau gwasanaethau effeithiol gyda'r ffocws ar yr unigolion, a sicrhau bod ein trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol ac yn cyd-fynd â beth sy'n bwysig i'r unigolyn hwnnw.

Fel rhan o'n gwaith gyda'n darparwyr gwasanaethau gofal byddwn yn arbrofi efo ffyrdd newydd o gomisiynu pecynnau gofal cartref a hefyd yn buddsoddi yn ein cartrefi gofal er mwyn gwella ein darpariaeth gofal mwy dwys. Yn ogystal, fe fyddwn yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn cryfhau gwasanaethau iechyd meddwl yn lleol ac yn edrych ar ffyrdd arloesol o wella gwasanaeth anabledd dysgu.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae 5 Tîm Lleol (TAC) wedi eu lleoli yn ardaloedd Llŷn, Caernarfon, Bangor, Eifionydd/Gogledd Meirionydd a De Meirionydd. Timau amlddisgyblaethol integredig o wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yw'r rhain. Mae'r newid hwn yn golygu fod y bobl sydd angen gwasanaeth, ynghyd â'u teuluoedd yn gallu cysylltu gyda'r swyddogion perthnasol yn uniongyrchol. Mae ardaloedd llai hefyd yn golygu ei bod hi'n haws i'r staff gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd o fewn cymunedau lleol, fydd yn ei dro yn gwella profiad unigolion.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar wella llif cleifion drwy'r system gofal ac iechyd, a hynny drwy ddilyn achosion o'r dechrau i'r diwedd a cheisio dileu'r rhwystrau sydd yn codi. Mae'r gwaith yma hefyd yn cadw at yr egwyddor o wneud beth sydd yn bwysig i'r unigolyn ac wedi ei seilio ar yr un egwyddorion â'r gwaith timau integredig. Mae arbrawf ar Ward Ogwen Ysbyty Gwynedd wedi ceisio canfod dulliau i wella'r system trosglwyddo cleifion, er yn ddyddiau cynnar, mae gwaith dechreuol yn dangos arwyddion diddorol a chadarnhaol iawn.

Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu datblygu darpariaeth arbenigol dementia o fewn cartrefi mewnol y Cyngor mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau i ddatblygu'r unedau arbenigol yn Llys Cadfan yn Nhywyn, Plas Hafan yn Nefyn a Phlas Hedd ym Mangor diolch i gyllid drwy Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru. Mae disgwyl y bydd yr uned yng Nghartref Bryn Blodau y Cyngor yn Llan Ffestiniog yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2019.

Bu i denantiaid cyntaf Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest ym Mhorthmadog symud i mewn yn ystod mis Ionawr. Mae Hafod y Gest yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Grŵp Cynefin a datblygwyd y cynllun gan 'Anwyl Construction'. Mae wedi'i leoli yng nghanol tref

a chymuned Porthmadog ac wedi ei leoli'n agos at siopau a chyfleusterau'r dref. Mae ymateb preswylwyr i'r datblygiad wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae'r Cyngor wedi manteisio ar gyllid o Gronfa Gofal Canolradd Llywodraeth Cymru i greu model newydd i ddarparu gwasanaeth er budd oedolion gydag anableddau dysgu wedi'i leoli yng Nghaernarfon. Mae'r arian wedi ei ddefnyddio i adnewyddu ardal caffi ynghyd ag uwchraddio'r ystafell gymuned. Mae'r caffi yn darparu cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddiant i oedolion sy'n hysbys i'r Tîm Anabledd Dysgu yn yr ardal er mwyn iddynt ddatblygu sgiliau bywyd ymarferol pwysig ynghyd â darparu gwasanaeth newydd i'r gymuned ehangach.

#### Amcanion Llesiant –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.**

#### Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal

#### Blaenoriaeth Gwella 6



#### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Cyn medru sefydlu cynllun gweithredu i ddatrys y broblem mae angen i ni sicrhau ein bod yn wir ddeall y broblem a byddwn yn cynnal ymchwiliad i'r sefyllfa bresennol yng Ngwynedd, y pwysau ar ein gweithlu ac i'r Cyngor, ac yn edrych i weithredu ar yr atebion ddaw i'r amlwg. Byddwn hefyd yn gweithio i godi proffil a statws gweithwyr gofal trwy adolygu llwybrau gyrfaol presennol, fel bod gyrfa mewn gwaith gofal cymdeithasol yn ddewis gyrfa cadarnhaol, a byddwn yn hyrwyddo'r maes gofal fel gyrfa drwy ledaenu gwybodaeth briodol i sefydliadau lleol. Byddwn hefyd yn adolygu ein cynllun Prentisiaethau o fewn y Cyngor i geisio dylanwadau ar y nifer o brentisiaethau o fewn y maes gofal.

#### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Mae llawer wedi digwydd o fewn y prosiect gydag amryw o gynlluniau yn ceisio mynd i'r afael â gwahanol agweddau i geisio deall y broblem yn well. Mae'r Prosiect Gofal Cartref ym Methesda yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem o fewn y maes gofal cartref ac wedi arwain ar newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn darparu gofal cartref yng Ngwynedd. Mae prosiectau tebyg ar waith yn ardal Tywyn hefyd.

Mae darn o waith hefyd wedi ei gomisiynu i wella ein dealltwriaeth ac adnabod prif negeseuon o ran y maes pobl hŷn. Fe gynhaliwyd i sesiwn ym mis Medi i wella dealltwriaeth aelodau'r Cyngor o'r her recriwtio sy'n bodoli yn ogystal â cheisio casglu eu barn a'u sylwadau ar gyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Timau Ardal yn ogystal yn cynnal ymarferiad ar y cyd gyda'n partneriaid i gasglu gwybodaeth am achosion mewn un ardal benodol. Bydd y tîm yn craffu achosion yn fanwl er mwyn dod i ddeall yn well beth yw'r angen o fewn un ardal fechan, ac yna gallwn ddod i gasgliad am ddatrysiadau posib.

### Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



### Blaenoriaeth Gwella

7



**Sicrhau fod y Cyngor cyfan yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.**

### Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith

### Blaenoriaeth Gwella 7



#### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ni fydd sicrhau diwylliant cyson yn digwydd ar ei ben ei hun, a phwrpas y prosiect hwn fydd arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Byddwn yn parhau i gynnal adolygiadau dwys gyda nifer o wasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i'w gwaith. Yn ogystal, bydd y rhaglen i hyfforddi Rheolwyr Gwasanaeth ar egwyddorion Ffordd Gwynedd (gan gynnwys egwyddorion rheoli perfformiad cadarn) yn parhau a bydd cefnogaeth ar gael iddynt gynnal eu hadolygiadau eu hunain.

#### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Fel y nodwyd wrth ddisgrifio'r prosiect 'Datblygu Arweinyddiaeth', mae swyddogion y fewn y Cyngor sy'n rheolwyr wedi cwblhau cwrs hyfforddiant ar sut i roi Ffordd Gwynedd ar waith. Maent wedyn wedi symud ymlaen i gynnal adolygiadau eu hunain ar sut mae eu gwasanaethau yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog.

Yn y cyfamser, mae'r gwaith o gynnal adolygiadau gwasanaeth dwys gyda chefnogaeth swyddogion arbenigol yn parhau ac mae dulliau o weithio wedi newid dros y flwyddyn yn sgil y gefnogaeth hon. Mae timau o weithwyr priffyrdd, er enghraifft, yn defnyddio teclynnau electronig symudol i gofnodi a threfnu gwaith trwsio ffyrdd sydd wedi lleihau'r amser y mae'r holl broses yn ei chymryd.

## Gwireddu Arbedion



### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae'r toriadau yn yr arian y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn golygu fod angen i ni ddygymod efo derbyn llai o arian i gynnal ein gwasanaethau. Dros yr 8 mlynedd ddiwethaf rydym wedi gorfod tynnu dros £48m allan o gyllideb y Cyngor.

Byddwn felly yn parhau efo'r gwaith o sicrhau ein bod yn gwireddu'r arbedion hynny sydd wedi eu cymeradwyo eisoes a sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer darganfod arbedion y dyfodol. Yn ystod 2018/19 byddwn yn datblygu dewisiadau arbedion ar gyfer 2019/20 ymlaen er mwyn ymateb i'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Yn naturiol, byddwn yn ymgynghori gyda thrigolion Gwynedd ar y dewisiadau hynny.

### Pa gynnydd wnaed yn 2018/19?

Fe wnaethom gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus i weld beth oedd blaenoriaethau Pobl Gwynedd, yn ogystal ag ymgynghoriad cyhoeddus ar gynlluniau arbedion arfaethedig er mwyn cynorthwyo'r Cynghorwyr wrth wneud penderfyniad. Mabwysiadodd y Cyngor gyllideb ar 7 Mawrth 2019 oedd yn gorfod ymgorffori £5.2miliwn o arbedion. Roedd hyn ar ben y £48miliwn yr oeddem eisoes wedi gorfod ei dynnu allan o gyllidebau'r Cyngor.

O ran gwireddu'r arbedion hynny mae 96% o gynlluniau arbedion 2015/16 – 2017/18 wedi eu gwireddu, gydag elfen o bryder am gynlluniau codi incwm o fewn yr Adran Addysg lle nad yw'r incwm a ragwelwyd yn amlygu ei hun. Bydd yr Adran yn edrych am ddulliau i wneud yn iawn am y bwlch. O ran arbedion 2018/19 mae 73% o'r arbedion wedi eu gwireddu, gyda 7 cynllun allan o'r cyfanswm o 28 yn llithro. Fodd bynnag disgwylir i'r rhan fwyaf o'r rhain gael eu cyflawni maes o law, gyda phryder am un cynllun yn unig o fewn maes Plant lle gwelwyd cynllun oedd i fod i ddarganfod arbedion drwy adolygu sut yr oeddem yn cyflawni anghenion plant mewn gofal yn cael ei gyflawni ond ddim yn cynhyrchu cymaint o arbedion a ddisgwyliwyd. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i ddod i weld beth arall sydd yn bosibl i'w wneud.





## Adran Addysg



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael yr un cyfleoedd ac yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau posib.

Mae gostyngiad cenedlaethol eleni yng nghanlyniadau Cyfnod Sylfaen (7 oed) o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, a'r prif reswm am hyn yw'r defnydd am y tro cyntaf o ddeilliannau newydd mewn iaith a mathemateg wrth asesu. Mae'r gostyngiad cenedlaethol yma yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau Gwynedd. O ganlyniad dylai cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol gael eu hosgoi gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymharol. Roedd 81.7% o'r dysgwyr a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS), sy'n gyson â 82.6% yn genedlaethol.

Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (7 oed) sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS))



Mae cyrhaeddiad addysgol ein plant a phobl ifanc yng nghanlyniadau Haf 2018, yng Nghyfnod Allweddol 2 (11 oed) a Chyfnod

Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd cyfnod Allweddol 2 (11 oed)



Allweddol 3 (14 oed), yn parhau'n gadarn dda. Roedd perfformiad Cyfnod Allweddol 2 yn y lefelau uwch yn gadarnhaol iawn, gyda 91.2% o'r dysgwyr yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd (DPC), sef Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, sydd yn uwch na'r canran cenedlaethol o 89.5%.

Roedd perfformiad dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 yn 92.8% sydd yn gadarn ac wedi aros yn gyson, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 88.1%. Er hynny, bu gostyngiad yn y canran o ddysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (PYD) a enillodd y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd cyfnod Allweddol 3 (14 oed)



Haf 2014	Haf 2015	Haf 2016	Haf 2017	Haf 2018
89.11%	91.3%	92.0%	92.8%	92.8%

Erbyn cyrraedd Cyfnod Allweddol 4 (14-16 oed - TGAU) gwelwyd ostyngiad ym mhob un o'r prif ddangosyddion o gymharu â llynedd, gyda 15 o bynciau wedi eu diweddarau ac wedi eu sefyll am y tro cyntaf eleni, ynghyd â newidiadau sylweddol i ffiniau graddau, yn arbennig gradd C mewn Saesneg a Mathemateg. Cafodd hynny effaith sylweddol ar ganlyniadau Saesneg, er hynny roedd perfformiad Cymraeg iaith gyntaf yn gyson uchel. Bydd ein ysgolion yn targedu ymyriadau perthnasol er mwyn ceisio gwella perfformiad Saesneg a Mathemateg CA4.

Roedd 43.8% o'r dysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (PYD) yn 2018 wedi ennill 5 gradd TGAU A\*-C, gan gynnwys Cymraeg




(iaith) neu Saesneg (iaith), a Mathemateg neu Fathemateg (rhifedd) (TL2+).

Gwelwyd cynnydd mewn perfformiad 2 o'r 3 prif ddangosydd yng Nghyfnod Allweddol 5 (Lefel A), gyda 60.4% o ddysgwyr yn ennill 3 o raddau A\*-C, ac yn rhagori ar berfformiad Cymru oedd yn 58.1%

Mae Estyn yn parhau i arolygu ein hysgolion, ac mae'r proffil arolygiadau ar draws y sectorau yng Ngwynedd yn rhagorol. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2017-18 bu i Estyn gynnal arolygiad mewn 19 ysgol yng Ngwynedd, dyfarnwyd nad oedd angen unrhyw weithredu dilynol mewn 16 o'r ysgolion arolygwyd, ac yn y 3 ysgol arall dyfarnwyd categori dilyniant lleiaf dwys.

Defnyddir proses a matrices cenedlaethol ar gyfer categorio ysgolion. Mae lliw'r categorio yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgol - gwyrdd, melyn, melyngoch neu goch (yr ysgolion yn y categori gwyrdd sydd angen y lefel isaf o gymorth, a'r rheini yn y categori coch sydd angen y cymorth mwyaf dwys). Ym mlwyddyn academiaidd 2017-18 roedd 91% o'n hysgolion yn y categorïau gwyrdd neu felyn, sydd yn gynydd o 24% ers 2014-15.


Canran presenoldeb ysgolion cynradd yn y flwyddyn academiaidd:



Mae'r gwasanaeth lles yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Roedd presenoldeb dysgwyr yn ysgolion cynradd ac uwchradd

Gwynedd yn ystod 2018/19 yn 94.8% sydd yn parhau yn gyson dda.

Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academiaidd:



Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o Gonsortium Addysg ôl-16 Gwynedd a Môn, sy'n gosod cyfeiriad i ddarpariaeth ôl-16 yr ardal. Yn ystod 2018-19 mynychodd 846 o ddysgwyr un o gyrsiau partneriaeth 14-16 yng Ngwynedd.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbydd addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



## Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Mae perfformiad yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant ar gyfer 2018/19 yn gadarnhaol ac mae llawer iawn wedi ei gyflawni. Mae gennym lawer iawn i fod yn falch ohono yng Ngwynedd ac mae hynny i raddau yn adlewyrchiad o'r berthynas dda sydd gennym gyda'n partner allweddol o fewn y maes, sef y Bwrdd Iechyd. Rydym wedi amlinellu ers sawl blwyddyn bellach ein bod ar siwrnai o drawsffurfio, ac mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Cymru Iachach' ym mis Mai 2018, a bod y ddogfen hon yn ymateb i Adolygiad Seneddol Ionawr 2018. Mae'r cyfeiriad sydd yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru yn gyson gyda'r cyfeiriad rydym wedi ei chytuno arni fel Sir a bod ein gwaith trawsffurfio lleol yn gyson gyda'r hyn sydd yn cael ei amlygu fel yr ymarfer gorau.

Mae 5 Tîm Lleol wedi eu sefydlu o fewn y maes pobl hŷn ac mae pawb oddi fewn i'r tîm yn rhannu'r un egwyddorion, gan gynnig person arweiniol i'r unigolyn er mwyn hwyluso eu taith drwy'r gyfundrefn gofal ac iechyd. Mae'r newid hwn o ran dull o weithio wedi golygu bod staff

yn naturiol fynd ar ôl "beth sydd yn bwysig" i unigolion fel y prif beth sydd yn gyrru eu penderfyniadau. Mae'r ffordd yma o weithio yn profi'n llwyddiannus iawn. Mae hwn yn newid enfawr, ac yn seiliedig ar newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym i gyd yn gweithio. Mae'n ddyddiau cynnar, ond mae'n glir mai dyma'r ffordd ymlaen o ran cael y canlyniadau gorau i




bobl Gwynedd.

Mae cydnabyddiaeth fod angen adolygu'r modd yr ydym yn adrodd ar fesur ein pwrpas. Mae'r ystadegau presennol yn nodi fod **100%** o'r bobl hŷn ac anableddau corff sydd wedi eu asesu yn gallu **cyflawni'r hyn sydd yn bwysig iddynt**.

Er mai nifer fechan o achosion sydd wedi adrodd arnynt hyd yma mae'n dangos

DTC Rhesymau Gofal Cymdeithasol Gwynedd Misol

Rheswm Dros Oeddiad ● Community care arrangements ● Community care assessment



Data wedi ei dynnu allan o [Stats Wales](#) - Mai 2019

arwyddion calonogol. Mae grŵp tasg wedi bod yn adolygu ac addasu'r ddogfennaeth asesu, ac mae'r ddogfennaeth newydd yn cael eu treialu ar hyn o bryd. I'r dyfodol, bydd posib tynnu adroddiad mwy cywir allan o'r dogfennau newydd ynghyd â gwybodaeth fanwl ynghylch unrhyw angen nad yw'n cael ei ddiwallu. Bydd yr wybodaeth yma o gymorth i'r arweinwyr ddatblygu a gwella cefnogaeth yn y timau lleol ac yn bwydo i'r asesiad anghenion poblogaeth ar gyfer comisiynu gwasanaethau addas lleol.

Mae gwaith yn digwydd yn ogystal i wella profiad pobl wrth drosglwyddo o'r ysbytai yn ôl i'r gymuned. Ein gweledigaeth i'r dyfodol yw cryfhau ein timau cymunedol er mwyn gwella ein gallu i ymateb a rhoi cefnogaeth wrth i bobl drosglwyddo o'r ysbyty i'r gymuned. Mae nifer yr unigolion sydd yn methu eu rhyddhau yn amserol o'r ysbyty oherwydd rhesymau cymdeithasol wedi lleihau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, ond rydym yn parhau i wynebu her i ddarparu gwasanaethau gofal o fewn rhai cymunedau o fewn y Sir.

Mae datblygiad y timau adnoddau cymunedol (TAC) a datblygu cynlluniau gofal cartref yn ardal Tywyn a Bethesda, yn ogystal ag arbrawf ar Ward Ogwen Ysbyty Gwynedd, wedi gwella'r sefyllfa trosglwyddo cleifion. Er yn ddyddiau cynnar, mae'n dangos arwyddion diddorol a chadarnhaol iawn. Byddwn yn eich diweddarau ar yr arbrawf yma i'r dyfodol.

Mae cynnig ymyrraeth ataliol yn gyrru'r maes Anableddau Dysgu gyda ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol. Mae'r mesur perfformiad o fewn Tîm Anableddau Dysgu yn ddatblygol ei natur ond mae yn dangos perfformiad cadarnhaol gyda 97% yn adrodd ein bod wedi cyflawni yr hyn sydd yn bwysig. Bydd y Tîm yn edrych ac yn datblygu ar eu mesurau perfformiad i'r dyfodol er mwyn cael darlun mwy cyflawn.

Rydym yn ceisio rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl mewn ffordd syml a hygyrch. Bwriad y gwasanaeth newydd yw rhoi gwybodaeth gywir ac amserol i bobl Gwynedd am yr adnoddau, cysylltiadau a rhwydweithiau sydd ar gael iddynt yn lleol.



Mae gwaith parhaus yn digwydd i ddiweddarau gwybodaeth i sicrhau bod yr wybodaeth a roddir i'r cyhoedd yn glir ac yn gyfredol ac rydym hefyd wedi bod yn gweithio yn agos iawn gyda DEWIS Cymru i ddiweddarau'r wefan ac i hybu ei defnydd. Mae'r wefan yma yn rhoi gwybodaeth i drigolion a staff am yr ystod o wasanaethau/clybiau a gweithgareddau sy'n digwydd o fewn eu hardal.


O fewn y maes gofalwyr, mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru wedi llunio strategaeth sydd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr o bob oedran. Mae'r strategaeth wedi arwain at ddatblygu a chyd gynhyrchu 'cynnig' i ofalwyr, sy'n cynnwys safonau gwasanaeth mae partneriaid yn ymrwymo i'w cyflawni. Dros y misoedd nesaf byddwn yn mynd ati i ystyried y strategaeth a llunio cynllun gweithredu i sicrhau ein bod yn ymrwymo yn llawn i'r safonau ynghyd â datblygu mesurau ystyriol yn erbyn y cynnig.

Mae'r Adran Oedolion wedi rhoi trefniadau cadarn yn eu lle yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau arbenigedd a dealltwriaeth lawn o'r holl faterion sy'n ymwneud â diogelu. Mae cynnydd

cyffredinol wedi bod mewn achosion sy'n ymwneud â materion diogelu yn ddiweddar, ond mae'n amlwg o drafodaethau gydag Awdurdodau eraill o fewn y rhanbarth ein bod mewn sefyllfa gyffelyb. Mewn ymateb i'r cynnydd mewn cyfeiriadau Diogelu mae'r Uned wedi datblygu 'Hwb Diogelu', lle mae'r holl gyfeiriadau Diogelu Oedolion yn cael eu derbyn cyn cael eu dyrannu am ymyrraeth briodol. Mae 400 o ymholiadau Diogelu wedi eu gwneud o fewn cyfnod 12 mis gyda 363 ymholiad wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod (91%).

Mae ein mesurau diogelu oedolion yn awgrymu perfformiad cadarn eto yn 2018/19.

o'r holl atgyfeiriadau  
amddiffyn oedolion  
sydd wedi eu  
cwblhau yn ystod  
y flwyddyn,  
llwyddwyd i reoli'r  
perygl 92% o'r amser



Mae sawl her yn wynebu Gwynedd yn y **maes tai** gan gynnwys poblogaeth sydd yn heneiddio a newid mewn budd daliadau, ond mae cyfleon hefyd yn bodoli. Ein bwriad yw sicrhau fod gennym ddealltwriaeth fanwl o natur y galw am dai o fewn ein cymunedau er mwyn blaenoriaethu ein hymdrechion i greu'r budd cymdeithasol mwyaf.

Mae'r Tîm Tai Gwag wedi gweld llwyddiant ysgubol i'w cynllun 'Grantiau i brynwyr tro cyntaf'. Yn ystod 2018/19, mae'r Tîm wedi derbyn 115 o geisiadau am y grant hwn, ac eisoes wedi cymeradwyo gwerth £1.5 miliwn o grant ar 85 o'r ceisiadau hyn. Bydd yn gymorth i gartrefu bron i 200 o unigolion a theuluoedd. Ers cychwyn y cynllun mae'r Tîm wedi gweld cynnydd yn y nifer o geisiadau am flaendal

morgeisi sydd ar gael i helpu prynwyr tro cyntaf i gael mynediad i'r farchnad dai.

Mae oddeutu 1,300 o dai yn wag ar draws y Sir ac mae'r Gwasanaeth Tai wedi gweithio i ddod a'r tai hyn yn ôl i ddefnydd i drigolion Gwynedd. Mae cynnydd positif wedi bod yn erbyn y **mesurydd PSR/004 'Canran o anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1af Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol'**. Erbyn diwedd 2018/19 roedd 61 tŷ wedi dod yn ôl i ddefnydd gyda 141 o bobl Gwynedd wedi cael eu cartrefu.

Mae'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn gweithredu er mwyn atal digartrefedd ond hefyd yn darparu cefnogaeth i deuluoedd neu unigolion sy'n canfod eu hunain yn ddigartref. Rydym wedi gweld cynnydd o 35% yn y nifer sydd yn cyflwyno yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd dros y 5 mlynedd diwethaf. Bu cynnydd sylweddol yn y galw yn ystod 2018/19 a darparwyd gwasanaeth ar gyfer 768 o unigolion. Mae perfformiad yr Uned ymhlith y gorau yng Nghymru ar y meysydd atal digartrefedd ac yn cefnogi y pwyslais sydd wedi ei roi ar atal.

Gydag arian grant gan Lywodraeth Cymru, mae'r Gwasanaeth Digartrefedd wedi cyllido prosiect i gyd-gordio gwasanaeth ar gyfer pobl yn gadael carchar. Mae un swyddog yn y tîm yn cymryd cyfrifoldeb am bobl sydd yn dod yn ôl i Wunedd i fyw ar ôl cyfnod yn y carchar a cheisio adnabod a threfnu llety ar eu cyfer i osgoi digartrefedd wrth adael carchar. Mae'r prosiect wedi datblygu perthynas dda gyda'r carchardai, y Gwasanaeth Prawf a nifer o asiantaethau eraill sydd yn gweithio efo'r unigolion. Rydym wedi cefnogi 120 unigolion gyda 41% yn cael eu lletya. Diffyg eiddo un llofft gyda chefnogaeth ar gyfer pobl sengl fregus



sydd yn gadael carchar yw'r rhwystr mwyaf i'r grŵp yma o unigolion.

Mewn ymateb i'r diffyg eiddo un llofft, mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar y cyd gyda'r asiantaeth trydydd sector, Cais, i adnabod eiddo ar gyfer pobl sengl fregus yn ardal Bangor. Mae cynllun yn cael ei ddatblygu sydd yn darparu llety a chefnogaeth ddwys, gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau unigolion i'w galluogi i fyw yn annibynnol.

Datblygiad arall o fewn y maes digartrefedd yw'r prosiect 'cefnogaeth ddwys i bobl sydd yn cysgu allan'. Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio gyda Tai Gogledd Cymru, a drwy help grant Llywodraeth Cymru mae swyddog cefnogaeth wedi cael ei benodi i geisio annog pobl i gydweithio, helpu i ddatrys eu problemau a'u cefnogi i symud ymlaen i lety sefydlog.

I'r perwyl hyn, mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno cais am arian 'Rhaglen Tai Arloesol' Llywodraeth Cymru ac wedi bod yn llwyddiannus i ddenu arian ar gyfer datblygu unedau hyblyg 'pods'. Bydd yr unedau yma yn cynnig cartref gyda chefnogaeth i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau sydd yn anodd eu lleoli, y bwriad fydd datblygu 4 'pod' ar gyfer 4 unigolyn. Bydd gwaith yn cychwyn yn fuan ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhoi cymorth i bobl sy'n agored i niwed reoli neu gynnal eu tenantiaeth a byw'n annibynnol. Yn ystod 2018/19 mae'r rhaglen yng Ngwynedd wedi cefnogi 2,286 o bobl i gael mynediad a chynnal tenantiaethau parhaol neu dros dro ac atal digartrefedd. Oherwydd newid deddfwriaeth ac amodau'r grant cefnogi pobl, ceir mwy o bwyslais nawr ar dargedu atal digartrefedd drwy ymyriadau cynharach a chreadigol. Rydym wedi datblygu gwasanaeth galw heibio mewn 2 ardal sydd yn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc cyn yr angen am lety neu gefnogaeth fwy

arbenigol. Ers cychwyn y prosiectau yma yn 2016 rydym wedi cefnogi 449 o bobl ifanc.

### **Blaenoriaethau Lleol**

Roedd pryder wedi ei nodi am y nifer uchel o dai aml-ddeiliadaeth (Houses in Multiple Occupation – HMOs) ym Mangor sy'n effeithio'n negyddol ar ymddangosiad y ddinas. Mae pryder hefyd fod y sefyllfa yn arwain at nifer uwch na'r cyffredin o dai gwag, gyda sgil effaith ar leihau'r farchnad dai i drigolion lleol.

Bydd y materion hyn yn derbyn sylw o fewn y Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-2024.

Awgrymwyd fod angen datblygu darpariaeth gofal pwrpasol yn ardal Dolgellau ac ym Mhen Llŷn a thrwy gydweithio ag eraill gallwn fesur yn union pa ddarpariaeth sydd ei hangen, a sut orau i'w chyllido. Bydd hyn yn derbyn sylw fel rhan o'r prosiect Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**



## Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.


Mae ymarfer a pherfformiad cyffredinol yn y Maes Plant yn ei gyfanrwydd yn gadarn. Bu i hyn gael ei gadarnhau mewn Adroddiad Arolygiad Llawn gan Arolygaeth Gofal Cymru a gyhoeddwyd ar 28 Awst 2018. Bu i'r Arolygwyr nodi bod 'gan wasanaethau plant Gwynedd gryfderau sylweddol ac roedd ganddynt weithlu ymrwymedig a chadarn'. Fe wnaethant hefyd adnabod sawl maes i'w ddatblygu ymhellach ac mae'r meysydd yma yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau sydd eisoes wedi eu hadnabod o fewn Cynllun y Cyngor.

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mor lleol ag sydd bosib, mae 3 Tîm Cefnogi Teulu Teuluoedd yn Gyntaf wedi cael eu sefydlu yn ardaloedd Arfon, Meirionnydd a Dwyfor; gyda Barnardos yn arwain ar y Tîm ym Meirionnydd. Mae'r Timau yma yn cynnwys gweithwyr cefnogi teulu sydd yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol i ddatblygu sgiliau rhiantu a chefnogaeth i bobl ifanc yn ogystal â chefnogaeth ymarferol. Mae Gweithiwr leuenctid ynghlwm â phob tîm er mwyn gallu canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl ifanc 11-25. Mae modd i deuluoedd yn ogystal gael mynediad at amrediad eang o wasanaethau therapiwtig a chefnogol er mwyn diwallu eu hanghenion unigol. Rydym hefyd wedi comisiynu 'Y Bont' i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth.

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth wedi ei sefydlu hefyd gyda'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o wybodaeth am weithgareddau a sefydliadau o fewn cymunedau a all arwain at ddiwallu anghenion unigolion. Bydd y gwasanaeth yma yn datblygu fwy i'r dyfodol ac mae bwriad i gael Cysylltwyr Cymunedol fel rhan o'r gwasanaeth.

Mae'r Tîm Derbyn Cyfeiriadau yn rhan o'r gwasanaeth uchod erbyn hyn ac er y newid maent eto eleni wedi cynnal safonau uchel wrth ymateb yn amserol i gyfeiriadau.

Yn yr un modd mae'r Timau Gwaith Cymdeithasol wedi cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth amserol i blant a'u teuluoedd.



Rydym yn ffodus iawn yng Ngwynedd bod ein Timau Gwaith Cymdeithasol yn sefydlog a phrofiadol gyda throsiant staff yn isel iawn. Mae 84% o'n staff yn siaradwyr Cymraeg, sef y ganran uchaf yng Nghymru, gyda'r gweddill yn ddysgwyr brwd.

Fel rhan o waith dydd i ddydd y timau gweithredol o fewn yr adran, mae'r gweithwyr yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth proffesiynol. Yn ogystal â hyn, mae ganddynt yr opsiwn i fynd ar ofyn ymyraethau mwy

arbenigol fel yr hyn sy'n cael ei gynnig gan y Tîm Trothwy Gofal. Daeth y Tîm yn weithredol yn 2015 ac mae wedi bod yn ddatblygiad cyffrous a phwysig wrth i ni drawsnewid profiadau plant a theuluoedd. Pwrpas y Tîm ydi gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd bregus, a phlant ar fin fynd i ofal. Mae'r Tîm Trothwy Gofal yn dangos perfformiad boddhaol gyda'r ymyraethau i weld yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a'u teuluoedd sydd yn derbyn Gwasanaeth.


Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'r Tîm yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd yn ôl adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol. Er i'r nifer o blant mewn gofal gynyddu yn ystod cyfnod gweithredu'r tîm, mae'r nifer o blant mewn lleoliadau maeth neu leoliadau preswyl wedi aros yn sefydlog.

Mae hi'n ofyn statudol arnom i sefydlu gwasanaeth IFSS yn ogystal (Integrated Family Support Service) sydd yn cynnig ymyrraeth ddwys i deuluoedd sydd yn wynebu anawsterau camddefnyddio sylweddau a thrais yn y cartref. Rydym wedi bod yn cynnig y gwasanaeth yma ar y cyd â Chyngor Ynys Môn. Yn dilyn gwerthusiad llawn o'r gwasanaeth, er mwyn gwella canlyniadau i'r teuluoedd ac osgoi dyblygu, rydym yn ystod y flwyddyn wedi ailstrwythuro. Mae'r gwasanaeth bellach yn cael ei ddarparu o fewn ein timau gweithredol a'r Tîm Trothwy Gofal.

Diwedd Mawrth 2019 roedd 247 o blant yn ein gofal. O gymharu'r nifer plant mewn gofal dros gyfnod o 5 mlynedd mae'r cyfanswm wedi cynyddu o 185 i 247, sef cynnydd o bron i 27%. Serch hyn mae'r nifer o blant sydd un ai mewn lleoliadau preswyl neu leoliadau maeth wedi aros yn gyson neu leihau.

Mae cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal yn ymwneud â phlant sydd wedi eu lleoli gartref gyda'u rhieni o dan Orchymyn Gofal i'r Cyngor, sydd wedi codi o 12 i 64 dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

#### Plant sydd wedi eu lleoli gartref gyda'u rhieni o dan Orchymyn Gofal i'r Cyngor



Mae proffil poblogaeth plant mewn gofal wedi newid; mae cyfartaledd cost lleoliadau preswyl wedi cynyddu, ynghyd â chymhlethdod a dwyster achosion. Mae diffyg argaeledd lleoliadau preswyl mwy arbenigol hefyd yn her enfawr i'r Adran. Mae'r diffyg argaeledd o leoliadau preswyl a'r cost cynyddol sydd ynghlwm â nhw yn fater sydd yn derbyn sylw ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Bu'r mater yn destun trafodaeth yn ddiweddar ym Mhwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Ar lefel ranbarthol, o dan arweiniad Penaethiaid Adrannau Plant y Gogledd, mae gwaith yn digwydd ar asesiad dichonolrwydd rhanbarthol i redeg lleoliad preswyl ar y cyd, neu i edrych ar opsiynau gyda darparwyr presennol ar gyfer plant a phobl ifanc Gogledd Cymru.

Mae plant a phobl ifanc yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn ond rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gennym Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd yn monitro cynlluniau gofal pob un plentyn a pherson ifanc sydd yn ein gofal, ac maent yn rhoi sicrwydd i ni fel Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu sicrhau drwy gydol eu hamser mewn gofal.

**Yn ôl ein Swyddogion Adolygu  
Annibynnol mae 94% o  
adolygiadau yn  
uchelgeisiol dros  
y Plant sydd Mewn Gofal.**



Mae gwella profiad plant a theuluoedd sydd yn mynd drwy'r drefn Diogelu yn rhywbeth sydd yn derbyn sylw gan yr Adran, gyda llai o bwyslais yn cael ei rhoi ar yr amserlen sydd yn cael ei osod, ond yn hytrach ar ansawdd y cyswllt mae'r plant a pobl ifanc yn eu cael gyda ein swyddogion. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi cael ei amlygu gan yr arolygaeth yn ddiweddar ac mae ein Swyddogion Adolygu Annibynnol yn edrych ar y ffordd yn maent yn gweithio a sut gallwn wella a datblygu ymarfer.

Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw'n gallu fel Cyngor i leoli plant gyda rhieni maeth. Rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth fel Cyngor ac mae'r Tîm Maethu yn parhau i sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw adref. Serch hyn mae sicrhau capasiti ac argaeledd rhieni maeth yn her. Rydym wedi cynnal sawl ymgyrch recriwtio dros y 5 mlynedd ddiwethaf i ceisio annog mwy o bobl i fod yn rieni maeth. Ar lefel genedlaethol eto mae cydnabyddiaeth bod diffyg lleoliadau maethu. Fe gyhoeddodd y Grwp Cyngori Gweinidogol ar Ganlyniadau i Blant eu Fframwaith Gweithredu 2017 – 2020 sydd yn anelu i leihau'r niferoedd o blant mewn gofal, gwella profiadau a chanlyniadau gofal, cynnig gwell cefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal, a mynd i'r afael â'r argyfwng mewn gofal.

Fel rhan o'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol mae rhaglen waith manwl mewn lle yn ceisio mynd i'r afael â'r mater. Mae rheolwr prosiect rhanbarthol yn arwain y gwaith yn y Gogledd o ddadansoddi anghenion awdurdodau lleol,

dadansoddi llwybrau gofal, dadansoddi proffil y garfan gofal, dadansoddi canlyniadau Llys a lleoliadau a dadansoddi lefelau tor-leoliad. Ar lefel lleol mae gwaith yn bwrw 'mlaen i wella gwaith marchnata i ddenu rhieni maeth, gwella recriwtio a gwella proffil Gwynedd fel asiant maethu. Fel rhieni corfforaethol mae angen i ni fod yn fyw i'r her yma a chefnogi y gwaith yma ble gallwn.

Un o uchafbwyntiau'r Adran yn ystod 2013-18 oedd gweld yr Uned Egwyl Fer Hafan y Sêr yn agor ei drysau am y tro cyntaf i blant a phobl ifanc anabl. Agorwyd yr uned yn Ebrill 2018 ac mae'r gwasanaeth newydd yma yn cynnig darpariaeth egwyl fer fydd yn rhoi gofal a chefnogaeth gan staff arbenigol i blant anabl a'u teuluoedd. Mae'r ddarpariaeth yma yn ateb angen y mae teuluoedd wedi bod yn ei fynegi i'r Tîm Derwen ers tro. Mae'r Uned wedi ei lleoli ar safle Ysgol Hafol Lon ym Mhenrhyndeudraeth.



Yn ogystal, mae gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd sydd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn.

Mae'r rhesymau am unrhyw lithriad yn y perfformiad wedi ei herio ac yn ymwneud yn helaeth a salwch aelodau o staff, argaeledd cydweithwyr o gyrff statudol arall ac argaeledd teuluoedd. Mae'r oedi ar y cyfan yn fychan



(dyddiau) ac mae'r oediadau sydd yn hirach wedi eu asesu yn ofalus a ddim wedi golygu ardrawiad annerbyniol ar y plentyn.

Mae'r Adran wedi bod yn llwyddiannus i ddenu grant rhanbarthol i symud ymlaen gyda chynllun arloesol 'Diogelu Plant Effeithiol'. Mae'r cynllun yn ceisio ymateb i anghenion ymarfer gweithwyr o fewn y maes heriol diogelu plant. Yn fras iawn, mae wedi cael ei ddatblygu er mwyn atal camdriniaeth mor effeithiol â phosib, gan arwain at benderfyniadau amserol ble gall gwasanaethau diogelu gamu yn ôl. Y bwriad fydd cyd-weithio gyda'r brifysgol er mwyn adolygu a gwerthuso'r

cynllun ac os yw'n dangos llwyddiant ei ledaenu ar draws y rhanbarth fel model o ymarfer da.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



## Adran Economi a Chymuned



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.



### Datblygu Economi Gwynedd

Mae economi Gwynedd yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd yn llawer is na rhannau eraill o Gymru ac mae gwerth cynhyrchiant busnesau Gwynedd yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae'n bwysig felly fod Cyngor Gwynedd yn cymryd camau rhagweithiol i greu'r amodau fyddai'n galluogi busnesau i dyfu a sbarduno twf yn yr economi, a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd wrth i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd.


Rydym yn gweithio i dargedu'r sectorau sy'n talu'n dda trwy greu'r amodau sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol. Yn ystod 2018/19 fe grëwyd 57 o swyddi gwerth uchel (cyflog £26,500 neu fwy), sef yr uchaf yn y 4 mlynedd ddiwethaf, a 29 o swyddi wedi eu diogelu yn uniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgaredd. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid drwy arwain ar brosiect STEM Gogledd (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg) gan sicrhau £1.9m i gyd-gordio darpariaeth all-gwricwlaidd STEM i ddisgyblion er mwyn sicrhau gweithlu lleol i fanteisio ar ddatblygiadau fydd yn arwain at swyddi gwerth uchel.

### Swyddi gwerth uchel wedi eu creu



Yn ystod 2018/19 mae £14.1 miliwn o arian grant neu cydariannu wedi ei ddenu i'r Sir, yr uchaf yn y pum mlynedd diwethaf.

### Arian grant neu cydariannu wedi ddenu i'r Sir



Mae lefelau incwm rhent wedi cynyddu wrth weld gofod diwydiannol / menter y Cyngor 96% yn llawn. Mae'r galw am unedau gwag yn parhau ar draws y Sir, ac mae diffyg gofod ar gyfer busnesau sydd eisiau ehangu neu symud i'r ardal.

Yn ystod 2018/19 derbyniodd 213 o fusnesau gymorth, mae hyn yn ostyngiad ar y blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i osod diffiniad mwy caeth o'r mesurydd.



Mae'r adran wedi gweithredu ar 202 o ymholiadau busnes yn ystod y flwyddyn, ac mae'r nifer wedi gostwng wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd diffyg cynlluniau cymorth ariannol.

Fel rhan o'r gwaith i adfywio canol tref Caernarfon er mwyn gwella ansawdd a phrofiad ymwelwyr i'r ardal a gwella gwedd a golwg y dref, cwblhawyd dau gynllun adfywio strategol sef adeilad Rheilffordd Eryri a Chynllun Galeri2.

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o dros £1biliwn, mae dros 15,000 o bobl yn gweithio yn y maes. Yn ystod y flwyddyn mae gwefan newydd Eryri Mynyddoedd a Môr wedi ei chwblhau, gyda dros 1 miliwn o bobl yn ymweld â'r wefan, sy'n gynydd o 29,000 o gymharu â llynedd. Llwyddwyd i ddenu nawdd gan Croeso Cymru i ariannu gweithgareddau i hyrwyddo Ffordd yr Arfordir y tu allan i'r prif dymor ymwelwyr ar y cyd efo Ceredigion a Penfro.

Mae'r Adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, 4 harbwr a 2 hafan. Mae sylw wedi ei roi yn ystod y flwyddyn i adolygu trefniadau rheoli'r hafan a harbwr i'r dyfodol a rhaglennu gwaith carthu manwl yn Harbwr Pwllheli.




## Cefnogi Cymunedau Cryf ac Iach

Mae Swyddogion Adfywio Bro yn parhau i gynnig cefnogaeth i grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol er mwyn ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol. Cefnogwyd 65 o brosiectau i ddatblygu gwasanaeth newydd neu ddiogelu mynediad at wasanaeth yn 2018/19. Cafodd dros £500,000 o gyllid cyfatebol ei fuddsoddi mewn prosiectau Cist Gwynedd.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi parhau i sicrhau mynediad trigolion Gwynedd at gefnogaeth, adnoddau a gwybodaeth, gyda dros 300,000 o bobl yn ymweld â Llyfrgelloedd Gwynedd yn ystod y flwyddyn, a 96% o'r defnyddwyr yn adrodd eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbynnir. Cyflwynwyd system hunanwasanaeth newydd yn y llyfrgelloedd yn 2018/19 a bu 2,422 o blant Gwynedd yn rhan o'r Sialens Ddarllen Haf, gyda chyfanswm o 46,851 o lyfrau plant wedi eu darllen dros y cyfnod.

### Pobl yn ymweld a Llyfrgelloedd Gwynedd



Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal orielau, amgueddfeydd ac archifau yng Ngwynedd, gyda bron i 60,000 o ymwelwyr i'r orielau ac amgueddfeydd yn ystod 2018/19. Cafodd Neuadd Buddug ei chau yn ystod mis Rhagfyr 2018, gan drosglwyddo i Theatr Derek Williams, sef y ganolfan newydd yn Ysgol Godre'r Berwyn. Lanswyd ymgyrch genedlaethol Archwiliwch Eich Archif yn Archifdy Caernarfon, ac roedd nifer yn nodi eu

bod wedi cael profiad da wrth ymweld â'r archifau, gyda 94% yn fodlon â'r gwasanaeth.

Gwelwyd newid i'n Gwasanaeth Ieuenctid yn ystod 2018/19 drwy ail-fodelu, a bellach mae'r strwythur newydd mewn lle. Mae'r gwasanaeth ar ei newydd wedd yn cynnig amryw o weithgareddau gan gynnwys gwaith ymgysylltu, gwirfoddoli mewn cymunedau, a sgiliau coginio a chwaraeon.

Mae'r Adran yn gyfrifol am rwydwaith o 12 o Ganolfannau Byw'n Iach, gyda 89% o gwsmeriaid yn fodlon gyda'r gwasanaeth yn 2018/19. Mae gwaith dwys wedi wneud yn ystod y flwyddyn er mwyn sefydlu cwmni Byw'n Iach Cyf ac ar 1af o Ebrill 2019 trosglwyddwyd rheolaeth o'r canolfannau i'r cwmni newydd trwy gytundeb.

Mae'r Adran yn trefnu a chynnal amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon o fewn ysgolion, y gymuned ac yn yr awyr agored gan gynnwys sesiynau Teulu Actif, Triathalon, Sboncen a Badminton. Mae cynllun Arweinwyr y Dyfodol wedi profi'n lwyddiant eleni, gyda nifer yn ennill gwobrau gwirfoddoli yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Tîm Cyfeirio i Ymarfer yn cefnogi trigolion Gwynedd i wella cyflwr eu hiechyd, gyda 65% yn adrodd fod ansawdd eu bywyd wedi gwella yn dilyn y gefnogaeth, ac 80% wedi gweld cynnydd yn lefel eu ffitrwydd.

### **Blaenoriaethau Lleol – Cynllun y Cyngor**

Un o'r blaenoriaethau lleol a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor ydi'r dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflog da i ardaloedd Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn, ac mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel yn datblygu cyfleoedd newydd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr fydd yn dod ag elw i'r cymunedau hyn.

Mae gwella cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn ardal Dolgellau yn un arall o'n

blaenoriaethau lleol, ac rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r Sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol.

Lansiwyd pecynnau cymorth ariannol newydd yn ystod y flwyddyn ar gyfer busnesau lleol, sef Cronfa Benthyciadau Di-log Penygroes a Bethesda, a'r Gronfa Adnewyddu a Buddsoddiad Eiddo Canol Dinas Bangor sydd yn ymateb i'r blaenoriaethau lleol i adfywio ardaloedd Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle a Bangor. Yn ystod y flwyddyn, mae 4 eiddo gwag wedi dod nol i ddefnydd yn dilyn derbyn cymorth.

Yn sgil pryderon ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol yn Ffestiniog mae'r tîm adfywio wedi cynnal arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol, sy'n adnabod cyfle i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



# Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol



## Glanhau Strydoedd

Mae cynnal amgylchedd lleol o safon uchel ac edrychiad ein strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd, ac o ran yr amgylchedd lleol mae'n hynod bwysig bod ein strydoedd yn lân a diogel. Mae perfformiad y Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd yn 2018/19 yn 74.1% gan ddangos gwelliant ar berfformiad diwedd blwyddyn 2017/18 (71.95%).



Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnal arolwg i sefydlu faint o 'ddiffygion' fel sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigarêts sydd ar unrhyw

stryd. Yn ôl yr arolwg annibynnol, mae safon glendid ac edrychiad strydoedd Gwynedd yn parhau i fod yn dda ac mae'n debyg bod newid ymddygiad er gwell yn ddiweddar i atal llanast.

## Ffyrdd


Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y sir ac er mwyn sicrhau hyn mae'r Cyngor yn cynnal 2,697 cilomedr o ffyrdd sirol ynghyd â 199 cilomedr o Gefnffyrdd (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru). Ar hyn o bryd mae ein priffyrdd yng Ngwynedd, sef ffyrdd Dosbarth A a B, mewn cyflwr da gyda llai na 4% ohonynt yn ddiffygiol ac angen sylw. Gyda lleihad yn yr arian sydd ar gael i Lywodraeth Leol, mae ein gallu i gynnal y ffyrdd dosbarth C a dddosbarth i'r un safon yn anoddach.

Oherwydd y pwysau ariannol ar y Cyngor mae'n anorffod y bydd pwysau pellach ar y gyllideb cynnal ffyrdd, a bydd hi'n her i atal dirywiad yn safon ein ffyrdd, yn enwedig ffyrdd

o lai o flaenoriaeth sef Dosbarth C a D-ddosbarth.

Tra bod y cyflwr yn sefydlog gyda 14.5% yn ddiffygiol ac angen sylw, bydd y gostyngiad cyllid yr ydym yn ei wynebu yn ei gwneud yn anoddach cadw at y perfformiad presennol.

Canran priffyrdd sydd mewn cyflwr gwael



## Gwastraff

Mae'n hanfodol ymdrin â gwastraff mewn modd gywir os am amddiffyn ein hamgylchedd ac osgoi creu problemau i genedlaethau'r dyfodol.



Erbyn diwedd 2018/19 roedd 63.3% o wastraff cartrefi Gwynedd yn cael ei ailgylchu, ailddefnyddio neu ei gompostio, sy'n gynnydd o 8% ers 2014/15.


Drwy ymroddiad trigolion a busnesau'r sir i leihau ein gorddibyniaeth ar waredu gwastraff i'w dirlenwi, mae'r newid hwn wedi bod yn allweddol i wella ein perfformiad.

Mae busnesau'r sir hefyd wedi cyfrannu at welliant ac erbyn diwedd 2018/19 roedd 48% o wastraff masnachol yn cael ei gompostio neu ailgylchu, sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â 35.45% yn 2014/15.



Mae hefyd yn bwysig i bobl Gwynedd bod eu gwastraff yn cael ei gasglu pan rydym yn dweud yr ydym am ei gasglu. Yn ystod 2018/19, gwnaethom gyfanswm o 4,556,708 o gasgliadau gwastraff, gyda 12,314 o gwynion wedi eu derbyn nad oeddem wedi casglu (neu 0.27%). Roedd rhai o'r methiannau yma oherwydd y tywydd garw ac eraill oherwydd diffygion ar ein rhan ni. Er mwyn gwella'r gwasanaeth rydym wedi bod yn adolygu ein arferion gwaith er mwyn gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei roi i bobl Gwynedd. Bydd y newidiadau yma yn dod i rym yn raddol yn 2019/20.

Mae canran y gwastraff trefol a anfonir i dirlenwi yn is ar gyfer 2018/19, sef 18% o'i gymharu â 43.33% ar gyfer blwyddyn 2014/15. Gellir priodoli'r gwelliant hwn i'r ailgylchu a'r ffaith fod mwy o wastraff gweddilliol wedi ei drin drwy drefn llosgi ac o ganlyniad ddim wedi'i anfon i dirlenwi.



## Goleuadau Stryd



Rydym yn parhau i drwsio goleuadau stryd yn brydlon, ac ar gyfartaledd mae'n cymryd dau ddiwrnod a hanner i'w trwsio – ffigwr sydd wedi bod yn eithaf cyson dros y 5 mlynedd diwethaf.

Fel rhan o raglen “buddsoddi i arbed” y Cyngor mae gennym raglen sylweddol i newid goleuadau stryd i dechnoleg LED sydd wedi bod yn weithredol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod 2018/19 newidiwyd 1,680 o unedau golau stryd ac arwyddion i LED ac ers 2015/16, rydym wedi newid dros 10,000 o oleuadau ac arwyddion stryd i dechnoleg LED. Yn sgil y newidiadau yma rhagwelir y byddwn yn arbed £260,000 y flwyddyn yn ogystal â gostyngiad mewn allyriadau carbon (414 Co2). Bydd rhaglen newydd 3 blynedd i newid gweddill y goleuadau i LED yn cychwyn yn Ebrill 2019 a byddwn yn arbed £185,000 yn ogystal â gostyngiad mewn allyriadau carbon (572 Co2).

## Toiledau Cyhoeddus

Mae cyfanswm o 62 o doiledau cyhoeddus yn y sir, ynghyd â 35 o doiledau cymunedol sydd ar gael mewn lleoliadau fel caffis, tafarndai ayb ynghyd ag 17 o doiledau cyhoeddus sy'n eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Fel siroedd ledled Cymru, mae Gwynedd wedi wynebu cyfnod o dorri sylweddol ar gyllidebau sydd wedi golygu'r angen i adnabod arbedion yng ngwariant ar doiledau cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf. Ond drwy gydweithio gyda chynghorau cymuned a thref a grwpiau cymunedol, rydym wedi gallu cynnal nifer uchel o doiledau at ddefnydd y cyhoedd yma yng Ngwynedd. Fis Mai 2019 fe wnaethom fel Cyngor fabwysiadu Strategaeth Toiledau Cyhoeddus, ac mae hi'n ofyn statudol ar bob awdurdod i wneud hynny.

## Blaenoriaethau Lleol

Mewn ymateb i gwynion am flerwch a sbwriel yn cael ei ollwng neu ei golli o gerbydau casglu sbwriel ac ailgylchu oherwydd gwaith ein gweithlu, mae nifer o gamau wedi eu rhoi yn eu lle dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn gwella'r sefyllfa yma. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cerbydau 'Romaquip' yn lle cerbydau 'Kerbside', sy'n golygu nad oes tipio uwchben uchder y cerbydau ac felly'n fwy diogel i'r gweithlu. Mae defnydd o'r cerbydau newydd hefyd yn golygu lleihad yn y nifer o ddeunyddiau sy'n cael eu gollwng o'r cerbydau ac o ganlyniad nad oes deunyddiau yn cael eu cadw yn rhydd wrth symud o eiddo i eiddo sy'n arwain at well trefn wrth wasanaethu'r cartgylchu. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ymateb i bryderon ein trigolion ac yn sicrhau gwelliant yn y sefyllfa drwy ganolbwyntio ar y cerbydau llai.

Yn ystod 2018/19, rydym wedi parhau i gydweithio ar brosiect Delwedd Bangor sydd yn bartneriaeth sydd wedi ei sefydlu gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Dinas, BID Bangor, Prifysgol Bangor a sawl mudiad arall, ac mae'r gwaith yma yn symud yn ei flaen yn dda. Prif ffocws y grŵp yw gwella delwedd y Ddinas. Byddwn yn dysgu o'r gwaith yma ym Mangor ac yna byddwn yn cyflwyno'r gwersi i ardaloedd eraill. Rydym hefyd yn cydweithio â grŵp yn Nyffryn Nantlle er mwyn gwella edrychiad yr ardal. Byddwn yn dysgu o'n profiadau o weithio gyda'r prosiect ym Mangor wrth fwrw ymlaen gyda'r gwaith yma.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



# Adran Amgylchedd




Prif feysydd Cyfrifoldeb yr Adran Amgylchedd yw Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad a'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol

## Cynllunio

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol), gyda 90% o gwsmeriaid y gwasanaeth yn datgan eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth.

Canran o Gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r lefel gwasanaeth Cynllunio




O'r rhai sy'n anfodlon mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn nodi anfodlonrwydd gyda'r trefniadau cysylltu gyda'r gwasanaeth, gydag anhawster cyfathrebu yn cael ei nodi yn y sylwadau a dderbyniwyd gan gwsmeriaid hapus yn ogystal â'r rhai anhapus. Bydd y gwasanaeth yn gweithio i wella'r sefyllfa yn 2019/20.

Ar gyfartaledd yn 2018/19 roedd ceisiadau cynllunio yn cymryd 57 diwrnod i'w penderfynu gan swyddog, gyda cheisiadau oedd yn derbyn penderfyniad Pwyllgor yn cymryd 137 diwrnod ar gyfartaledd. Mae'r perfformiad yn adlewyrchu'r ffaith fod y ceisiadau sydd yn mynd gerbron Pwyllgor yn tueddu i fod yn geisiadau cymhleth neu gynhennus, ac nid yw'n anarferol i benderfyniadau gael eu gohirio er mwyn rhoi cyfle i dderbyn mwy o wybodaeth neu gynnal trafodaethau.

Mae tai fforddiadwy yn fater sydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor, gyda 48% o'r tai a ganiatawyd trwy'r drefn gynllunio yn 2018/19 yn dai fforddiadwy, naill ai trwy gytundeb 106 neu oherwydd eu bod yn dai a adeiladwyd gan landlord cymdeithasol cofrestredig. Mae'r ffigur yma'n gynydd o'r 38% a gofnodwyd yn 2017/18, ac mae'n parhau i fod yn uwch na'r targed uchaf yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sef bod datblygiadau yn cynnwys 30% o dai fforddiadwy. Golyga hyn fod y Gwasanaeth Cynllunio yn cyfrannu yn uniongyrchol tuag at y ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Ngwynedd mewn ffordd arwyddocaol.

Canran Tai Fforddiadwy



Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd yn ymdrin â gorfodaeth cynllunio, gan gymryd camau gorfodaeth ar ddatblygiadau sydd heb gael caniatâd cynllunio. Bu iddynt ymdrin ag oddeutu 218 o achosion yn 2018-19. Ar gyfer 2018-19 roedd 61% o'r achosion wedi eu harchwilio, gan gymryd 37 diwrnod ar gyfartaledd i wneud hynny. Yn ystod y flwyddyn cofnodwyd 40 achos oedd angen camau cywiro, gyda 35% wedi cwblhau camau cywiro a'r 65% arall ar y gweill. Dylid nodi nid y unig fod y broses o gymryd camau gorfodaeth yn un hir oherwydd natur gofynion ymchwilio, gofynion statudol a phrosesau cyfreithiol, ond bod datrysiad bodhaol i'r achos yn aml yn bwysicach i'r cwsmer na'r amser a gymerwyd i gyflawni hynny.




## Hylendid Bwyd



Mae 99.49% o sefydliadau bwyd Gwynedd yn cydymffurfio'n fras gyda safonau hylendid bwyd, sef 2,071 allan o 2,088 sefydliad.

% Sefydliadau Bwyd yn Cydymffurfio'n Fras



Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi ei chael hi'n anodd iawn dygymod gyda'r nifer o archwiliadau sy'n ofynnol, a bu'n rhaid darganfod adnoddau ychwanegol i glirio'r ôl-groniad archwiliadau sydd wedi datblygu. Ar gyfer 2018/19 mae yna ôl-groniad o 77 archwiliad hylendid bwyd, ynghyd ag ôl-groniad o 203 archwiliad Safonau Bwyd. Yn y sefydliadau bwyd categorïau risg is y mae'r ôl-gronad yma, ond yng Ngorffennaf 2018 penderfynodd y Cabinet i ddyrannu mwy o adnoddau i'r gwasanaeth er mwyn iddynt benodi dau swyddog ychwanegol i fedru ymdopi â'r gwaith. Fodd bynnag, mae'n cymryd amser i ddod yn gymwys yn llawn i gynnal archwiliadau hylendid bwyd, ac felly ni fyddwn yn gweld effaith lawn yr adnoddau ychwanegol am beth amser.

Fel arall fe welir perfformiad calonogol ym maes Gwarchod y Cyhoedd gyda'r holl archwiliadau llygredd awyr a sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu harchwilio yn unol â'r rhaglen. Llwyddwyd i ddatrys 698 o droseddau drwy ymyrraeth gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ystod y flwyddyn gyda 49 arall yn aros i'w datrys.

## Traffig a Gwaith Stryd

Yr hyn sy'n bwysig i'r sawl sy'n gofyn am orchmynion traffig yw gweld y gorchymyn yn dod i rym, ac mae'r arfer yr oedd gennym o hysbysebu nifer o geisiadau mewn un pecyn wedi dod i ben gan y byddai'n aml yn bosib i un gorchymyn cynhennus ddal nifer o orchmynion eraill yn ôl. Mae'r newid yma mewn canfyddiad o'r broses wedi arwain at gwtogi'r amser cyfartalog a gymerir i osod Gorchymyn Traffig yn ei le o 519 diwrnod i 297.



## Cludiant Cyhoeddus

Mae'r sector trafndiaeth gyhoeddus yng Ngwynedd wedi wynebu cyfnod cythryblus dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r gwasanaeth wedi gorfod ymateb yn gyflym i newidiadau mawr o ran y darparwyr oedd ar gael yn y maes. Erbyn hyn mae'r Gwasanaeth Trafndiaeth a Chefn Gwlad wedi dechrau ar y gwaith o gynnal arolwg cynhwysfawr o'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Bydd y Gwasanaeth yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor er mwyn cynllunio rhwydwaith fydd wedi ei seilio ar werth cymdeithasol, yn hytrach na chost a nifer teithwyr. Bydd hefyd yn ystyried dulliau arloesol o gynig rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Disgwylir i'r adolygiad fod wedi ei gwblhau erbyn Medi 2019, gan ddod yn weithredol yn Ebrill 2020.



Yn y cyfamser mae'r gwasanaeth yn parhau i ymdrin â chwynion a dderbynnir gan y cyhoedd, a chydweithio gyda'r diwydiant i gynnal gwasanaethau sydd yn ateb anghenion Pobl Gwynedd. Mae'r Gwasanaeth yn monitro prydlondeb gwasanaethau bysus, gyda 83% o wasanaethau yn cyrraedd yn brydlon yn 2018/19. O'r gwasanaethau nad oedd yn brydlon, roedd y rhan helaeth wedi cyrraedd o fewn 5 munud i'r amser ar yr amserlen.

## Eiddo


Mae Teleofal, neu dechnoleg gynorthwyol yn gymorth i leihau risgiau o fewn y cartref gan alluogi unigolion bregus i fyw bywyd annibynnol. Yn Ionawr 2018 bu i Wasanaeth Eiddo'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb am wasanaeth mewnosod cyfarpar teleofal yng Ngwynedd. Bu i'r amser yr oedd yn ei gymryd i fewnosod offer Teleofal ddisgyn o oddeutu 53 diwrnod i 5 diwrnod yn dilyn ei drawsnewid o dan ofal y Gwasanaeth Eiddo. Wrth ddod yn fwy cyfarwydd gyda'r gwaith, mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i wella'n raddol, gan gymryd 4.5 diwrnod ar gyfartaledd erbyn diwedd 2018/19.

## Allyriadau carbon

Er mwyn ymateb i'r heriau sy'n codi o newid yn yr hinsawdd, a sicrhau fod cymunedau Gwynedd yn cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol bu i'r Cyngor fabwysiadu cynllun rheoli carbon fis Mai 2010. Mae'r cynllun wedi bod yn fuddsoddiad sylweddol o £3,750,170 er mwyn gostwng allyriadau carbon gweithgareddau'r Cyngor, yn ogystal â chyfrannu tua'r amcan ehangach o Wynedd garbon isel.

Mae natur cynlluniau o'r fath yn annatod yn cael eu mesur dros gyfnod hir, gyda gwahaniaethau bychan rhwng cyfnodau monitro yn cael effaith gronnsus dros dymor ehangach. Ers sefydlu'r waelodlin yn 2005/06 mae allyriadau carbon y Cyngor wedi gostwng 43%, gyda gostyngiad o 4.1% pellach yn 2018/19, ac wedi arwain at arbedion ariannol cronnsus o £4,062,958 ers cychwyn gwireddu'r cynllun.

Canran gostyngiad mewn allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor



Yn ystod 2018/19 daeth pwysigrwydd llwyddiannau'r cynllun rheoli carbon i'r amlwg wrth i'r Cyngor (7/3/19), Llywodraeth Cymru (29/4/19) a Senedd Prydain (1/5/19) ddatgan argyfwng hinsawdd. Golyga'r datganiad fod y Cyngor yn bwriadu cymryd camau pellach ac arloesi wrth ymdrechu am ddyfodol di-garbon.

## Blaenoriaethau Lleol

Nodwyd fod pryder yn ardal Caernarfon a Dyffryn Ogwen am y diffyg llefydd parcio i bobl leol. Roedd gan drigolion ardal Penllyn bryder am y diffyg llefydd parcio i weithwyr ar stad ddiwydiannol Y Bala, sydd bellach wedi ei ddatrys. Ni fu i'r adran lwyddo i ymateb i'r pryderon hyn yn ardaloedd Caernarfon a Dyffryn Ogwen yn 2018, a byddwn yn ymchwilio ac yn edrych ar opsiynau er mwyn cyfarch y broblem.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:


- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

## Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)

Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu'n fasnachol yn y maes peirianyddol ac adeiladu er mwyn sicrhau swyddi o ansawdd uchel o fewn y sir a cheisio creu elw i helpu gyda sefyllfa ariannol y Cyngor.

Ar gyfer 2018/19 llwyddwyd i greu elw oedd £58,744 yn uwch na'r targed a osodwyd ar ein cyfer.

### Elw yn erbyn Targed



Mae'r Uned Rheolaeth Adeiladu yn cydweithio gyda'r cyhoedd a phartneriaid er mwyn i'n cymunedau gael adeiladau diogel sydd yn cyd-fynd â'r gofynion technegol diweddaraf. Mae'r Uned yma'n gyfrifol am sicrhau bod gwaith adeiladu yn cwrdd â'r safonau adeiladu. Mae hyn yn bwysig a gwerthfawr i bobl Gwynedd, gan y bydd yn sicrhau bod unrhyw waith adeiladu yn ddiogel ac o'r safon angenrheidiol.

Mae'r Uned Rheolaeth Adeiladu hefyd yn parhau i roi gwasanaeth da i drigolion gyda'r sgôr bodlonrwydd yn parhau'n uchel ac yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn arolwg boddhad cwsmeriaid yn 2018/19, rhoddwyd sgôr cyfartalog o 9.6 allan o 10. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu'r rheswm am unrhyw anfodlonrwydd.


### Bodlonrwydd Cwsmer (sgôr allan o 10)

2014-15 2015-16 2016-17 2017-18 2018-19



Un o ddyletswyddau'r Uned Rheolaeth Adeiladu yw prosesu ceisiadau Cynlluniau Llawn. Mae'r Uned yn anelu i archwilio'r cynlluniau o fewn 15 diwrnod, gyda'r gwaith penderfyniad ar y cais yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosib. Yn ystod 2018/19, cymerwyd 16 diwrnod ar gyfartaledd i wirio ceisiadau cynllunio llawn (penderfyniad cyntaf), sef yr un nifer o ddyddiau ag yn 2017/18. Fodd bynnag, mae hyn un diwrnod yn fwy na'r targed o 15 diwrnod.

### Nifer cyfartalog o ddiwrnodau a gymerwyd i wirio cais cynllunio llawn (penderfyniad cyntaf)



Yn yr un modd ag ardaloedd arfordirol eraill yng Nghymru, mae rhai ardaloedd arfordirol yng Ngwynedd ble mae mwy o berygl o lifogydd. Rydym yn cydweithio gyda'n partneriaid yn lleol a rhanbarthol i geisio adnabod a lleihau'r risg llifogydd i gymunedau Gwynedd.

Yn ystod 2018/19, mae'r Uned wedi denu grant er mwyn cynnal astudiaethau i weld sut y gellir gostwng y risg llifogydd yn ardaloedd Aberdyfi, Abermaw, Y Felinheli, Bae Hiracl Bangor, Tremadog a Rhostryfan. Yn ogystal, fe wnaed gwelliannau yn ystod y flwyddyn yn Llanberis, Borth y gest, Abererch, Tal y Bont a Phwllheli. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 176 eiddo preswyl wedi elwa yn uniongyrchol o ran risg llifogydd yn sgil gwelliannau a gwblhawyd oherwydd grantiau.



Nid oes modd i'r Cyngor ymladd natur ym mhob achos wrth gwrs ac rydym yn parhau i geisio cynorthwyo trigolion Friog i gynllunio ar gyfer y dyfodol lle bydd yn anorfod y bydd grymoedd natur yn ein gorchfygu.

Rydym yn parhau i gydweithio gyda'r sector gyhoeddus, a chyrrff eraill drwy godi ymwybyddiaeth am beryglon llifogydd ar erydu arfordirol.

Yn ystod 2018/19 rydym wedi cwblhau'r gwaith o arolygu cyflwr ein hasedau a sicrhau ein bod yn cadw'r asesiadau yma yn gyfredol. Dengys yr arolwg cyntaf yma, fod gennym 3 ased allan o 183 sydd angen sylw ar fyrder gyda 21 pellach fydd angen sylw cyn bo hir. Bydd yr asedau yma yn derbyn sylw yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



## Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth



Mae'r Adran Cyllid yn sicrhau'r gefnogaeth briodol i'r Cyngor wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, yn ogystal â darparu gwasanaethau megis casglu referniw a thalu budd-daliadau mewn ffordd deg. Mae gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor hefyd yn rhan o'r Adran Cyllid ac maent yn cynnig arweiniad a chefnogaeth dechnegol o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor.

### Rheolaeth Ariannol ac Arbedion

Ers 2015 mae cyllideb y Cyngor wedi lleihau, gyda chyfanswm o £25miliwn o arbedion wedi eu cyflawni dros y 4 mlynedd ddiwethaf. Golyga hynny fod gwaith rheolaeth ariannol a chefnogaeth gyfrifol yr Adran Cyllid yn gaffaeliaid i adrannau'r Cyngor wrth gyflawni i bobl Gwynedd mewn cyfnod ariannol anodd. Trwy reolaeth ariannol gydwysbodol, mae'r Adran wedi llwyddo i gynorthwyo'r Cyngor i gadw o fewn ei gyllideb pob blwyddyn rhwng 2015/16 a 2018/19.

Yn yr hinsawdd ariannol lle mae gofyn i'r Cyngor leihau ei gyllidebau bob blwyddyn oherwydd y cyfyngiadau parhaus ar wariant cyhoeddus, yn ogystal ag amcangyfrifon ariannol dibynadwy a chyfrifon cywir a theg, yr Adran Gyllid sy'n gyfrifol am drefniadau cadarn y Cyngor ar gyfer sicrhau fod yr holl adrannau yn gwireddu'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos fod 96% o'r cynlluniau wedi'u rhaglennu i'w cyflawni erbyn diwedd 2018/19 wedi eu gwireddu, sef gwerth £23 miliwn o arbedion. O ran cynlluniau 2018/19 mae 73% o'r £2.5 miliwn o arbedion a gynlluniwyd wedi eu gwireddu yn y flwyddyn gyda'r disgwyl i 1 cynllun gael ei gyflawni'n amserol a 7 cynllun yn llithro.

Mae gweddill unedau cefnogol yr Adran Cyllid yn perfformio'n dda gyda'r mesurau a ddefnyddir yn dangos fod perfformiad yn cael ei gynnal neu'n gwella. Mae bodlonrwydd adrannau eraill gyda gwasanaethau'r Adran yn parhau'n uchel, gan roi sicrwydd bod cefnogaeth o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu.

Bodlonrwydd Adrannau a Gwasanaethau'r Cyngor gyda gwasanaeth a chefnogaeth Cyllid (sgor 0-5)

Cyllid a Chyfrifeg  
4.75

Archwilio Mewnol  
4.93

Technoleg Gwybodaeth  
4.38

Sgor Cyfansawdd  
4.5

### Archwilio Mewnol

Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Yn ystod 2018/19 bu i'r gwasanaeth gynnal 58 archwiliad, gyda'r mwyafrif naill ai wedi derbyn dyfarniad lefel sicrwydd 'uchel' neu 'digonol', ond 6 archwiliad wedi derbyn barn 'cyfyngedig'.

Yn ogystal â'r gwaith Archwilio Mewnol mae'r gwasanaeth wedi cynnig gwasanaeth archwilio mewnol i 67 o gynghorau tref a chymuned Gwynedd a Môn. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan y cynghorau fu'n cydweithio gyda'r Gwasanaeth, sydd yn ei dro wedi arwain at wahoddiadau i gyflawni'r un rôl eto.



Defnyddiodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad Archwilio Mewnol Gwynedd ar Gyngor Tref Caerdybi fel enghraifft o arfer da, a hefyd cyfeiriodd CIPFA at arloesedd Archwilio Mewnol Gwynedd mewn dogfen arweiniol, sydd yn arwydd arall o safon uchel y gwasanaeth a ddarparwyd.

## Pensiynau


Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 o gyflogwyr, gan gynnwys cynghorau Gwynedd, Môn a Chonwy. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar weithredu'n gywir a phrydlon ar ran ei aelodau. Yn ystod 2018/19 bu i berfformiad y gwasanaeth arafu ychydig, gan gymryd 4.64 diwrnod gwaith i anfon llythyr sy'n hysbysu amcangyfrif o werth buddion ymddeol, ond roedd perfformiad cyffredinol y gwasanaeth ar y cyfan yn sefydlog wrth ddygymod gyda chryn drosiant staff. Mae'r perfformiad serch hynny yn welliant sylweddol o'r 9.5 diwrnod a gofnodwyd ar gyfer 2015/16. Mae gwaith gwella systemau a chyfathrebu gyda sefydliadau eraill sy'n rhan o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn dwyn ffrwyth er mwyn awtomeiddio casglu'r wybodaeth angenrheidiol yn gynt a chadw gwybodaeth aelodau'r cynllun yn gyfredol.



## Trethi

Ar 1 Ebrill 2018 daeth y 'Premiwm' o 50% i rym ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Canlyniad hyn oedd pwysau gwaith ychwanegol ar y gwasanaeth wrth ddeilio gydag ymholiadau, a gwelwyd ostyngiad bychan yn y

gyfradd casglu Treth Cyngor o fewn y flwyddyn (96.65% yn 2018/19 o'i gymharu â 97.13% yn 2017/18). Er i ni weld gostyngiad yn y gyfradd casglu o fewn y flwyddyn, mae'r rhan helaeth o'r arian hwnnw sy'n ddyledus yn parhau i gael ei gasglu yn y pen draw.




## Budd-daliadau

Roedd 2018/19 yn flwyddyn drawsnewidiol gyda chychwyniad Credyd Cynhwysol y 'DWP' yng Ngwynedd yn Rhagfyr 2018. Bydd mwy o effaith Credyd Cynhwysol ar waith prosesu Budd-dal Tai a Gostyngiadau Treth Cyngor yn 2019/20. Yn 2018/19, roedd y cyfartaledd amser i brosesu cais budd-dal newydd yn 19.62 diwrnod, a 5.51 diwrnod i brosesu newid mewn amgylchiadau, o'i gymharu â 18.51 a 5.65 diwrnod yn 2017/18. Rydym yn parhau i gymharu'n ffafriol gyda ffigyrau prosesu cenedlaethol diweddaraf o 20 ac 8 diwrnod a gyhoeddwyd gan y 'DWP'.

## Incwm

Mae'r Gwasanaeth Incwm yn prosesu derbyniadau arian a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon. Roedd y gwasanaeth wedi llwyddo i gasglu 94.64% o'r anfonebau a godwyd gan y Cyngor yn 2018/19, ac mae perfformiad y gwasanaeth wedi gwella'n raddol yn ystod 2018/19, gyda chyfradd casglu prydlon o 88.86% o ddyledion amrywiol erbyn diwedd y flwyddyn, o'i gymharu â chyfradd 86.47% ar ddechrau'r flwyddyn. Serch hynny, mae'r Gwasanaeth Incwm yn gweithredu'n sensitif i amgylchiadau dyledwyr trwy gytuno trefniant talu gyda rhai dyledwyr.

Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter - Gwerth (%)



## Technoleg Gwybodaeth

Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) yn darparu a chefnogi technoleg o bob math i helpu pobl Gwynedd gael mynediad rhwydd at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor, ac i staff weithio'n effeithlon.

Mabwysiadwyd Strategaeth TG bresennol y Cyngor yn 2016 ac mae gweithredu'r strategaeth wedi galluogi'r gwasanaeth i ddatblygu ac arloesi wrth ddarparu cefnogaeth i'r Cyngor. Mae'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd ar waith a bydd yn barod erbyn hydref 2019/20.


Newid amlwg sydd wedi deillio o'r Strategaeth yw datblygu gwasanaethau ar-lein, a hunanwasanaeth yn arbennig, er mwyn cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor. Roedd ambell wasanaeth yn bodoli'n barod ar wefan y Cyngor, ond yn Nhachwedd 2017 fe ail-lansiwyd y ddarpariaeth gan gyflwyno mwy o wasanaethau a chryfhau'r ddarpariaeth i dracio statws y ceisiadau am wasanaeth. Daeth datblygiad pellach yng Ngorffennaf 2018 gydag "ap Gwynedd" yn cael ei lansio ar gyfer dyfeisiadau Apple ac Android ac yn mynd o nerth i nerth, gyda'r 'ap' bellach wedi ei lawrlwytho 902 gwaith ac wedi mwy na dyblu yn ei nifer rhwng Ionawr a Mai 2019.

Mae'r ddarpariaeth dechnegol yn dod yn agosach at y bobl ac fel rhan o waith dadansoddi ar gyfer hunanwasanaeth ar-lein fe gyflwynwyd apiau symudol ar gyfer nifer o

swyddogion sy'n cyflwyno gwasanaethau uniongyrchol i'r cyhoedd. Technegwyr gwastraff yn bennaf sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yma. Mae'r dechnoleg yn eu galluogi i weithredu ar geisiadau'n gynt a bod gwybodaeth gyfredol ar gael i'w rannu gyda phobl Gwynedd ar unwaith. Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth yn cael ei hymledu i fwy o wasanaethau'r Cyngor i'r dyfodol.

Un o flaenoriaethau'r Gwasanaeth TG yw sicrhau fod gwefan y Cyngor ar gael i'r cyhoedd, a rhwydwaith y Cyngor ar gael i'w staff. Mae perfformiad y gwasanaeth yn yr agweddau yma wedi bod yn gyson, gyda'r rhwydwaith ar gael 99.97% o'r amser yn 2018/19. Bu i'r Cyngor ddioddef digwyddiad sylweddol yn haf 2018 a achosodd i systemau'r Cyngor beidio bod ar gael am gyfnod, ond fe lwyddwyd i adfer systemau â blaenoriaeth uchel yn gyflym, gyda'r gweddill yn dilyn oddi fewn y dyddiau nesaf. Gwnaethpwyd nifer o newidiadau yn dilyn y digwyddiad i gryfhau gwydnwch y ddarpariaeth er mwyn osgoi digwyddiad o'r fath yn y dyfodol. Er bod y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol, mae ambell gam pellach i fynd i gwblhau'r newidiadau a bydd hyn yn dod i ben yng ngeaf 2019/20.

Argaeledd Gwefan y Cyngor





## Adran Cefnogaeth Gorfforaethol



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

### Cyswllt Cwsmer

Bu 2018/19 yn flwyddyn lwyddiannus o ran cynyddu'r nifer o wasanaethau sydd ar gael i drigolion Gwynedd drwy hunanwasanaeth ar-lein. Bellach, mae'n bosib i bobl Gwynedd gael mynediad i nifer gynyddol o wasanaethau ar amser sy'n gyfleus iddynt, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, ac mae hefyd yn cynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor am wasanaeth.



**Gwnewch o ar-lein**  
*Saff, sydyn a hawdd i'w ddefnyddio*

**Do it online**  
*Safe, quick and easy to use*

CYNGOR GWYNEDD [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

Erbyn hyn, mae trigolion a busnesau Gwynedd yn gallu cysylltu ynghylch 17 o faterion priffyrdd, archebu a thalu am docyn parcio, talu am ginio ysgol, a chreu cyfiri hunanwasanaeth ar gyfer busnesau. Hefyd, rydym wedi lansio 'ap' i ffôn symudol sy'n rhoi mwy o ddewis i drigolion sut a phryd i ofyn am wasanaethau. Yn ystod 2018/19 mae 9,129 o drigolion wedi agor cyfiri hunanwasanaeth o'r newydd.



Rydym yn darparu gwasanaeth ffôn prydlon drwy Galw Gwynedd, sydd wedi gwella o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

### Amser ateb galwad ffôn yn Galw Gwynedd



Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod lle i wella ymhellach gan mai 55% o'r trigolion a gysylltodd â Galw Gwynedd a roddodd sgôr o 10 allan o 10 am y gwasanaeth a ddarparwyd.

Mae mwy a mwy o drigolion Gwynedd bellach yn dewis cysylltu â'r Cyngor drwy ddulliau electronig. Yn ystod 2018/19, derbyniwyd 2,178,226 o ymweliadau unigol i Wefan y Cyngor. Dim ond 277 (0.01%) o'r ymwelwyr yma wnaeth gyflwyno cŵyn neu sylw negyddol am y wefan. Llwyddwyd i gyfarch mwyafrif helaeth y cwynion yn brydlon ac mewn ffyrdd a oedd yn datrys y broblem gyda 72% ohonynt yn cael eu datrys o fewn 3 diwrnod gwaith.

### Cyfathrebu

Mae cynnal deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd er mwyn i ni rannu gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor ac i glywed barn ein trigolion am y gwasanaethau hynny yn flaenoriaeth. Yn ystod 2018/19 fe wnaeth 5,960 o bobl Gwynedd ymateb i holl ymgynghoriadau cyhoeddus corfforaethol y Cyngor a rhoddwyd sylw penodol i sicrhau fod y Cyngor yn clywed llais carfannau penodol megis pobl ifanc, y gymuned LGBT+, lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid ac oedolion gydag anableddau dysgu.



## Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

Llwyddwyd i gynnal perfformiad o fewn y gwasanaeth gyda 93% o gofrestriadau marwolaethau yn cael eu cofrestru o fewn 5 diwrnod sy'n rhagori ar ddisgwyliadau'r Llywodraeth o 90%.

Ym mis Chwefror 2018 cynhaliwyd ymchwiliad gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol oedd yn nodi fod angen rhoi sylw i 12 pwynt gweithredu. Yn dilyn archwiliad arall 12 mis yn ddiweddarach, cydnabyddwyd bod 11 o'r 12 pwynt gweithredu wedi eu cyfarch.

## Cefnogi Busnes y Cyngor

Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i wella ein trefniadau i asesu effaith cydraddoldeb pan yn llunio polisiau a gweithredu arnynt, ac fe gyhoeddwyd Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn fis Mehefin 2018, sy'n amlinellu'r 6 maes blaenoriaeth y bydd aelodau'r Bwrdd yn cydweithio arnynt er mwyn sicrhau'r gwasanaethau gorau i drigolion y ddwy sir. Mae gwaith ymchwil pellach i'w wneud cyn datblygu nifer o'r cynlluniau, ond byddwn yn parhau i gyfrannu at y cynlluniau hynny yn 2019/20.



## Uned iaith



Rydym fel Cyngor wedi defnyddio'r hyn sydd wedi ei ddyysgu dros y bum mlynedd a mwy diweddar er mwyn llunio 'Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023'.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym hefyd wedi datblygu perthynas waith agosach gyda gweddill

Mentrau Iaith Cymru er mwyn cryfhau gwaith ein mentrau iaith ein hunain, sef Hunaniaith a Menter Iaith Bangor. Rydym yn rhoi pwysau mawr ar arfogi eraill i gynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na darparu yn uniongyrchol ein hunain.




## Ymchwil a Gwybodaeth

Rydym yn ymwybodol iawn bod yr wybodaeth sydd ar gadw gennym am bobl ac adnoddau yn ddata sensitif a gwerthfawr.

Bu'n rhaid adrodd ar un digwyddiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth oherwydd ei ddifrifoldeb ond ni fydd camau ffurfiol yn ein herbyn yn sgil y ffaith bod gweithdrefnau priodol yn eu lle.

Nifer digwyddiadau gwybodaeth lle mae gwybodaeth am unigolyn wedi ei ddwyn/colli/mynd i'r cyfeiriad anghywir




Ein blaenoriaeth i'r dyfodol, wrth gwrs, fydd parhau i sicrhau fod pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddiogelu data, gan ail-gynnig hyfforddiant yn ôl yr angen, fel na fydd achosion tebyg yn digwydd i'r dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn mae'r nifer o geisiadau gan unigolion sy'n dymuno gweld gwybodaeth amdanynt eu hunain (ceisiadau diogelu data) wedi mwy na dyblu i 59. Gan na allwn flaenoriaethu ein cyllid er mwyn cyflogi neu arallgyfeirio staff i ymateb i'r cynnydd hwn

rydym wedi byw gyda'r ffaith mai 75% o'r ceisiadau hyn gafodd eu hateb o fewn yr amserlen ddisgwyliedig sef 1 mis calendr.

Ar ben hynny cafwyd 1,155 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod y flwyddyn.



**YMCHWIL a  
DADANSODDEG**

Yn ystod 2018/19, cynhaliwyd nifer o brosiectau ymchwil sydd wedi cyfrannu naill ai at ddatblygu polisiau neu at wella gweithdrefnau mewnol, gan gynnwys yr ymchwil ar Ddatblygiadau Tai Newydd sef darn o waith cynhwysfawr ple holwyd preswylwyr tai newydd ar draws Gwynedd am eu rhesymau dros symud, ple roeddynt yn byw o'r blaen, iaith a siaredir ayb, ac yna dilyn y gadwyn ymlaen i'r tai wnaethon nhw symud ohonynt. Mae yna weithgor yn dadansoddi'r canlyniadau ar hyn o bryd, ond bydd yn sicr o fedru cyfrannu at waith a pholisiau ein hunedau tai a chynllunio i'r dyfodol.

## Prynu

Yn ychwanegol at y gwaith ar y prosiect Blaenoriaeth Gwella 'Cadw'r Budd yn Lleol' bu'r Gwasanaeth Caffael hefyd yn cydweithio gydag adrannau ar draws y Cyngor er mwyn gosod cytundebau a threfniadau yn eu lle sydd wedi rhoi'r cyfle iddynt arbed arian. Yn ystod 2018/19 mae cyfleoedd wedi eu hadnabod er mwyn arbed cyfanswm o £239,280.

## Democratiaeth a Chyfieithu



Pwrpas y Gwasanaeth Democratiaeth yw cefnogi Cyngorwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau a gweithredu er lles trigolion Gwynedd. Ar gyfer cyfnod 2018/19 cynyddodd y canran rhaglenni pwyllgorau sy'n cael eu cyhoeddi o fewn yr amserlen (o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod) i 97% yn 2018/19 o'i gymharu â 95% yn 2017/18.

Mae safon gwaith yr Uned Gyfieithu yn parhau yn wych drwyddo draw, gyda 28 allan o'r 29 holiadur bodlonrwydd a gwblhawyd yn sgorio'r gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig yn 5 allan o 5.

## Cefnogaeth Adnoddau Dynol

Ym mis Awst 2018 daeth y Cyngor i gytundeb torfol â'r undebau llafur ar becyn o newidiadau i'r amodau gwaith. Un o'r ymrwymadau a ddaeth allan o'r broses honno oedd yr angen i gryfhau'r berthynas rhwng yr undebau llafur a'r Cyngor yn gyffredinol. Erbyn hyn, ac ymhellach i'r cyfarfodydd misol oedd eisoes wedi'i sefydlu gyda'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol, mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol hefyd yn cynnal trafodaethau cyson â chynrychiolwyr yr undebau ar faterion sy'n benodol i'w gwasanaethau hwy.

Rydym yn falch iawn bod y newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2018/19 wedi golygu y bydd isafswm cyflog o fewn y Cyngor o fis Ebrill 2019 ymlaen yn codi i £9.18 yr awr. Mae hyn yn cymharu ag £8.21 ar gyfer y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r £9.00 yr awr sy'n cael ei gydnabod fel y Gwir Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r Cyngor hwn gyrraedd y nod o dalu isafswm cyflog sy'n uwch na'r hyn adnabyddir fel Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw.

Er i ni weld cynnydd yn nifer diwrnodau salwch fesul aelod o staff yn ystod 2018/19 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, rydym yn parhau i fod ymysg y cynghorau sydd â'r lefel isaf o absenoldebau salwch.



Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol i staff y Cyngor. Yn ystod 2018/19 datblygwyd modiwl electronig er mwyn cyflwyno mynediad ar-lein drwy system Hunan Wasanaeth Rheolwyr a Staff i wirio cofnodion troseddol staff (DBS). Mae gwaith pellach i'w wneud cyn y gallwn ddweud bod y system electronig newydd wedi cael gwared o fiwrocratiaeth papur yn llwyr, ac un cam pwysig yw aros i'r Comisiynydd laith edrych ar y mater o sicrhau gweinyddiaeth ddwyieithog y system.

Wrth gysylltu ag ymgeiswyr am swydd gyda'r Cyngor i ofyn eu barn ar y broses ymgeisio, cawsom ymateb ble roedd 100% yn hollol hapus gyda'r gwasanaeth. Tu cefn i'r canlyniad hwn y mae llawer o waith wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn er mwyn tynhau'r prosesau o fewngofnodi gwybodaeth er mwyn arbed amser staff.


## Dysgu a Datblygu'r Sefydliad



Mae'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cynnig cefnogaeth dysgu a datblygu i staff y Cyngor. Datblygiad newydd mwyaf cyffrous y flwyddyn oedd sefydlu ein Cynllun Prentisiaethau, gyda 3 Prentis eisoes wedi eu penodi. Bydd y Cynllun yn ymestyn eto yn 2019/20, gyda'r gobaith o gynyddu'r nifer yma i 20.

## Iechyd a Diogelwch

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd gynnydd yn nifer y damweiniau y mae angen i'r Cyngor adrodd arnynt o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).



Er mwyn sicrhau fod ein trefniadau iechyd a diogelwch mor gadarn ag y mae modd iddynt fod, mae'r Uned yn parhau i gynnal rhaglen o archwiliadau ac yn gwneud asesiad o unrhyw wendidau sy'n bodoli o fewn yr adrannau unigol ac yn trafod y gwendidau hynny gyda'r penaeithiaid perthnasol.

## Blaenoriaeth Lleol

Roedd edrych ar y posibilrwydd o gydweithio gyda Phartneriaeth Penllyn er mwyn trosglwyddo cyfrifoldeb dros adnoddau o fewn y gymuned er mwyn eu galluogi i ddefnyddio incwm i gynnal gwasanaethau lleol wedi ei


adnabod fel blaenoriaeth yn ardal Penllyn. Mae trafodaethau wedi eu cynnal a byddant yn parhau er mwyn ceisio datblygu model amgen ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb dros yr adnoddau o fewn y gymuned.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'u teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu gwasanaeth cyfreithiol cyflawn i holl adrannau'r Cyngor. Er mwyn creu incwm rydym hefyd yn darparu'r gwasanaeth i gleientiaid allanol. Rydym yn derbyn adborth cadarnhaol cyson, gydag arolwg boddhad cwsmeriaid 2018/19 yn dangos bod 84% o gleientiaid yn nodi eu bod yn hollol fodlon (sgôr o 10 allan o 10) gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Rydym yn ymchwilio ymhellach i ddarganfod y rhesymau pam nad yw'r 16% sy'n weddill yn hollol fodlon er mwyn gweld a allwn wneud rhywbeth yn ei gylch.



Un ffactor cyffredin y gwyddom amdano yw bod adeiladu gwell dealltwriaeth gyda

chleientiaid ynglŷn ag ardrawiad ffactorau megis prosesau cyfreithiol allanol ar amserlenni disgwylidig. Byddwn yn rhoi sylw i hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.



Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am weinyddu holl etholiadau'r Sir. Yn ystod 2018/19 rydym wedi gweinyddu'r etholiadau ar gyfer 3 isetholiad.

Yn ystod 2018/19 cynhaliwyd a chwblhawyd y canfas blynyddol. Drwy adolygu ein dull gweithredu er mwyn gwneud gwell defnydd o adnoddau a thechnoleg, y gobaith yw gallu cynyddu cofrestru i bleidleisio ymysg ardaloedd a grwpiau sydd yn llai tueddol o fod ar y gofrestr. Byddwn yn asesu llwyddiant yr arbrawf yn y flwyddyn i ddod.

## CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>18 Gorffennaf 2019</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Addasiad i Bolisi Tâl y Cyngor 2019/2020</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Cynghorydd Nia Jeffreys</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Geraint Owen</b>

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Bod y Cyngor yn cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i osod cyflog swydd newydd Pennaeth Tai ac Eiddo ar raddfa HS2 - £68,458 - £76,063 a thrwy hynny addasu'r Polisi Tâl ar gyfer 2019-20 i adlewyrchu'r ychwanegiad hwn.

### CEFNDIR A RHESYMEG

Ar y 7fed o Fai eleni, cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Cabinet ar gasgliadau'r adolygiad rheolaethol y bu iddo ei gynnal yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf y llynedd.

Cymeradwywyd casgliadau'r adroddiad honno, gyda rhai addasiadau. Un o'r casgliadau hynny a gymeradwywyd oedd i sefydlu adran newydd i ymdrin â materion Tai ac Eiddo o fewn y Cyngor.

Yn sgîl y penderfyniad hwnnw, mae swydd Pennaeth Tai ac Eiddo newydd wedi'i sefydlu, gyda threfniadau ar y gweill i benodi i'r swydd honno. Ymgynghorwyd hefo cwmni Korn Ferry (Grŵp Hay yn flaenorol) ar osod lefel cyflog priodol ar gyfer y cyfrifoldebau sydd ynghlwm â'r swydd a derbyniwyd arweiniad y dylid gosod y cyflog ar raddfa HS2, sef £68,458 - £76,063 (fel ag y mae'n ymddangos yn bresennol). Mae'r lefel cyflog hwn yn gyson hefo'r lefel cyflog a delir i 6 Pennaeth Adran arall ar hyn o bryd.

Bu i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2019-20 yn ei gyfarfod ar y 7fed o Fawrth eleni a hynny ar sail argymhelliad a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion. Mae'r Pwyllgor hwnnw yn ei gyfarfod ar y 27ain o Fehefin, 2019 wedi cytuno i gyflwyno argymhelliad pellach i ychwanegu at y Polisi Tâl yn dilyn sefydlu'r swydd newydd o Bennaeth Tai ac Eiddo.

Yn unol ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011, mae gofyn i'r datganiad Polisi Tâl blynyddol, ac unrhyw newidiadau/ychwanegiadau iddo, gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn.

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

## **Barn y swyddogion statudol**

### **Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb briodol o'r cyd-destyn ar gyfer y penderfyniad. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Roedd adroddiad 'Adolygiad Rheolaethol' y Prif Weithredwr a phenderfyniad y Cabinet yng nghyfarfod 7 Mai 2019 yn nodi arbediad net o £297,000 ac yn cyfarch agweddau ariannol o'r addasiad yma i Bolisi Tâl y Cyngor.



## CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>18 Gorffennaf 2019</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Gosod Cyflog Swydd Cyfarwyddwr Rhaglen – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Cynghorydd Nia Jeffreys</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Geraint Owen</b>

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Bod y Cyngor, fel yr Awdurdod Cyfrifol am faterion cyflogaeth a chyllidol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn cymeradwyo penderfyniad y Bwrdd i osod lefel cyflog ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Rhaglen ar raddfa o £96,304 i £106,304.

### CEFNDIR A RHESYMEG

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel Awdurdod Cyfrifol ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Golyga hynny bod y Cyngor hwn yn gweithredu fel y cyflogwr cyfreithiol ar gyfer swyddogion ar ran y Bwrdd, yn gyfrifol am osod y gyllideb a chynhyrchu cyfrifon yn ogystal â darparu'r gynhaliath ar gyfer cyfarfodydd ayyb. Gwneir hyn drwy gytundeb llywodraethu, a gytunwyd rhwng y chwe Cyngor a'r partneriaid eraill.

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi penderfynu ei bod yn amserol i benodi Cyfarwyddwr Rhaglen ond wedi bod yn aflwyddiannus yn eu hymdrechion i recriwtio i'r swydd honno dros y ddeufis diwethaf.

Yn sgil hynny, bu i'r Bwrdd, yn ei gyfarfod ar yr 28ain o Fehefin, 2019, gytuno i ail hysbysebu'r swydd gan osod cyflog o hyd at £106,304. Derbyniwyd arweiniad gan gwmni Korn Ferry (Grŵp Hay yn flaenorol) cyn dod i'r casgliad hwn.

Er cyfarch yr arweiniad statudol "Atebolrwydd Tal o fewn Lywodraeth Leol yng Nghymru – Arweiniad dan Adran 40 Deddf Lleoliaeth 2011" a chan ddal sylw at Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheoliadau Sefydlog) (Cymru) 2006, fel ag y'i diwygiwyd yn 2014, mae gofyn adrodd ar unrhyw becyn cyflog sy'n uwch na £100,000 i'r Cyngor Llawn ac i dderbyn cymeradwyaeth ffurfiol i sefydlu'r cyflog ar y lefel a nodwyd.

Gan fod y Cyngor hwn yn gweithredu fel yr Awdurdod Cyfrifol ar ran y Bwrdd Uchelgais, cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw cymeradwyo ar yr achlysur hwn er mwyn cyfarch gofynion technegol yr arweiniad statudol. Yn ei dro, cyfrifoldeb y Bwrdd Uchelgais fydd ariannu'r swydd ac ymdrin â'r drefn recriwtio.

Rhagwelir, o dderbyn y gymeradwyaeth ffurfiol honno, y bydd y Bwrdd Uchelgais yn ail-gychwyn y broses recriwtio yn ystod yr wythnosau nesaf gyda golwg i benodi Cyfarwyddwr Rhaglen ym mis Medi.

## **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

### **Barn y swyddogion statudol**

#### **Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn esbonio cyd-destun yr argymhelliad yma. Mae'n adlewyrchu gofyn technegol sydd o fewn y Cylchlythyr sydd yn pontio trefniadau cyd-weithio yn ôl y fframwaith gyfredol. Felly, mae rôl y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth i ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ynglŷn dilyn y trefniadau priodol.

#### **Y Pennaeth Cyllid:**

Bwriad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yw sefydlu strwythur y Swyddfa Rhaglen, gan gynnwys swydd allweddol y Cyfarwyddwr Rhaglen, o fewn adnoddau cyfraniadau ariannol craidd yr awdurdodau lleol a'r partneriaid eraill. Mae cost cyflogi'r Cyfarwyddwr Rhaglen (a gweddill y Swyddfa Rhaglen) i'w ymrwymo ar sail cyfalafu tâl, ariannu yn rhannol drwy grant, ac ati, fel sydd wedi'i osod allan mewn adroddiad i gyfarfod 28 Mehefin o'r Bwrdd Uchelgais.

Swyddog Cyllid Statudol Cyngor Gwynedd yw Swyddog Cyllid Statudol y Bwrdd Uchelgais, ac adroddais i'r cyfarfod 28 Mehefin: "Mae'n debyg bydd y ffynonellau cyllid dewisol (cyfalafu tâl, ariannu yn rhannol drwy grant) ar gael, ond ... pe bai angen, mae cost barhaus y strwythur craidd a gynhigir yma dal yn fforddiadwy o fewn adnoddau craidd y Bwrdd".

Fodd bynnag, atgoffwyd aelodau'r Bwrdd hefyd y byddai pob sefydliad partner yn cyfrannu ar sail y cytundeb llywodraethu cyfredol tuag at unrhyw risg ariannol (gan gynnwys costau diswyddo posibl) fyddai'n dod i'r amlwg o ganlyniad i fethu sicrhau'r ffrydiau ariannu dewisol yn y pen draw, a bod y cytundeb yn darparu fod y corff atebol (Cyngor Gwynedd) yn derbyn indemniad gan y partneriaid eraill.

Mae angen penodiad buan er mwyn gwneud cynnydd gyda rhaglen o brosiectau gwerth mwy na £240m i ranbarth Gogledd Cymru, fyddai'n cynnwys buddsoddiad a swyddi gwerthfawr yng Ngwynedd, felly rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir.



# Eitem 12

<b>Cyfarfod</b>	<b>Y Cyngor Llawn</b>
<b>Dyddiad</b>	<b>18 Gorffennaf 2019</b>
<b>Pwnc</b>	<b>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2018/19</b>
<b>Awdur</b>	<b>Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau</b>
<b>Swyddog Perthnasol</b>	<b>Iwan Evans, Swyddog Monitro</b>

## **Cefndir**

1. Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol, sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd.
2. I'r perwyl hyn penderfynodd y Pwyllgor gyhoeddi adroddiad blynyddol i egluro'r hyn y mae'n ei wneud ac i hyrwyddo ei waith. Penderfynodd y Pwyllgor y dylid hefyd dyflwyno'r adroddiad yn ffurfiol i gyfarfod o'r Cyngor Llawn.
3. Mae'r Pwyllgor felly yn cyflwyno'r adroddiad hwn i sylw'r Cyngor. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei gylchredeg i gynghorau cymuned a thref Gwynedd.

## **Argymhelliad**

Derbyn yr adroddiad


## **Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad

## **Swyddog Cyllid**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD 2018 - 2019



# RHAGAIR GANY CADEIRYDD

Er mawr ddigalondid i bawb mae'r ansicrwydd sydd ynghlwm â 'Brexit' yn parhau dair blynedd wedi'r refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn parhau yn y niwl heb wybod a fydd yr ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd yn un 'caled' neu'n 'feddal', ac os bydd cytundeb neu beidio. Mae'r safbwyntiau ar ddwy ochr y ddadl yn parhau wedi'u polareiddio ac mae cynnydd yn yr achosion o gasineb hiliol a diffyg parch at wahanol safbwyntiau yn ddychryn.

Yng nghanol yr holl ansicrwydd hwn rhaid i drigolion Gwynedd, y cynghorwyr a'r Awdurdod Lleol barhau i weithredu mor normal ag sy'n bosib'.

Fel y gwelwch, adroddiad byr sydd gennym i chi eleni eto. Ni chyfeiriwyd unrhyw gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y Pwyllgor. Cyfeiriwyd rhai achosion at yr Ombwdsmon ac roedd tystiolaeth fod un achos o dorri'r Côt Ymddygiad ond nid oedd angen cymryd camau pellach ac ni fu'n rhaid cynnal gwrandawriadau. Efallai y dylid nodi mai yn y Cynghorau Tref a Chymuned mae'r heriau mwyaf ac fe fydd y Pwyllgor yn ystyried sut i gynorthwyo'r cynghorau yma. Dylid nodi nad yw hyn yn unigryw i Wynedd – mae'n her gyffredinol ar draws Cymru.

Yn gryno, y genadwri gyffredinol i Aelodau Etholedig yw bod angen bod yn ofalus, bod angen manteisio ar yr hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig gan y Swyddog Monitro a'i dîm ac i geisio cyngor os oes unrhyw amheuaeth yn codi y gallasai unrhyw un ddehongli ymddygiad fel un sy'n torri'r côd.

Mae'r Pwyllgor, fel arfer, yn edrych ymlaen at raglen waith llawn dros y flwyddyn sydd o'n blaenau ac yn edrych ymlaen at gydweithio yn agosach gyda Fforwm Safonau Gogledd/Canolbarth Cymru.

Nid yw'n bosib gorffen heb ddiolch unwaith eto i'r Swyddog Monitro a'i dîm am roi arweiniad i ni ac am eu gwaith cyson a pharhaus gyda'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned.

*Dr Einir Young  
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau*

# RHAGAIR GANY SWYDDOG MONITRO

Unwaith eto eleni cyflëir neges gyffredinol o safon uchel o ymddygiad yng Ngwynedd. Nid oes lle laesu dwylo oherwydd fel y nodir yn yr adroddiad mae eithriadau ond ar y cyfan gellir ymfalchio mewn darlun o ddiwylliant o briodoldeb sydd yn gyffredin ar draws cynghorau'r Sir. Roedd adroddiad y Pwyllgor Safonau Mewn Bywyd Cyhoeddus ym Mis Ionawr 2019 ar y gyfundrefn safonau yn Lloegr yn amlygu neges berthnasol i bawb ynglŷn a phwysigrwydd arweinyddiaeth a diwylliant priodol mewn cynnal safonau ymddygiad. Mae hyn yn gyfrifoldeb nid yn unig i Bwyllgorau Safonau a Swyddogion Monitro ond i bob un sydd yn ymrwymo i'r Cod neu yn ymwneud a'r gyfundrefn. Mae rhiniog yr Ombwdsman ar gyfer ymchwilio wedi codi. Fodd bynnag mabwysiedir y Cod Ymddygiad fel datganiad i'r cyhoedd o'r safon uchel o ymddygiad mae Cyngor yn ei arddel ar gyfer aelodau. Mae'n elfen bwysig o gyfundrefn llywodraethu sydd yn cynnal hyder cyhoeddus yn drefn ddemocrataidd a dyma'r neges byddaf yn ei arddel wrth gynghori a hyfforddi dros y flwyddyn i ddod.

*Iwan Evans  
Swyddog Monitro  
Cyngor Gwynedd*

## CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd.

## AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

### Margaret E Jones (aelod ers 2012)



Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Chwilog. Bu'n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel prifathrawes. Mae'n ddiakon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu'n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Llywydd yr Undeb. Bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010. Mae hi'n aelod gweithgar o Bwyllgor Eisteddfod Chwilog ac yng ngofal y Seremoni Cadeirio.

### Dr Einir Young (aelod ers 2012)



Wedi ei geni yn y Rhondda a'i magu yn Llanelli a Chwmtwrch mae Einir wedi ymgartrefu yng Ngwynedd ers bron i ddeg mlynedd ar hugain. Bu'n byw am gyfnod yng Nghaliffornia ac mae wedi teithio led led y byd yn enwedig i Affrica yn gweithio gyda chymunedau ymylol. Cymru yw canolbwynt ei gwaith erbyn hyn ond yr un yw'r heriau sy'n wynebu cymunedau - yr angen am weledigaeth hir dymor, sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er gwella neu'n atal pethau rhag mynd yn waeth, integreiddio ar draws cymunedau, cyd weithio ac efallai'n bwysicaf oll cynnwys pawb. Dyma'r union egwyddorion sydd i'w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac fel Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor mae Einir a'i thîm yn y Labordy Cynaliadwyedd yn frwd dros hyrwyddo'r ffyrdd o weithio sy'n cael eu hannog gan y ddeddf ar draws y sefydliad a thu hwnt. Mae cynnal safonau yn elfen mor bwysig i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi'n falch o'r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd ac i'w gadeirio.

Yn ei hamser hamdden mae Einir yn mwynhau cerdded ymysg pethau eraill ac ar hyn o bryd mae hi ei chwaer a'r ci yn cerdded Llwybr Arfordir Cymru ac wedi cyrraedd Aber Llydan yn Sir Benfro. Mae nhw hefyd wrthi'n cerdded Llwybr Llechi Eryri.

### David Wareing (aelod ers 2015)



Symudodd David o Swydd Gaerhirus i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae'n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn

dryloyw ac yn atebol.

### Aled Jones (aelod ers 2016)



Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae'n cyflogi tîm o 20 aelod staff a dros 15 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae'n byw ym Mangor gyda Tegwen a'r plant, Cai a Beca. Mae'n mwynhau pob math o chwaraeon a chaiff ei weld yn aml yn cefnogi Clwb Rygbi Bethesda a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant

felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

[sedd wag]

## Aelod Pwyllgor Cymunedol

### Cynghorydd Richard Parry Hughes (aelod ers 2017)



Magwyd Richard ar fferm yn Llanaelhaearn ac aeth i Ysgol Ramadeg Pwllheli, Coleg Amaethyddol Glynllifon, a Choleg Seale Hayne (Prifysgol Plymouth). Mae ganddo ôl radd mewn Rheolaeth Fferm. Bu yn gweithio i bartneriaeth filfeddygon yn Chwilog am dair blynedd ac yn ddarlithydd rhan amser yng Ngholeg Glynllifon, cyn prynu fferm Penfras Uchaf Llwyndyrys lle bu ei deulu yn denantiaid arni am dros dri chan mlynedd. Mae'n briod ac Eleri ac mae ganddynt dri mab. Yn gyn arweinydd Cyngor Gwynedd, mae yn dal i ffermio. Mae ganddo brofiad helaeth o bwyllgorau gan ddal swyddi fel cadeirydd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru cyn ymgymryd â chael ei ethol fel aelod o gyrff cyhoeddus. Bu yn aelod o Gyngor Sir Gwynedd o 1992 hyd 1996 ac yn aelod o Gyngor Gwynedd o 1996 i 2008. Bu'n arwain Cyngor Gwynedd o 2003 i 2008 a hefyd yn lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr Amgylchedd a Chynllunio yn ystod y cyfnod yma. Mae'n aelod brwd o Gwmni Drama Llwyndyrys a chefnogwr amryw o gymdeithasau eraill lleol megis, Antur Aelhaearn a Chyfeillion Eglwys Carnguwch. Mae'n gweithio'n wirfoddol fel gweithiwr achos i'r Farm Community Network. Mae'n aelod o Gyngor Cymuned Llannor ers 1992.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

### Cynghorydd Dewi Roberts (aelod ers 2017)



Mae Dewi yn byw yn Llanengan ger Abersoch gyda'i wraig Bethan, ac mae ganddynt 5 o blant sydd i gyd yn oedolion. Roedd yn beiriannydd ac yn ddarlithydd peirianeg yng Ngholeg Technegol Bangor cyn ymuno â Heddlu Gogledd Cymru. Yno bu'n Dditectif yn gweithio'n lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, cyn ymddeol ar ôl 29 mlynedd o wasanaeth.

Cafodd ei ethol ym mis Mai 2017 fel Cynghorydd Gwynedd yn cynrychioli Ward Abersoch. Ers ei ethol mae wedi Cadeirio Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd ac mae'n Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal, Cadeirydd Pwyllgor Ardal Dwyfor, yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac yn Gadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Gwynedd.

Yn ogystal â bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau, mae hefyd yn aelod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol, yn Warden Eglwys Llanengan ac yn eistedd ar Gyngor Plwyf yr Eglwys. Mae hefyd yn gwasanaethu fel Llywodraethwr ar Ysgol Abersoch ac Ysgol Botwnnog.



### Cynghorydd Beth Lawton (aelod ers 2017)



Mae Beth yn byw ym Mryncrug ac yn berchen ffatri leol. Mae'n Gynghorydd Sir dros ardal Bryncrug/Llanfihangel sydd yn cynnwys pentre' Bryncrug ac Abergynolwyn. Mae hefyd yn Gynghorydd Cymuned ac yn gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn. Mae'n weithgar ar sawl pwyllgor yn y gymuned yn cynnwys Carnifal Abergynolwyn, Ffair Wledig Bryncrug, Pwyllgor Apêl Ysbyty Tywyn a llawer eraill. Mae'n gadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd ac yn gyfarwyddwr ar y cwmni hamdden newydd.

### Cynghorydd Anne Lloyd-Jones (aelod ers 2017)



Mae Anne yn byw ac yn rhedeg busnes twristiaeth fferm yn Nhywyn, ac mae wedi cynrychioli Tywyn ar Gyngor Gwynedd ers 1995 a chyn hynny roedd yn aelod o Gyngor Dosbarth Meirionnydd am wyth mlynedd. Etholwyd hi'n gyntaf fel aelod o Gyngor Tref Tywyn yn 1985 a hi oedd Faeres gyntaf yn 1991, ac eto yn 2004, ac roedd yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2009. Mae hi'n gyn-gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ac yn un o aelodau gwreiddiol Bwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Roedd hi'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Meirionnydd, ac yn Gadeirydd presennol Cronfa Apêl Ysbyty Tywyn a'r Cylch.

Mae hi'n aelod ac yn gyn-gadeirydd Ysgol Penybryn ac yn aelod ar gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn.

Roedd Anne yn Gadeirydd Twristiaeth Canolbarth Cymru rhwng 2001-2016, yn aelod sefydliadol ac yn gyn-lywydd a Thrysorydd Clwb Inner Wheel Tywyn a bu'n Drysorydd cangen leol yr NSPCC ers 1989.

Mae Anne yn briod â John ac mae ganddyn nhw dair merch a dwy wyres sy'n efeilliaid.

## Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

### Manylion Cyswllt

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro.  
E-bost: [IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru](mailto:IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru) Ffôn 01286 679015
- Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol).  
E-bost: [sionhuws@gwynedd.llyw.cymru](mailto:sionhuws@gwynedd.llyw.cymru) Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2018 - 2019

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

## **Achosion fu gerbron y Pwyllgor**

Eleni, ni chyfeiriwyd unrhyw gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y Pwyllgor am benderfyniad.

## **Cwynion eraill**

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2**.

## **Goddefebau**

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

Ni chyflwynwyd cais am oddefiad yn ystod y cyfnod yma.

## **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol. Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor. Erbyn hyn mae Pwyllgorau Safonau Ceredigion a Phowys wedi ymuno â'r Fforwm.

## Atodiad I

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2018-19

### 9 Gorffennaf 2018

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor
- Cynnal Hunanasesiad a llunio Rhaglen Waith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Ystyried diwygidau i Brotocol Cyngor Gwynedd ar Gysylltiadau Aelodau a Swyddogon
- Ystyried a chymeradwyo Canllaw Datgan Buddiant a Chanllaw Cyswllt Aelod â'r Cyngor fel Unigolyn

### 1 Hydref 2018

- Cynnal adolygiad o'r drefn at gyfer ceisiadau am oddefebau
- Ystyried presenoldeb y Pwyllgor Safonau ar Wefan y Cyngor
- Ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2017-18
- Derbyn adroddiad y Swyddog Monitro ar Gynhadledd Safonau Cymru

### 21 Ionawr 2019

- Ystyried amllder a nifer cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru
- Ystyried y Gofrestr Buddiannau Aelodau

### 18 Mawrth 2019

- Ystyried ymgynghoriad yr Ombwdsmon ar ei Gynllun Corfforaethol Drafft

## Atodiad 2

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:

### Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad

### Penderfyniad yr Ombwdsmon

Cwyn gan aelod o gyngor tref wedi methu datgelu buddiant mewn cyfarfod o'r cyngor ac y dylai fod wedi gadael y cyfarfod.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

Roedd yr aelod wedi datgan bod ganddi fuddiant ond nad oedd o'r farn ei fod yn rhagfarnu. Oherwydd natur drafodaeth a gafwyd, nid oedd yr Ombwdsmon wedi ei berswadio bod y buddiant yn un oedd yn rhagfarnu a fyddai'n golygu y dylai bod wedi gadael.

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd tref wedi methu datgelu buddiant mewn mater yn ymwneud â pherson oedd yn gwsmer iddo.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

Fel unigolyn sydd yn rhedeg busnes lleol mae'n amlwg y byddai'n nabod sawl unigolyn arall sydd yn byw yn yr ardal. Nid oedd y pwnc dan sylw yn un lle byddai person annibynnol yn meddwl y byddai'n elwa ohoni'n bersonol nac yn medru dylanwadu penderfyniad a fyddai'n creu sefyllfa negyddol i'r achwynydd.

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am y modd i siaradodd cynghorydd tref â hi ar dri achlysur mewn perthynas â mater penodol.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

Nid oedd yn bosib cysoni disgrifiad yr achwynydd o'r hyn a ddigwyddodd gyda disgrifiad yr aelod heb dystiolaeth bellach. Roed y ddau fersiwn o'r hyn a ddigwyddodd yr un mor gredadwy ac nid oedd wedi ei berswadio y gallai ffafrio un fersiwn dros y llall.

## Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd wedi gwrthod ymwneud ag ef mewn perthynas â materion yn ymwneud â'i eiddo ac anghydfod rhyngddo â'r Cyngor.

## Penderfyniad yr Ombwdsmon

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

Mater i gynghorydd yw penderfynu os yw am gyfarfod neu ohebu gydag aelodau o'r cyhoedd. Prif ddyletswydd aelodau yw cynrychioli trigolion o fewn eu hetholaethau, ond nid oes rheidrwydd arnynt i ymdrin â phob mater unigol a adroddir iddynt.

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod aelod o Gyngor Gwynedd heb ddewis aelod etholedig arall i siarad ar gais gynllunio yn y Pwyllgor Cynllunio, ar ôl iddo ddatgan buddiant oedd yn rhagfarnu yn y mater.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

Nid oedd o'r farn bod hyn yn torri'r Cod. Nid oedd rheidrwydd ar yr aelod i ddewis aelod arall i siarad ar gais o'r fath.

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd sir nad oedd wedi ystyried cais cynllunio mewn modd gwrthrychol wrth eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

Nid oedd tystiolaeth i gefnogi'r honiad bod yr aelod wedi methu rhoi ystyriaeth i gyngor swyddogion ac wedi methu ystyried y mate yn wrthrychol.

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod aelod o gyngor cymuned wedi methu datgan buddiant personol wrth ystyried cais i wyro hawl tramwy cyhoeddus a'i fod wedi penderfynu ar ei farn cyn y cyfarfod gan ei fod wedi cyflwyno ffurflen yn cefnogi'r newid i'r cyngor sir yn 2014.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

Er y gallai cefnogaeth i'r newid arfaethedig fod yn fuddiant, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod, o ystyried yr holl amgylchiadau, y byddai budd cyhoeddus mewn ymchwilio ymhellach hyd yn oed pe profir hynny. Ymysg y ffactorau a ystyriodd oedd yr amser aeth heibio ers cyflwyno'r ffurflen, y gwnaeth hynny a natur gyfyngedig dylanwad y cynghorydd ar y penderfyniad terfynol.

## Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod aelod o gyngor cymuned wedi methu datgan buddiant personol wrth ystyried cais i wyro hawl tramwy cyhoeddus a'i fod wedi penderfynu ar ei farn cyn y cyfarfod gan ei fod wedi cyflwyno ffurflen yn cefnogi'r newid i'r cyngor sir yn 2014.

## Penderfyniad yr Ombwdsmon

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

Er y gallai cefnogaeth i'r newid arfaethedig fod yn fuddiant, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod, o ystyried yr holl amgylchiadau, y byddai budd cyhoeddus mewn ymchwilio ymhellach hyd yn oed pe profir hynny. Ymysg y ffactorau a ystyriodd oedd yr amser aeth heibio ers cyflwyno'r ffurflen, y gwnaeth hynny a natur gyfyngedig dylanwad y cynghorydd ar y penderfyniad terfynol.

Cwyn gan gyd-aelod, bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant personol oedd yn rhagfarnu mewn mater a drafodwyd gan y cyngor gan ei bod yn ymddiriedolwr ac yn aelod o bwyllgor rheoli'r eiddo dan sylw.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

Nid oedd yn ymddangos bod yr aelod wedi torri'r Cod gan fod yr eitem yn ymwneud a chais i ysgrifennu at y cyngor sir am wybodaeth. Nid oedd trafodaeth na phleidlais a fyddai wedi manteisio'r aelod na'r pwyllgor rheoli.

Cwyn gan gyd-gynghorydd bod aelod o gyngor tref wedi ymddwyn mewn modd annerbyniol drwy

- Anfon e-byst ato oedd yn gyfystyr a bwlio neu aflonyddu
- Gwrthod derbyn penderfyniad y cyngor tref ar fater penodol
- Gwrthod condemnio sylwadau gan eraill ar Facebook yr oedd yr achwynydd yn ystyried yn fygythiadau yn ei erbyn

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Ni chyflwynwyd copiâu o'r e-byst ond ar sail hyn yr oedd yr achwynydd yn ei ddweud, nid oedd yn debygol y byddai'r Ombwdsmon wedi ymchwilio gan eu bod yn ymddangos yn sylwadau gwleidyddol o fewn ffiniau'r hyn a ganiateir
- Nid oedd tystiolaeth bod yr aelod wedi ceisio dylanwadu yn amhriodol ar ddiueddrwydd swyddogion

Nid oedd tystiolaeth bod y cynghorydd wedi cyfrannu at y sylwadau ar Facebook ac nid oedd rheidrwydd ar yr aelod i feirniadu'r sylwadau hynny.

## Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad

Cwyn bod cynghorydd sir wedi methu a chofrestru perchnogaeth tir fel buddiant ac wedi methu datgelu hynny wrth drafod cais cynllunio gyda swyddogion.

## Penderfyniad yr Ombwdsmon

Penderfynodd yr Ombwdsmon ymchwilio a daeth i'r casgliad canlynol:

- Ymddengys bod yr aelod wedi torri'r cod drwy beidio â chofrestru'r buddiant ac wrth beidio ei ddatgan wrth e-bostio swyddogion cynllunio.
- Ni oedd cynnwys yr e-bost yn tynnu llinell glir rhwng rôl yr aelod fel unigolyn a'i rôl fel aelod o'r Cyngor
- Er dadleuon yr aelod i'r gwrthwyneb roedd o'r farn ei fod wedi derbyn hyfforddiant digonol ar y Cod Ymddygiad ac os nad oedd yn glir am unrhyw agwedd ei gyfrifoldeb ef oedd ceisio cyngor pellach gan y Swyddog Monitro.
- Ar ôl ystyried y prawf budd cyhoeddus penderfynodd nad oedd angen gweithredu pellach yn yr achos gan fod yr unigolyn yn aelod newydd ar y pryd, mai dyma'r tro cyntaf i'w ymddygiad ddod i sylw'r Ombwdsmon, a'i fod bellach wedi cwblhau'r ffurflen gofrestru buddiannau'n gywir.
- Byddai'n ysgrifennu at yr aelod i bwysleisio pwysigrwydd cadw ei rolau preifat a chyhoeddus ar wahân ac y dylai geisio cyngor gan y Swyddog Monitro os yw angen mwy o hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

## Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod aelod o gyngor cymuned wedi:

- gwneud datganiad nad oedd yn wir er mwyn ceisio tanseilio cefnogaeth i ymgyrch leol yr oedd yr achwynydd yn ei arwain
- wedi defnyddio ei dylanwad ar bwyllgor y neuadd leol i rwystro'r achwynydd rhag llogi'r neuadd.

## Penderfyniad yr Ombwdsmon

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Nid oedd yr achwynydd wedi cyflwyno tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r gŵyn ond hyd yn oed petai wedi gwneud hynny, nid oedd o'r farn y byddai wedi torri'r Cod Ymddygiad

Nid oedd yn glir os oedd yr aelod yn gweithredu fel aelod ar y pryd, ond hyd yn oed petai'n gwneud hynny, nid oedd yn fodlon ei bod wedi rhwystro'r achwynydd rhag llogi'r neuadd.

Cwyn bod cyngorydd cymuned wedi :

- Dylanwadu ar Clerc y cyngor ac wedi arwain ymgyrch o fwlio yn ei erbyn gyda chymorth y Clerc

Heb ddatgan buddiant mewn pwyllgor personél oedd yn ystyried cwynion yr aelod yn erbyn y clerc ac wedi penderfynu ar y canlyniad ymlaen llaw

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno i gefnogi fersiwn yr aelod o'r hyn oedd wedi digwydd
- Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno o gyswllt rhwng yr aelod a gyhuddwyd â'r clerc (y tu hwnt i gysylltiad sydd gan bob aelod o'r cyngor â'r Clerc).



# Dadansoddiad o'r Cwynion yn erbyn Aelodau

## **Aelod y gwnaed y gwyn yn ei (h)erbyn**

Aelod o gyngor cymuned	9
Aelod o Gyngor Gwynedd	4
Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned	0

## **Natur yr achwynydd**

Cynghorydd	4
Aelod o'r cyhoedd	8
Swyddog	1

## **Natur yr honiad**

Ymddygiad cyffredinol	6
Datgan Buddiant	6
Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant	1

## **Canlyniad**

Dim ymchwiliad	12
Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad	0
Ymchwiliad – tystiolaeth o dorri'r Cod ond dim camau pellach	1
Ymchwiliad - cyfeirio at y Pwyllgor Safonau	0
Ymchwiliad - cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru	0

# Eitem 13

<b>CYFARFOD</b>	CYNGOR
<b>DYDDIAD</b>	18 GORFFENNAF 2019
<b>PENNAWD</b>	PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU
<b>AWDUR</b>	SWYDDOG MONITRO
<b>PWRPAS</b>	PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU.
<b>AELOD CABINET</b>	Cyng. Nia Jeffreys

## 1. Cefndir

1.1 Gan fod gwasanaeth un o aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi dod i ben, hysbysebwyd am ymgeiswyr i lenwi'r sedd, yn unol â'r gofynion statudol ond gorfu gwneud gwaith pellach wedyn hefyd i annog ceisiadau. Ystyriwyd y ceisiadau gan Banel Ymgynghorol ar 26 Mehefin 2019.

1.2 O dan y ddeddfwriaeth berthnasol mae'n rhaid i'r Panel Ymgynghorol ystyried y ceisiadau ac yna argymhell wrth y Cyngor pa ymgeiswyr i'w penodi. Mae'r Panel yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac , yn unol â'r gofynion statudol, un aelod sydd yn aelod o gynghor cymuned neu dref ac 'aelod lleyg', sydd heb gysylltiad uniongyrchol â llywodraeth leol. Rôl y Panel yw ystyried pob cais a dderbynnir gan ddefnyddio'r meini prawf a osodwyd gan y Cyngor. Tra mai'r Cyngor sydd i wneud y penodiad, mae'n rhaid iddo roi sylw i argymhellion y panel.

1.3. Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrylwyr o'r holl geisiadau, penderfynodd y Panel argymhell penodi Mr Hywel Eifion Jones. Mae Hywel yn byw ym Mrynsiencyn Ynys Mon ac yn Ynad Heddwch yn eistedd yng Nghaernarfon

## 2. Argymhelliad

2.1 Penodi Hywel Eifion Jones yn aelod annibynnol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd i wasanaethu am gyfnod o 6 mlynedd.

### Swyddog Monitro

Awdur yr Adroddiad

### Swyddog Cyllid

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

# Eitem 14

<b>CYFARFOD</b>	CYNGOR
<b>DYDDIAD</b>	18 GORFFENNAF 2019
<b>PENNAWD</b>	PORTFFOLIOS CABINET
<b>AWDUR</b>	SWYDDOG MONITRO
<b>PWRPAS</b>	I adrodd ar addasiadau i'r cyfansoddiad .
<b>AELOD CABINET</b>	Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor.

## 1. Cyflwyniad

Yn unol â Rhan 5 o'r Cyfansoddiad mae Arweinydd y Cyngor wedi gweithredu i ail drefnu Portffolios Aelodau'r Cabinet. Mae'n ofynnol i mi adrodd yn ffurfiol i'r Cyngor fod y newid yma wedi ei weithredu.

## 2. Portffolios

Mae'r portffolios newydd wedi eu gosod yn Atodlen 1

### Argymhelliad

**Fod y Cyngor yn derbyn yr adroddiad**

### Swyddog Monitro

Awdur yr Adroddiad

### Swyddog Cyllid

**Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.**

Atodiad 1

1. Enw	2.Portffolio	3.Prif Feysydd Swyddogaethol
Cynghorydd Dyfrig Siencyn	<b>Arweinydd</b> Arweiniad Strategol;	Arweiniad Strategol Strategaeth Twf Gogledd Cymru Rhaglen Adfywio'r Cyngor
Cynghorydd Dafydd Meurig	<b>Dirprwy Arweinydd</b> Oedolion lechyd a Llesiant	Oedolion lechyd a Llesiant , Perthynas gyda Gwasanaeth lechyd, Rhaglen Cefnogi Pobl y Cyngor
Cynghorydd Cemlyn Rees Williams	Addysg	Addysg ac Ysgolion
Cynghorydd Gareth Griffiths	Amgylchedd	Amgylchedd
Cynghorydd Nia Jeffreys	Cefnogaeth Gorfforaethol	Cefnogaeth Gorfforaethol, Llywodraethu Corfforaethol a Gwasanaethau Cyfreithiol
Cynghorydd Ioan Thomas	Cyllid	Cyllid, Technoleg Gwybodaeth
Cynghorydd Gareth Thomas	Economi a Chymuned	Cefnogi Busnes, Twristiaeth, Adfywio Cymunedol , Prosiectau Strategol, Morwrol, Hamdden a Llyfrgelloedd, Celfyddydau ac Amgueddfeydd.
Cynghorydd Dilwyn Morgan	Plant a Phobl Ifanc	Plant a Phobl Ifanc Gwasanaeth leuenctid
Cynghorydd Catrin Wager	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Ymgynghoriaeth Gwynedd, Asiantaeth Cefnffyrdd
Cynghorydd Craig ap -Iago	Tai ac Eiddo	Tai ac Eiddo.

Nodyn – Mae ardaloedd cyfrifoldebau y Portffolios yn cyd-fynd a meysydd gwaith yr Adran neu Wasanaeth a nodir yng Ngholofn 2 yn ddarostyngedig i unrhyw ychwanegiadau neu addasiadau a nodi'r yng Ngholofn 3.

## CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

**Dyddiad y cyfarfod:** 18fed o Orffennaf, 2019  
**Teitl yr Eitem:** ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR  
**Swyddog Cyswllt:** GERAINT OWEN, PENNAETH GWASANAETHAU  
DEMOCRATAIDD

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Linda Morgan o gyfarfodydd y Cyngor oherwydd yr amgylchiadau personol, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan ei galluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.

#### 2. CEFNDIR A RHESYMEG

##### CEFNDIR

- 2.1 Mae Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi os yw aelod o awdurdod lleol yn methu mynychu unrhyw gyfarfod o'r awdurdod am gyfnod o chwe mis yn olynol o ddyddiad eu presenoldeb diwethaf, yna ni fyddant yn aelod o'r awdurdod mwyach.
- 2.2 Yr unig eithriad i hyn yw os y cymeradwyir yr absenoldeb gan yr awdurdod.

##### SEFYLLFA PRESENNOL CYNGHORYDD YNG NGHYNGOR GWYNEDD

- 2.3 Mae'r Cynghorydd Linda Morgan yn wael ar hyn o bryd ac felly mae hyn yn debygol o effeithio ar ei gallu i fynychu cyfarfodydd ffurfiol o'r awdurdod, er nad yw'n glir ar hyn o bryd am ba hyd y mae hyn am fod yn broblem.
- 2.4 Mae gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Linda Morgan o gyfarfodydd yr awdurdod er mwyn ei galluogi i barhau i fod yn aelod.
- 2.5 Os na roddir cymeradwyaeth i'r absenoldeb, yna byddai cyfnod y Cynghorydd Linda Morgan fel aelod o'r Cyngor yn dod i ben 6 mis ar ôl ei phresenoldeb diwethaf mewn cyfarfod o'r Cyngor.
- 2.6 Awgrymir, o dan yr amgylchiadau, y dylid cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Linda Morgan.

### **3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

#### **3.1 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

##### **Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o ran priodoldeb.

##### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

## CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

**Dyddiad y cyfarfod:** 18fed o Orffennaf 2019

**Teitl yr Eitem:** Adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:** Geraint Owen  
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor:

- fabwysiadu'r dyraniad seddau a nodir yn Atodiad A.
- ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol

#### 2. CEFNDIR A RHESYMEG

##### 2.1 CYFLWYNIAD

2.1.1 Adroddwyd yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 2il o Fai, 2019 fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

Plaid Cymru	40
Annibynnol	22
Llais Gwynedd	6
Grwp Annibynnol Unedig Gwynedd	3
Aelod Unigol	3

**Cyfanswm** 74

2.1.2 Ers hynny, mae un newid wedi bod fel a ganlyn:

- Cynghorydd Gareth Jones, Ward Morfa Nefyn, (Grŵp Plaid Cymru).

2.1.3 Bellach, felly, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

Plaid Cymru	41
Annibynnol	22
Llais Gwynedd	6
Grwp Annibynnol Unedig Gwynedd	3

Aelod Unigol 3

**Cyfanswm 75**

## **2.2 DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU**

2.2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

## **2.3 NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU**

2.3.1 Er y newid a nodir yn 1.2 uchod, mae'r cydbwysedd gwleidyddol yn parhau yn ddi newid.

2.3.2 Fodd bynnag, er mwyn ymateb i'r her o lenwi seddau, mae'r Grŵp Busnes yn argymhell un newid, sy'n cadw o fewn y balans gwleidyddol. Argymhellir fod Grŵp Annibynnol Unedig Gwynedd yn colli sedd ar y Pwyllgor Iaith, ond yn ennill sedd ar y Pwyllgor Trwyddedu Canolog. I gyd-fynd â hyn, fod yr Aelod Unigol (Cyngorydd Sion Jones) yn colli sedd ar Pwyllgor Trwyddedu Canolog, ond yn ennill sedd ar y Pwyllgor Iaith. Mae'r newid wedi ei liwio mewn melyn yn yr Atodiad.

2.3.3 Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol fel a nodir yn **Atodiad A**.

## **3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

### **3.1 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

#### **Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb



**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**ATODIAD A – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU**

A	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Annibynnol Unedig Gwynedd	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	10	5	2	1		18
Pwyllgor Craffu Cymunedau	10	5	2	0	1	18
Pwyllgor Craffu Gofal	10	5	1	1	1	18
Archwilio a Llywodraethu	10	5	1	1	1	18

B	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Annibynnol Unedig Gwynedd	Aelod Unigol	Cyfanswm
Gwasanaethau Democrataidd	8	5	1	1		15
Cynllunio	8	4	1	1	1	15
Trwyddedu Canolog	8	4	1	1	2-1	15
Iaith	8	5	1	1	1 (SJ)	15
Penodi Prif Swyddogion	8	5	2	0		15
Apelau Cyflogaeth	4	2	1	0		7
<b>Nifer y seddau</b>	<b>84</b>	<b>45</b>	<b>13</b>	<b>6</b>	<b>6</b>	<b>154</b>

C	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Annibynnol Unedig Gwynedd	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pensiynau	4	2	0	0	1	7
Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol	6	3	1	1		11
CYSAG	4	3	0	0		7
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd	5	2	1	0		8

<b>Cyfanswm y seddau</b>	<b>103</b>	<b>55</b>	<b>15</b>	<b>7</b>	<b>7</b>	<b>187</b>
--------------------------	------------	-----------	-----------	----------	----------	------------

Lesley Griffiths AC/AM  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/05807/19

Annwen Hughes

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

30

Ebrill 2019

Annwy Ms Hughes

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Ebrill mewn perthynas â gwerthu cŵn bach drwy drydydd parti. Rwy'n nodi eich cefnogaeth ar gyfer y mater hwn.

Mae lles anifeiliaid a sicrhau bod perchnogion anifeiliaid yn ymddwyn mewn ffordd gyfrifol yn flaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru (WAHWFG). Rydym wedi ymrwmo i gynnal safonau lles uchel ar gyfer yr holl anifeiliaid sy'n cael eu cadw yng Nghymru, yn ystod pob cyfnod o'u bywydau.

Daeth Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill 2015. Mae'r Rheoliadau'n gwneud trwydded yn ofynnol i unrhyw un sydd â thair gast fridio neu fwy, ac yn gosod meini prawf llym ar gyfer y bridwyr trwyddedig hynny. Gwnaeth cyflwyno'r Rheoliadau arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â phryderon ynghylch llesiant mewn sefydliadau bridio cŵn yng Nghymru. Dyma oedd y ddeddfwriaeth gyntaf o'r fath yn y DU. Er hynny, credaf y byddai'n werth chweil ymchwilio i'r posibilrwydd o wahardd gwerthu cŵn bach drwy drydydd parti, fel y dywedais yn fy natganiad llafar ar 19 Mehefin 2018, ac rwyf wedi cadarnhau fy mod yn bwriadu adeiladu ar y gwelliannau a wnaed ers i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) 2014 ddod i rym.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tud. 151**

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael ag achos gwreiddiol unrhyw bryderon ynghylch lles wrth inni newid deddfwriaeth. Mae gwybodaeth am gadwyn gyflenwi cŵn bach yn arbennig o arwyddocaol yn y broses hon. Yn dilyn fy ymrwymiad, lansiais ymgynghoriad ar werthu cŵn bach drwy drydydd parti ar 19 Chwefror, a fydd yn dod i ben ar 17 Mai. Isod rwyf wedi atodi dolen i dudalen yr ymgynghoriad, ac rwy'n edrych ymlaen at dderbyn eich cyfraniad.

<https://llyw.cymru/gwerthiant-trydydd-parti-cwn-chathod-bach>

*Yn gywir*  
*Lesley Griffiths*

**Lesley Griffiths AC/AM**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

# Eitem 18b

Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

Y Gwir Anrh. Claire Perry AS

Gweinidog dros Ynni a Thwf Glân

Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

1 Victoria Street

Llundain

SW1H 0ET

Ff +44 (0) 20 7215 5000

E [enquiries@beis.gov.uk](mailto:enquiries@beis.gov.uk)

G [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Ein cyf: MCSL2019/07845

15 May 2019

Cynghorydd Annwen Hughes

Cadeirydd y Cyngor

Cyngor Gwynedd

Stryd y Castell

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1SE

Annwyl Cyng. Hughes,

Diolch yn fawr iawn i chi am eich llythyr 16 Ebrill i Michael Gove, AS, parthed y cynnig am newid hinsawdd a fabwysiadodd Cyngor Gwynedd yn ddiweddar. Mae eich llythyr wedi'i gyflwyno i mi gan fod newid hinsawdd yn rhan o'm portffolio Gweinidogol i.

Heb os, mae newid hinsawdd yn un o'r heriau byd-eang mwyaf dwys yr ydym yn ei wynebu. Bydd y penderfyniadau a wnawn ni heddiw yn effeithio dyfodol ein planed am genedlaethau, ac mae'r Llywodraeth yn llwyr gydnabod fod angen gweithredu brys yn ein gwlad ein hunain a ledled y byd. Fodd bynnag, rhaid i ni feddwl am yr her o'n blaen gyda gobaith yn hytrach nac ofn. Dylem fod yn falch o arweinyddiaeth y DU wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r cynnydd gwirioneddol yr ydym wedi'i wneud wrth leihau ein hallyriadau gan hefyd sbarduno twf economaidd glanach. Dylid dathlu

ein cyraeddiadau – nid er mwyn awgrymu ein bod yn gysetlyd, ond i ddangos fod modd datrys her newid hinsawdd, os oes gennym bolisi gwladol uchelgeisiol a gweithgarwch rhyngwladol cydunol.

Ein Deddf Newid Hinsawdd 2008 ni oedd y gyntaf o'i bath yn y byd a gosododd amcan ymrwymol cyfreithiol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o 80% o leiaf erbyn 2050 o'i gymharu â lefelau 1990. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd da tuag at y targed hwnnw – rhwng 1990 a 2017 lleihaodd y DU ei allyriadau dros 40% a thyfodd yr economi dros ddau draean ar yr un pryd – o'r data diweddaraf sydd ar gael ledled gwledydd hyd at 2016, hwn yw'r perfformiad gorau yn y G7 fesul person.

Rydym yn cydnabod yr angen i fynd ymhellach ac mae'r Strategaeth Twf Glân yn nodi ein cynlluniau i weithredu ymhellach ar ein cynnydd wrth ddatgarboneiddio'r sector ynni, wrth i ni edrych ymhellach ar draws yr economi yn ei gyfanrwydd a'r wlad, hyd at 2032. Mae'n cynnwys prosiectau uchelgeisiol ym maes tai, busnes, teithio, yr amgylchedd naturiol ac arian gwyrdd. Ceir rhagor o fanylion ar y Strategaeth Twf Gwyrdd yn: [www.gov.uk/government/publications/clean-growth/strategy](http://www.gov.uk/government/publications/clean-growth/strategy) <<http://www.gov.uk/government/publications/clean-growth/strategy>>.

Rydym yn gyson yn adolygu ein cynnydd, ac yn ymateb y Llywodraeth y llynedd i adroddiad cynnydd blynyddol ein hymgynghorwyr annibynnol, sef y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC), amlinellasom y cynnydd a wnaed ers cyhoeddi'r Strategaeth Twf Glân. Cewch ddarllen ymateb y Llywodraeth ar-lein yn: [www.gov.uk/government/publications/committee-on-climate-changes-2018-progress-report-government-response](http://www.gov.uk/government/publications/committee-on-climate-changes-2018-progress-report-government-response).

Rydym yn argyhoeddedig o'r angen am weithredu brys ar newid hinsawdd, sef y rheswm dros ofyn i'r CCC am gyngor fis Hydref diwethaf ar oblygiadau Cytundeb Paris i dargedau lleihau allyriadau'r DU dros y tymor hir, gan gynnwys gosod targed net o ddim. Cyhoeddodd y CCC ei gyngor i'r Llywodraeth ar 2 Mai 2019. Mae'n nodi trywydd i'r DU er mwyn iddo fod yr economi mawr cyntaf i ddeddfwriaethu i ddod â'n cyfraniad at gynhesu byd eang i ben. Rydym bellach yn ystyried yr adroddiad cynhwysfawr, arloesol hwn, ac rydym wedi ymrwymo i ymateb mewn amserlen sy'n adlewyrchu brys y mater allweddol hwn.

Rhaid rhannu'r ymdrech i gyflawni twf glân a mynd i'r afael â newid hinsawdd rhwng y Llywodraeth, cenhedloedd datganoledig, Awdurdodau Lleol, busnes, cymdeithas sifil, a phobl Prydain - yn ogystal â gweddiill y byd. Dyna pam ein bod wedi cynnal y Green GB Week cyntaf y llynedd - enghraifft anhygoel ohonom yn dod at ein gilydd i godi ymwybyddiaeth o dwf glân a'r heriau dybryd sy'n ein hwynebu wrth ymdrin â newid hinsawdd, gan ddangos y cyfleoedd y gallai gweithredu ar y materion hynny eu hildio. Bydd Green GB Week eleni yn digwydd rhwng 4 ac 8 Tachwedd, fel rhan o Flwyddyn Gweithredu Wyrdd y Llywodraeth, a buaswn wrth fy modd pe gallai Cyngor Gwynedd gymryd rhan. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan ([greengb.campaign.gov.uk/](http://greengb.campaign.gov.uk/)) yn fuan.

Mae'r Llywodraeth yn cynnig amrywiaeth o raglenni y gall Awdurdodau Lleol gael mynediad iddynt er mwyn cefnogi datgarboneiddio yn lleol, er enghraifft ar ein Rhwydweithiau Heat, Rhwymedigaeth y Cwmni Ynni, a gwefru Ceir Trydan. Pe dymunwch ragor o wybodaeth, buaswn yn eich annog i gysylltu â swyddogion y Tîm Ynni Lleol yn fy Adran i ar: [localenergy@beis.gov.uk](mailto:localenergy@beis.gov.uk) <<mailto:localenergy@beis.gov.uk>>.

Diolch eto am gymryd o'ch amser i ysgrifennu. Yn ogystal â'r llythyr hwn, amgaeaf grynodedb o'r 'Deg Gweithred Newid Hinsawdd i'w Dathlu' a allai fod o ddiddordeb i chi. Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon a'r llythyr yn ddefnyddiol i chi.

Yr eiddoch yn gywir,

DEG CAM GWEITHREDU HINSAWDD I'W DATHLU

1. Cymeradwyodd y DU Ddeddf Newid Hinsawdd gyntaf y byd dros ddegawd yn ôl gyda chefnogaeth drawsbleidiol. Rhoddodd hyn fframwaith i ni sefydlu cyllidebau carbon statudol a sefydlu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd annibynnol.
2. Ers 2000, dengys dadansoddiad annibynnol nad oes yr un wlad ddiwydiannol arall wedi gwneud mwy na'r DU i leihau dwysedd CO<sub>2</sub> (y mesur carbon am bob punt o'r Cynnyrch Domestig Gros). Rydym wedi gweld gostyngiadau o 3.7 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd, o'i gymharu â chyfartaledd yr UE o 2.3 y cant a chyfartaledd o 2.2 y cant o blith y G7. Y tro diwethaf yr oedd allyriadau yn y DU mor isel â hyn oedd ym 1888 pan oedd y Frenhines Fictoria ar yr orsedd, ac mae ein cynnydd yn cyflymu: rhwng 2010 a 2018, llwyddasom i leihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdr o tua chwarter ar gyfartaledd.
3. Rhoi'r gorau i ddefnyddio glo wrth gynhyrchu trydan drwy newid sylweddol i ffynonellau adnewyddadwy a nwy, drwy ysgogiad gweithrediadau polisi: pris gwaelodol carbon yn y DU (yn ogystal â'r ETS o Ewrop). Rydym wedi gweld defnydd glo ar y grid yn cwmpo o bron i 40 y cant yn 2012 i'r diwrnod cyntaf o gynhyrchiant "di-garbon" fis Ebrill diwethaf, ac ym mis Mai 2019 cawsom ein hwythnos gyntaf heb lo ers y Chwyldro Diwydiannol. Erbyn 2025 ni fydd y DU yn defnyddio glo i gynhyrchu ynni o gwbl.
4. Rydym wedi defnyddio'r llwyddiant yma i sefydlu Cynghrair Gyrru Heibio Glo (Powering Past Coal Alliance) byd-eang gyda Chanada – sef cynghrair o 80 o lywodraethau cenedlaethol ac is-genedlaethol, busnesau a sefydliadau sydd wedi'u hymrwymo i raddol ddiddymu cynhyrchiant glo heb osteg erbyn 2030 fan bellaf.
5. Mae cynhyrchiant trydan adnewyddadwy wedi cynyddu o bedair gwaith ers 2010 ac mae ynni glân bellach yn rhoi dros 50 y cant o'n cyfanswm i ni.
6. Mae ein cymysgedd o ffynonellau adnewyddadwy yn amrywiol ond rydym yn gyflym ddatblygu potensial anhygoel gwynt alltraeth o amgylch ein morlin, gyda'r capasiti alltraeth fwyaf yn y byd (8GW) a lansiad yr wythnos ddiwethaf o gytundeb sector newydd gwerth £250 miliwn i ddarparu o leiaf 30 y cant o'n trydan o wynt erbyn 2030).
7. Mae'r sector carbon isel a'i gadwyn gyflenwi nawr yn darparu bron i 400,000 o swyddi coler werdd yn y DU (mwy nac awyrofod) ac mae'n tyfu yn llawer cynt na'r brif economi – gydag allforion posib amcangyfrifol o fyw na £60 biliwn erbyn 2030.

8. Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi dros £2.5 biliwn mewn technoleg garbon isel yn ystod oes y senedd hon - y buddsoddiad mwyaf erioed mewn ymchwil a datblygu cyhoeddus mewn twf glân.
9. Rydym eisiau mynd ymhellach ac yn gynt a'r DU oedd yr economi diwydiannol mawr cyntaf i ofyn am gyngor annibynnol (gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd) ar sut i gael economi Sero Net ar ôl cyhoeddi adroddiad yr IPCC y llynedd.
10. Rydym yn gyson wedi bod ar flaen y gad gyda gweithredu yn rhyngwladol, gan gynorthwyo i arwain cynhadledd Hinsawdd Paris 2015, cyflwyno £6 biliwn mewn Ariannu Hinsawdd Ryngwladol yn ystod oes y Senedd hon a gwneud cais i gynnal trafodaethau hinsawdd 2020 y Cenhedloedd Unedig yma yn y DU.





Eich cyf/Your ref ER  
Ein cyf/Our ref LG/05808/19

Annwen Hughes  
Cadeirydd y Cyngor  
Cyngor Gwynedd

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

7 Mai 2019

*Annwen Cyn Hughes*

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Ebrill, ynghylch y cynnig a fabwysiadwyd mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Gwynedd i ddatgan Argyfwng Hinsawdd ac i ymdrechu am ddyfodol digarbon.

Ar ran Llywodraeth Cymru, datganiais argyfwng hinsawdd yng Nghymru ar 29 Ebrill. Yn dilyn dadl yn y Senedd, pleidleisiodd Aelodau'r Cynulliad i ddatgan argyfwng hinsawdd ar 1 Mai. Rhaid inni nawr ddefnyddio'r cyfle hwn i gymryd camau mentrus, yn unigol ac ar y cyd, ac mae'r sector cyhoeddus mewn sefyllfa dda i arwain y ffordd.

Ar 21 Mawrth cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, sef y cynllun sy'n disgrifio sut y byddwn yn cyflawni ein cyllideb garbon gyntaf (2016-2020) ac yn pennu'r cyfeiriad tuag at ein targed hirdymor. Mae'r Cynllun yn disgrifio 100 o bolisiau a chynigion sydd wedi'u rhannu yn ôl portffolio. Maent oll yn tystio i ymrwymiad y Cabinet i gyflymu'r broses o drosglwyddo i economi carbon isel o fewn y blynyddoedd nesaf.

Er mwyn cyrraedd ein targedau datgarboneiddio uchelgeisiol, bydd angen llawer o arweinyddiaeth, cydweithio â'n partneriaid a chynnwys cymdeithas ac ae'r cynllun yn cydnabod rôl arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus i ysgogi datgarboneiddio. Mae'r cynllun yn amlygu'r ymrwymiad a gyhoeddais yn 2017 ar gyfer sector cyhoeddus carbon niwtral yng Nghymru erbyn 2030, ac yn awgrymu rhai polisiau a chynigion i ddechrau ar y daith honno.

Mae'n galonogol iawn bod Cyngor Gwynedd yn cymryd effeithiau negyddol y newid yn yr hinsawdd o ddifrif ac eich bod yn benderfynol o gymryd camau i leihau eich allyriadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tud. 157**

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n eich annog i fanteisio i'r eithaf ar y gwasanaethau cymorth presennol sydd ar gael i chi drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a'r cyllid di-log a ddarparwn ar gyfer gweithredu mesurau cost-effeithiol.

Rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid ar draws y Sector Cyhoeddus i archwilio cyfleoedd a sbarduno gweithredau ar y lefel lleol, rhanbarthol a Cymru gyfan fel y bo'n briodol. Mae fy swyddogion ar gael i drafod eich cynlluniau i leihau allyriadau gyda chi ac i ystyried sut y gallem gydweithio i sicrhau Gwynedd ddi-garbon.

*Xn gywir*  
*Lesley Griffiths*

**Lesley Griffiths AC/AM**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs